Cymru Wrth-hiliol

An Anti-racist Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – Flwyddyn yn Ddiweddarach

Adroddiad Blynyddol 2022 – 2023

# Cynnwys

Tudalen

3 Crynodeb Gweithredol
7 Rhagair gan y Gweinidog
8 Rhagair y Cyd-gadeiryddion

Adran 1

10 Cyflwyniad

Adran 2

12 Mentrau a Chyflawniadau Allweddol
12 2.1. Arweinyddiaeth
16 2.2. Addysg a'r Gymraeg
27 2.3. Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon
35 2.4. Iechyd
38 2.5. Gofal Cymdeithasol
42 2.6. Cartrefi a Lleoedd
52 2.7. Llywodraeth Leol
54 2.8. Cyflogadwyedd a Sgiliau, gan gynnwys Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg ac Entrepreneuriaeth
59 2.9. Cenedl Noddfa
64 2.10. Trosedd a Chyfiawnder
70 2.11. Gofal Plant a Chwarae

Tudalen

Adran 3

73 Mynd y tu hwnt i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
73 3.1. Gwneud y cysylltiad â Threchu Tlodi a Hawliau Plant
73 3.2. Teuluoedd
74 3.3. Yr Amgylchedd a Materion Gwledig
74 3.4. Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad, gan gynnwys noddi'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru

Adran 4

76 Mesur Effaith
76 4.1. Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil (RDEU)

Adran 5

79 Casgliad

© Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47950, ISBN digidol 978-1-83577-206-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Crynodeb Gweithredol

**Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ym mis Mehefin 2022, rydym nawr yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol cyntaf Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae hyn yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â chynnydd o ran trechu hiliaeth systemig, sefydliadol a strwythurol. Mae ein taith tuag at gyflawni gweledigaeth o sicrhau y bydd Cymru'n wrth-hiliol erbyn 2030 wedi bod yn datblygu momentwm gyda chymorth da gan randdeiliaid mewnol ac allanol ledled Cymru. Ceir cydnabyddiaeth gynyddol bod gennym, gyda'n gilydd, uchelgais am newid ond ein bod wir yn pryderu y bydd yn cymryd amser i weld newid sylweddol ar lawr gwlad. Mae hiliaeth wedi cael ei gwreiddio yn ein holl strwythurau a phrosesau ers degawdau ac, felly, bydd angen ymdrech barhaus a bwriadol i'w dileu. Wrth ddweud hyn, rydym yn cydnabod bod pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru am weld newid nawr. Mae dangos cynnydd gwirioneddol ym mhrofiad bywyd pobl wrth inni fynd i'r afael â phroblemau systemig a strwythurol yn flaenoriaeth glir i'r Grŵp Atebolrwydd Allanol.**

## Ein Hymrwymiad

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi gweledigaeth, diben a gwerthoedd wedi'u cydlunio. Ein diben cyffredinol yw mynd ati gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Mae hyn yn seiliedig ar ein gwerthoedd craidd, sef bod yn agored ac yn dryloyw, sicrhau bod profiad bywyd wrth wraidd ein holl waith, a gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar hawliau wrth inni weithio i wireddu ein gweledigaeth o wneud Cymru'n wlad wrth-hiliol erbyn 2030.

Mae ein hymrwymiad i ddileu hiliaeth yng Nghymru yn seiliedig ar chwe maes allweddol lle mae pobl ethnig leiafrifol yn wynebu hiliaeth:

1. **Bywyd Beunyddiol:** Rydym yn gweithio i ddileu hiliaeth o wead bywyd beunyddiol, gan wneud Cymru'n lle croesawgar i bawb.
2. **Darparu Gwasanaethau:** Mae pobl ethnig leiafrifol yn haeddu mynediad cyfartal at wasanaethau heb ragfarn na gwahaniaethu.
3. **Cynhwysiant yn y Gweithle:** Ein nod yw creu gweithleoedd sy'n wrth-hiliol ac sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth, lle mae'r holl gyflogeion yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u grymuso.
4. **Cyfleoedd Cyflogaeth:** Rydym yn benderfynol o sicrhau chwarae teg, gan sicrhau bod cyfleoedd am swyddi ar gael i bawb.
5. **Cynrychiolaeth mewn Pŵer:** Mae prinder modelau rôl gweladwy yn destun pryder, ac rydym yn ymrwymedig i hybu amrywiaeth mewn swyddi pwerus a dylanwadol.
6. **Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches neu groestoriadedd arall:** Rydym yn cydnabod yr heriau unigryw sy'n wynebu ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac rydym yn gweithio i gynnig cymorth a chyfleoedd i'w hintegreiddio.

Y chwe maes uchod yw craidd ein gweithgareddau i sicrhau newid ystyrlon, gan sicrhau y gall pob unigolyn, beth bynnag fo'i gefndir, lwyddo mewn cymdeithas wirioneddol wrth-hiliol.

Mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn y sector cyhoeddus, sector preifat a thrydydd sector wedi bod yn mynd i'r afael â'r angen am newid. Yma adroddwn ar fyfyrdodau cynnar ar sut beth yw'r newid hwnnw.

## Blwyddyn Un: Gosod y Sylfeini ar gyfer Cymru Wrth-hiliol

Rydym yn cydnabod efallai nad yw effaith ein gwaith i'w gweld eto ym mhrofiad bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ond mae sylfeini pwysig wedi cael eu gosod.

Rydym wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac arwain y gwaith. Bydd y 'fframwaith llywodraethu' yn chwarae rhan bwysig er mwyn sicrhau y byddwn yn cyflawni'r hyn rydym wedi dweud y byddwn yn ei gyflawni ac y bydd yr hyn a wnawn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Credwn fod cael lleisiau 11 o Gynrychiolwyr Amrywiaeth ac wyth Arbenigwr drwy Brofiad er mwyn helpu i ddwyn y Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus i gyfrif yn cyfrannu'r profiadau bywyd a'r arbenigedd a fydd yn ein helpu i gyflawni mewn ffordd na wnaethpwyd erioed o'r blaen.

I gefnogi ein gweledigaeth ymhellach, rydym hefyd wedi sicrhau holl adnoddau tîm gweithredu amlhiliol llawn, ac mae'r Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb sydd newydd ei sefydlu yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil, yn atgyfnerthu ein dealltwriaeth o'r ffordd y gall data arwain ein camau gweithredu.

Rydym hefyd wedi ailddiffinio'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phobl ethnig leiafrifol drwy sefydlu gweminarau misol a gweithio tuag at greu pedwar fforwm rhanbarthol ledled Cymru. Mae'r fforymau hyn yn rhoi llwyfan uniongyrchol i leisiau ethnig leiafrifol, gan sicrhau yr eir i'r afael â'u pryderon.

Yr hyn sy'n allweddol i'n llwyddiant yw ymrwymiad arweinyddiaeth cadarn ein Prif Weinidog, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, a'n cyd-gadeiryddion. Hefyd, mae arweinwyr gwasanaethau cymdeithasol yn croesawu amcanion gwrth-hiliol personol, gan gadarnhau eu hymroddiad i'n hachos.

Drwy osod y sylfeini cadarn hyn, rydym wedi lliniaru pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o golli momentwm a 'bwlch gweithredu'. Rydym yn ymrwymedig i wneud cynnydd tuag at greu Cymru Wrth-hiliol ar gyfer ei holl bobl erbyn 2030.

## Effaith Ddiriaethol y Cynllun

Caiff ein Grŵp Atebolrwydd Allanol, sy'n cynnwys 11 o unigolion sydd â phrofiadau bywyd ac wyth arbenigwr gwrth-hiliaeth, ei lywio gan ei gyd-gadeiryddion, sef yr Ysgrifennydd Parhaol Andrew Goodall a'r academydd yr Athro Emmanuel Ogbonna. Rydym wedi defnyddio'r llwyfan hwn a chyrhaeddiad arweinyddiaeth Gweinidogion Cymru, gyda chymorth y Grŵp Atebolrwydd Allanol, i bledio achos gwrth-hiliaeth ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Er enghraifft, maent wedi arwain uwch-gynhadledd arweinyddiaeth lefel uchel, gan feithrin ymrwymiadau i wreiddio gwrth-hiliaeth mewn sectorau amrywiol. Bydd Tîm Gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn goruchwylio'r ymrwymiadau hyn. O fewn Llywodraeth Cymru, rydym wedi ffurfio grwpiau cymorth er mwyn sicrhau y bydd profiadau bywyd yn arwain ein camau gweithredu, gan bwysleisio cydgynhyrchu.

Mae ein hymrwymiad i ddarparu adnoddau diriaethol ar gyfer grymuso cymunedau yn amlwg mewn amrywiaeth o adrannau, sy'n dosbarthu grantiau ac yn lansio mentrau llawr gwlad ar gyfer mynd i'r afael â'r anghydbwysedd o ran mynediad at gyllid a chymorth sydd wedi bodoli o'r blaen, ac ymateb i flaenoriaethau a buddiannau pobl ethnig leiafrifol. Mae'r trydydd sector ethnig leiafrifol wedi cyflawni rôl allweddol er mwyn cyflawni newid. Yn aml, caiff mentrau bach ond hynod arwyddocaol eu cynnal gan sefydliadau partner ethnig leiafrifol, sy'n bosibl oherwydd cyllid gan y Llywodraeth neu gyrff a ariennir.

Mae camau breision sylweddol wedi cael eu gwneud mewn meysydd polisi y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn, er gwaethaf yr heriau, megis blaenoriaethu anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r adroddiad yn rhoi cipolwg ar amrywiaeth o feysydd polisi, gan gynnwys arweinyddiaeth a chynrychiolaeth, addysg, diwylliant, treftadaeth, iechyd, gofal cymdeithasol, tai, llywodraeth leol, cyflogadwyedd a sgiliau, entrepreneuriaeth, cymorth i ffoaduriaid, trosedd a chyfiawnder, gofal plant, a chwarae.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd, rydym yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud a bod heriau o'n blaen. Mae ein hymrwymiad i hyrwyddo gwrth-hiliaeth yn gryf o hyd. Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu ein taith gyfunol, y gwaith o ddatblygu prosesau a pholisïau gwrth-hiliol, a'r seilwaith rydym wedi'i greu er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol yn y dyfodol.

Dyma grynodeb o bob un o'r adrannau yn yr adroddiad hwn:

**2.1. Arweinyddiaeth:** Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar waith Llywodraeth Cymru ym maes gwrth-hiliaeth, gyda phwyslais cryf ar gynyddu cynrychiolaeth ymhlith uwch-arweinwyr ac aelodau Bwrdd. Mae'r cynnydd hyd yma yn cynnwys sicrhau ymrwymiadau gan holl Uwch-weision Sifil Llywodraeth Cymru i bennu amcanion gwrth-hiliaeth personol, a chyhoeddi bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd Llywodraeth Cymru.

**2.2. Addysg a'r Gymraeg:** Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith ym myd addysg, gan gynnwys Ysgolion, Addysg Bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU). Yn nodedig ddigon, gwnaeth Cymru rywbeth hanesyddol ym mis Medi 2022 drwy ei gwneud yn ofynnol addysgu am hanes a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm i Gymru. Ym maes AU, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi sefydlu rhwydwaith gwrth-hiliaeth, wedi cyhoeddi adroddiadau cydraddoldeb hil, ac mae wrthi'n mynd i'r afael â gwahaniaethau mewn tâl. Mae ysgolion wedi canolbwyntio ar recriwtio athrawon o blith pobl ethnig leiafrifol, cynnig cymhellion iddynt hyfforddi, a gwreiddio arferion gwrth-hiliol.

Ymhlith yr ymdrechion yng nghyd-destun y Gymraeg mae safoni terminoleg Gymraeg a chyhoeddi terminoleg Gymraeg gymeradwy ym maes hil ac ethnigrwydd sydd i'w gweld yma: Terminoleg y Gymraeg ym maes hil ac ethnigrwydd.

Mae cwrs blasu 'Croeso i Bawb', sydd bellach ar gael ar ffurf cwrs hunanastudio, yn cyflwyno agweddau hanfodol ar Gymru a bywyd yng Nghymru. Mae'r adnodd hwn ar gael mewn pum iaith: Cantoneg, Arabeg Syria, Ffarsi, Pashto ac Wcreineg.

**2.3. Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon:** Mae'r adran hon yn tynnu sylw at fentrau sy'n datblygu arferion gwrth-hiliol, cyfle cyfartal, a chymryd rhan yn y sectorau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon. Mae dros £2.8 miliwn wedi cael ei ddosbarthu rhwng 22 o sefydliadau, a hynny i gyd gyda'r nod o flaenoriaethu cydgynhyrchu er mwyn sicrhau lle canolog i brofiadau bywyd wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau. Mae Cynllun Grant Diwylliant Llywodraeth Cymru ar gyfer Sefydliadau ar Lawr Gwlad, sy'n cael ei weinyddu gan Diverse Cymru, yn cefnogi gweithgareddau diwylliannol ar lawr gwlad ymhlith grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru.

**2.4. Iechyd:** Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o ymrwymiadau sy'n cynnwys sefydlu Bwrdd Her, mandadau arweinyddiaeth wrth-hiliol, ac archwiliadau o bolisïau'r gweithlu. Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ansawdd data, Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig ym meysydd gofal mamolaeth ac iechyd meddwl. Mae cyfnod gweithredu Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru wedi dechrau. Nod y Safon hon yw asesu data ar y gweithlu cyfan er mwyn dod o hyd i wahaniaethau sy'n effeithio ar weithwyr ethnig leiafrifol. Nod y Safon yw meithrin newid diwylliannol, cadw golwg ar gynnydd o ran cydraddoldeb hil y gweithlu, ac adrodd mewn modd systematig ar fwlio, aflonyddu, arweinyddiaeth, cynnydd, hyfforddiant, recriwtio a chyflog yn y sector iechyd.

**2.5. Gofal Cymdeithasol:** Mae grŵp llywio partneriaeth, sy'n cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC), ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), wrthi'n cefnogi cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'n gweithredu mewn ffordd sy'n dibynnu ar gynigion sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn targedu'r grŵp hwn yn effeithiol. Mae gwaith i fapio anghenion iaith, dehongli/cyfieithu a diwylliannol pobl ethnig leiafrifol sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn mynd rhagddo.

**2.6. Cartrefi a Lleoedd:** Mae'r ymdrech wedi canolbwyntio ar wella amrywiaeth o fewn sefydliadau tai drwy gydweithio â grwpiau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae prosiect Get into Housing yn cynnig lleoliadau gwaith am dâl i unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir o gymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghaerdydd, sy'n cyd-fynd â nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae Rhentu Doeth Cymru, mewn cydweithrediad â Tai Pawb, wedi lansio deunyddiau hyfforddi sydd wedi'u teilwra ar gyfer y sector rhentu preifat, ac maent bellach ar gael ar borth hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru ers diwedd mis Mawrth 2023. Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd wedi recriwtio aelodau amrywiol ac wedi ffurfio cysylltiadau â grwpiau ethnig lleiafrifol amrywiol er mwyn gwella ymdrechion recriwtio.

**2.7. Llywodraeth Leol:** Mae'r cynnydd o ran llywodraeth leol yn cynnwys ehangu'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig er mwyn rhoi hwb i gynwysoldeb a chynrychiolaeth pobl ethnig leiafrifol. Mae proses ymgynghori wedi'i chwblhau, ac roedd yn canolbwyntio ar atgyfnerthu'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau awdurdodau lleol drwy sicrhau ei fod yn gyson â'r Ddeddf Cydraddoldeb, gan wella ymddiriedaeth yn y system a mynd i'r afael â'r holl gwynion a ddaw i law a gweithredu mewn ymateb iddynt. Mae'r ymdrechion yn ymestyn i wella gwybodaeth i bleidleiswyr ac ymgysylltu â phleidleiswyr, a blaenoriaethu cynwysoldeb a chyfranogiad democrataidd.

Rydym wedi darparu cyllid ar gyfer 2023/24 drwy ein Grant Ymgysylltu â Democratiaeth er mwyn gwella lefelau ymgysylltu â democratiaeth.

**2.8. Cyflogadwyedd a Sgiliau, gan gynnwys Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg ac Entrepreneuriaeth:** Mae'r cynnydd yn y maes hwn yn cynnwys gwella gwybodaeth a data am nifer y bobl ethnig leiafrifol sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd. Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn datblygu Fframwaith Dysgu fel Teulu er mwyn gwella cyflogadwyedd i blant ac oedolion, gan fagu hyder i ymgymryd â dysgu pellach.

Mae'r gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cyflog yn cynnwys cydweithio â Cynnal Cymru i gynyddu cyfraddau mabwysiadu'r cyflog byw gwirioneddol ac ymrwymo i ddileu bylchau cyflog ar sail rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd erbyn 2050. Mae partneriaethau cymdeithasol â chyflogwyr ac undebau wedi bod yn allweddol er mwyn codi ymwybyddiaeth o arferion gwrth-hiliol.

Mewn partneriaeth â Race Equality First (REF), mae Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Busnes Cymru wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynhwysol ac yn rhydd rhag rhagfarn, gwahaniaethu ac ymyleiddio i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r cynllun hwn yn gosod esiampl o ran gweithredu mewn ffordd wrth-hiliol, a bydd yn cynnwys datganiad gwrth-hiliol ar wefan Busnes Cymru.

**2.9. Cenedl Noddfa:** Mae'r adran hon yn tynnu sylw at gynnydd o ran ehangu'r cymorth i fudwyr dan orfod, cyllid ar gyfer tai i ffoaduriaid, a chymorth parhaus i Hybiau ESOL. Ymhlith y cyflawniadau mae ymestyn Gwasanaeth Noddfa Cymru i atgyfnerthu'r cymorth i fudwyr dan orfod, cyllid ar gyfer 'Prosiect Tai i Ffoaduriaid', a chyllid parhaus ar gyfer Hybiau ESOL. Hefyd, mae grŵp gorchwyl a gorffen sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl ar gyfer pobl ethnig leiafrifol wedi cael ei sefydlu er mwyn gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl.

**2.10. Trosedd a Chyfiawnder:** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau casineb â chymhelliant hiliol drwy fentrau fel Canolfan Cymorth Casineb Cymru, amrywiol ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, a chyfleoedd cyllido drwy'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol. Rydym yn dal yn ymrwymedig i sicrhau atebolrwydd, ysgogi newid ym maes cyfiawnder troseddol, mynd i'r afael â throseddau casineb, meithrin cydlyniant cymunedol, a bwrw ymlaen ag agenda wrth-hiliol.

Gan weithio gyda phartneriaid ym maes cyfiawnder troseddol, ym mis Medi 2022, lansiwyd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol, sef y tro cyntaf i bartneriaid cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y pedwar heddlu yng Nghymru, y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi gydweithio er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y system. Mae panel annibynnol yn goruchwylio'r Cynllun, ac mae Cynllun Gweithredu dwy flynedd wedi cael ei ddrafftio er mwyn pontio'r bwlch gweithredu. Mae dangosfwrdd gwahaniaethau ar sail hil wedi cael ei greu er mwyn mesur effeithiolrwydd y Cynllun. Drwy delerau'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi tuag at recriwtio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, rydym yn ymrwymedig i gynyddu cynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ymhlith lluoedd yr heddlu yng Nghymru fel bod heddluoedd yn gwbl gynrychiadol o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt ac er mwyn helpu i feithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltu cadarnhaol.

**2.11. Gofal Plant a Chwarae:** Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar greu amgylcheddau diogel a chynhwysol a grymuso staff i frwydro yn erbyn hiliaeth. Roedd prosiect DARPL, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â CWLWM, yn darparu adnoddau er mwyn i ymarferwyr ac arweinwyr asesu arferion, cychwyn ar deithiau gwrth-hiliol, a thrawsnewid systemau a pholisïau. Daeth adolygiad i'r casgliad bod adnoddau annigonol ar gyfer rhoi gwybod am wahaniaethu a bwlio. Ffurfiodd Llywodraeth Cymru Grŵp Llywodraethu Cymru Wrth-hiliol ac is-grwpiau er mwyn helpu i gyflawni nodau gofal plant a gwaith chwarae. Mae 10 mentor cymunedol o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a gafodd eu recriwtio ym mis Mehefin 2023, yn cyfrannu profiadau bywyd ac arbenigedd er mwyn hyrwyddo cynghreiriaeth a mynediad ym maes gofal plant.

## 3. Mynd y tu hwnt i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion cynlluniau a gweithgareddau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys mynd i'r afael â thlodi, hyrwyddo cynhwysiant ariannol, a mynd i'r afael â materion amgylcheddol o safbwynt gwrth-hiliol. Mae casglu tystiolaeth er mwyn brwydro yn erbyn hiliaeth yn y meysydd hyn, integreiddio gwrth-hiliaeth mewn gwaith datblygu polisïau, a meithrin amrywiaeth ymhlith staff ac aelodau er mwyn creu mannau naturiol mwy gwrth-hiliol yn amcanion allweddol. Mae'r cynllun hefyd yn tynnu sylw at ymdrechion sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ac ymgysylltu â grwpiau amrywiol.

## 4. Mesur Effaith

Mae'r Tîm Gweithredu a'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn ymrwymedig i atal bwlch gweithredu a gwerthuso'r Cynllun yn briodol. Eu nod yw sicrhau canlyniadau diriaethol ar gyfer pobl ethnig leiafrifol. Bydd y Grŵp Atebolrwydd Allanol yn cydweithio'n agos, gan gyfrannu at asesu cynnydd, canfod bylchau, a gwneud penderfyniadau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth.

## I Gloi

Mae'r crynodebau hyn yn rhoi trosolwg cryno o'r cynnwys a'r cynnydd ym mhob un o adrannau'r adroddiad hwn. Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae llawer mwy o waith i'w wneud, ac mae ein hymrwymiad i ddileu strwythurau a systemau hiliol, a meithrin cynwysoldeb yng Nghymru, yn gryf o hyd.

I gloi, mae'r flwyddyn gyntaf wedi gosod sylfeini ein taith tuag at Gymru wrth-hiliol. Rydym wedi sefydlu seilwaith hanfodol, wedi dyrannu adnoddau, ac wedi ymgysylltu ag uwch-arweinwyr yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Er bod mwy o gamau gweithredu a mentrau o'n blaenau, mae'r ymdrechion cychwynnol hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru ac arweinyddiaeth y Cabinet, sydd nid yn unig wedi parhau ond wedi cyflymu ers i'r Cynllun gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2022.

# Rhagair gan y Gweinidog

**Mae'n bleser gennym gyflwyno adroddiad blynyddol Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, ar gyfer y cyfnod rhwng 7 Mehefin 2022 a mis Mehefin 2023. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o'n cynnydd a'r camau sylweddol rydym wedi'u cymryd wrth inni gychwyn ar ein taith tuag at greu cenedl wrth-hiliol erbyn 2030.**


Mae ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol uchelgeisiol a radical yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hiliaeth systemig a strwythurol hirdymor.Rydym yn benderfynol o symud oddi wrth y rhethreg ynghylch cydraddoldeb hil er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd ystyrlon sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ar gyfer ein pobl ethnig leiafrifol. Er y bydd hyn yn cymryd amser, rydym yn falch o weld bod cynnydd yn cael ei wneud drwy gamau gweithredu ym mhob rhan o'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach.

Rydym yn ddiolchgar i aelodau ein Grŵp Atebolrwydd Allanol am y rôl allweddol y maent yn ei chyflawni. Mae eu gwaith i ddwyn partïon cyfrifol i gyfrif yn hwyluso cynnydd parhaus ac yn sicrhau nid yn unig y caiff lleisiau a phrofiadau bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol eu cydnabod ond y gweithredir arnynt hefyd.

Mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i hyrwyddo gwell cydraddoldeb ym mhob agwedd ar ein gwaith ac mae mynd i'r afael â hiliaeth systemig yn flaenoriaeth glir o hyd, gan weithredu mewn modd croestoriadol er mwyn sicrhau y caiff pawb eu cynnwys. Gwyddom mai megis dechrau yw hyn a bod llawer mwy o waith i'w wneud. Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu prosesau a pholisïau gwrth-hiliol, edrychwn ymlaen at weld adroddiadau yn y dyfodol yn tynnu sylw at ganlyniadau ac effeithiau cadarnhaol parhaus. Rydym yn awyddus inni symud ymlaen ar y daith hon gyda'n gilydd, gan fraenaru'r tir ar gyfer cenedl wrth-hiliol sy'n cydnabod gwerth pawb.



**Y Gwir Anrh**
**Mark Drakeford AS**
Prif Weinidog Cymru





**Jane Hutt AS**
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol



# Rhagair y Cyd-gadeiryddion

**Rydym wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn sefydlu'r Grŵp Atebolrwydd Allanol ac yn rhoi'r strwythurau angenrheidiol ar waith er mwyn hwyluso'r gwaith o lywodraethu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom recriwtio unigolion ag arbenigedd pwnc a/neu brofiad bywyd i gwmpasu meysydd allweddol y cynllun. Mae'r cydweithwyr hyn wedi bod yn brysur yn gweithio gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau llawer o'r newidiadau a'r mentrau yr adroddir arnynt yn y ddogfen hon. Rydym wedi canolbwyntio ar greu'r dulliau, y prosesau a'r ymddygiadau a fydd yn helpu i gau'r bwlch hirhoedlog rhwng polisi ac ymarfer sydd wedi amharu ar y gallu i roi mentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth blaenorol ar waith. Teimlwn yn gryf ein bod wedi datblygu'r fframweithiau a'r ffyrdd o weithio cywir a fydd yn cynnig y cyfle gorau posibl i gyflawni nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.**

Mae'r adroddiad cyntaf hwn yn dyst i effaith y Grŵp Atebolrwydd Allanol dros gyfnod cymharol fyr. Rydym yn ddiolchgar i aelodau'r Grŵp Atebolrwydd Allanol sydd wedi rhoi cymaint o'u hamser i'r gwaith hwn. Rydym yn cydnabod mai llafur cariad yw hyn i lawer, ond nid ydym yn cymryd eu gwaith caled a'u hymdrechion yn hyn o beth yn ganiataol. Hefyd, rydym yn ddiolchgar i aelodau tîm gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru sydd wedi gweithio'n ddiflino ar hyn, ac rydym yn cydnabod gwaith swyddogion polisi Llywodraeth Cymru sydd wedi cefnogi'r gwaith hwn.

Er bod yr adroddiad hwn yn dangos y cynnydd sydd wedi cael ei wneud ar amrywiaeth o faterion, rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl nad yw'r cynnydd hwn i'w weld yn llawn ar ffurf newidiadau amlwg ar lawr gwlad. Rydym hefyd yn ymwybodol bod aelodau o'r grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn aros yn eiddgar am ganlyniadau'r newidiadau hyn o ran trawsnewid eu profiadau bywyd i gyfateb i'w disgwyliadau fel dinasyddion cyfartal yng Nghymru. Gobeithiwn y bydd y sylfeini rydym wedi'u gosod (fel yr adroddir arnynt yn y ddogfen hon) yn arwain at y newidiadau cynaliadwy hirdymor angenrheidiol ac y daw'r rhain yn fwyfwy gweladwy dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd adroddiadau'r dyfodol yn cynnwys ffocws cryfach ar ganlyniadau'r newidiadau sylweddol a fydd yn deillio o'r mentrau y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn ac o fentrau yn y dyfodol a fydd yn deillio o waith y Grŵp Atebolrwydd Allanol.



**Yr Athro Emmanuel Ogbonna**
Prifysgol Caerdydd



**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

# Adran 1

# 1. Cyflwyniad

**Mae'r adroddiad diweddaru hwn yn rhoi trosolwg o'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (llyw.cymru) ar waith, sef dogfen a luniwyd ar y cyd gan bobl a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a sefydliadau ethnig leiafrifol gyda Llywodraeth Cymru. Fel y nodwyd yn y cyhoeddiad cyntaf, yr hyn sy'n gwneud y Cynllun hwn yn wahanol yw ei bwyslais cadarn ar fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol a systemig, gan gau'r bwlch gweithredu ar yr un pryd. Rydym wedi ystyried y gwersi gwerthfawr a ddysgwyd o Gynlluniau Cydraddoldeb Hil blaenorol, a fethodd â chyrraedd y nod o ran sicrhau gwelliannau sylweddol i fywydau pobl ethnig leiafrifol, er gwaethaf eu bwriadau cadarnhaol. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod bod heriau gweithredu wedi llesteirio effeithiolrwydd y fframwaith deddfwriaethol, megis Deddf Cydraddoldeb 2010, a ddyluniwyd i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil.**

Ein cred graidd, sef egwyddor arweiniol y Cynllun hwn, yw nad yw rhethreg ar ei phen ei hun yn ddigon i hyrwyddo tegwch o ran hil. Felly, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i ddilyn egwyddorion cydgynhyrchu a chydgyflawni er mwyn sicrhau cymaint o uniondeb â phosibl wrth roi'r Cynllun ar waith.

Serch hynny, rydym yn cydnabod bod llwyddiant cychwynnol y Cynllun hwn yn ymestyn y tu hwnt i ymdrechion Llywodraeth Cymru. Hoffem ddiolch i'r sector cyhoeddus ehangach a'r sector preifat a'r trydydd sector am weithio mor ddiwyd i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Nid yw llwyddiant o ran cyflawni ein nodau yn llwyr ddibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mae hynny hefyd yn dibynnu ar ymdrechion cyfunol y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a dinasyddion Cymru. Drwy gysoni ein hymddygiadau â'n dyheadau, gallwn gydweithio i ddatgymalu'r strwythurau sy'n galluogi hiliaeth i barhau. Mae'r Cynllun hwn yn ceisio creu dyfodol lle y gall pob unigolyn, waeth beth fo'i gefndir, ffynnu mewn cymdeithas sy'n dathlu amrywiaeth, yn cynnal cydraddoldeb, ac yn croesawu cynhwysiant. Gyda'n gilydd, gallwn greu newid parhaol a fydd o fudd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Yn olaf, er ein bod yn cydnabod bod llawer o ffordd i fynd o hyd er mwyn gwireddu ymrwymiadau ac uchelgais Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn llawn, cawn ein calonogi gan y dystiolaeth bod meysydd polisi'n mynd y tu hwnt i ofynion y Cynllun. Mae'n amlwg bod y Cynllun wedi cael dylanwad cadarnhaol ar feddylfryd a gweithredoedd arweinwyr. Rydym yn dyst i newid yn y ffordd y mae arweinwyr yn meddwl ac, yn bwysicach ddigon, yn y ffordd y maent yn gweithredu. Mae'r momentwm cynyddol hwn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i egwyddorion gwrth-hiliaeth ac yn ein gwneud yn fwy penderfynol o barhau i sbarduno cynnydd tuag at Gymru fwy teg a chynhwysol.

# Adran 2

# 2. Mentrau a Chyflawniadau Allweddol

## 2.1. Arweinyddiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb byr o'r camau gweithredu a'r cyflawniadau o fewn maes polisi arweinyddiaeth Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r adran hon yn ymdrin â dyhead Llywodraeth Cymru i fod yn wrth-hiliol a'i chyfrifoldeb i arwain gwrth-hiliaeth ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus ehangach, gan ei galluogi a'i hwyluso ei hun ac eraill, a'i dwyn ei hun ac eraill i gyfrif, i greu Cymru wrth-hiliol.

Un o nodau'r maes polisi arweinyddiaeth yw meithrin newid sylweddol mewn diwylliant ac ymddygiad o fewn Llywodraeth Cymru, gan hyrwyddo gwrth-hiliaeth fel gwerth craidd. Ymhlith y cyflawniadau sy'n werth sylw mae rhoi amcanion perfformiad ar waith mewn perthynas â gwrth-hiliaeth ar gyfer yr holl uwch-arweinwyr, gan bwysleisio'r ymrwymiad i osod esiampl arweiniol i sefydliadau eraill yng Nghymru. Hefyd, bydd cyhoeddi'r bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd yn helpu i flaenoriaethu gwaith sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y gweithle gan sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd ar yr un pryd.

Fodd bynnag, ceir heriau o hyd wrth geisio cyrraedd targedau recriwtio uchelgeisiol ar gyfer cynrychiolaeth amrywiol, felly bydd angen ymdrech ar y cyd.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth** | |
| **Dangos ymrwymiad amlwg i wrth-hiliaeth** | |
| **Nod: Sicrhau newid sylweddol mewn diwylliant, gan gynnwys newid ymddygiad, yn y sefydliad, tuag at werthoedd ac ymddygiadau gwrth-hiliol.** | |
| Bydd yn ofynnol i bob uwch-arweinydd (Uwch-was Sifil) yn Llywodraeth Cymru gael un amcan perfformiad sy'n gysylltiedig â gwrth-hiliaeth rhwng 2022 a 2023. | • Bydd yn ofynnol i'r holl Uwch-weision Sifil gael amcan perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n gwreiddio gwrth-hiliaeth a'r model cymdeithasol o anabledd yn eu gwaith, yn y ffordd y byddant yn arwain eu timau, a/neu yn Llywodraeth Cymru yn ehangach yn ystod 2023/24. Y nod cyfunol yw datgymalu systemau, strwythurau, diwylliannau ac arferion sy'n gwaethygu anghydraddoldebau, o fewn y sefydliad a'r tu allan iddo.<br>• Rhaid iddynt rannu'r amcan â'u timau ac adrodd arno yn ystod eu hadolygiadau rheoli perfformiad rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff cynnydd ei fesur ac y caiff arweinwyr eu dwyn i gyfrif. |
| Rhoi cymorth allweddol, gan gynnwys cymorth cynefino, hyfforddiant, mentora, mentora o chwith, seminarau a digwyddiadau er mwyn sicrhau bod deall gwrth-hiliaeth yn eitem gyson ar yr agenda. | • Cafodd y rhaglen mentor o chwith ar gyfer 2023 ei lansio ym mis Mai, a'i nod yw paru uwch-gydweithwyr â mentor o grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y sefydliad. Mae'r adborth gan gyfranogwyr blaenorol wedi bod yn hynod gadarnhaol, ac maent yn dweud bod y cynllun wedi gwella eu dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau a phrofiadau.<br>• Fel rhan o'r rhaglen bresennol, mae 10 uwch-arweinydd wedi cael eu paru â mentor o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.<br>• Yn ogystal â hynny, mae amrywiaeth o gyfleoedd dysgu sy'n seiliedig ar gydraddoldeb ar gael i'r staff, gan gynnwys cwrs wedi'i deilwra o'r enw 'Sgyrsiau am Wrth-hiliaeth', sydd â'r nod o wella dealltwriaeth o wrth-hiliaeth a'r rôl y gall staff Llywodraeth Cymru ei chyflawni er mwyn sicrhau cyfiawnder hiliol.<br>• Mae'r sesiynau sefydlu i ddechreuwyr newydd yn cynnwys sesiwn fanwl ar ymrwymiadau'r sefydliad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys ffocws ar wrth-hiliaeth. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Cyhoeddi bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd ar gyfer Llywodraeth Cymru.** | |
| Cyhoeddi ein bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd. | • Cafodd bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn gynharach eleni, gan ddangos mai cymedr y bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd oedd **5.38%** ac mai canolrif y bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd oedd **0%** yn 2021-22.<br>• Mae ffigurau ar gyfer 31 Mawrth 2023 bellach ar gael. Mae cymedr bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd Llywodraeth Cymru wedi lleihau o 5.38% ym mis Mawrth 2022 i **4.13%** ym mis Mawrth 2023. Canolrif y bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd yw **0%** o hyd.<br>• Mae hyn yn gadarnhaol iawn, ond mae'n werth cofio y gall newidiadau bach yn y cymysgedd graddau gael effaith fawr o ystyried y niferoedd bach, felly mae'n bosibl bod cynnydd yn niferoedd y staff ar raddau uwch a'r ffaith bod staff wedi cael eu recriwtio ar raddau is wedi cael effaith. Felly, gallem ddisgwyl i'r bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd fod braidd yn anwadal dros amser ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau dros amser.<br>• Y gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a staff nad ydynt yn Ethnig Leiafrifol yw cymedr y bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd. Y gwahaniaeth rhwng pwyntiau canol ystod enillion staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a staff Gwyn yw canolrif y bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd – mae'n cymryd yr holl gyflogau yn y sampl, yn eu trefnu o'r isaf i'r uchaf, ac yn dewis y cyflog yn y canol. Mae'n fesur defnyddiol ar gyfer bylchau cyflog am nad yw niferoedd bach o gyflogau sy'n allanolion ar frig neu waelod ystod yn effeithio arno.<br>• Mae ein dull o gyfrifo bylchau cyflog yn cyfuno data o system gyflogres Llywodraeth Cymru a data o System Wybodaeth Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru. Drwy gyfuno data o ddwy system fewnol, ceir cysondeb ag adroddiadau eraill ar gydraddoldeb, sy'n defnyddio'r System Wybodaeth Adnoddau Dynol yn bennaf. Cyfrifwyd y bwlch cyflog yn seiliedig ar yr holl staff sydd wedi'u cynnwys ar y system adnoddau dynol a'r system gyflogres ac a gaiff eu talu ar raddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru neu'r Uwch Wasanaeth Sifil. Mae angen i staff fod wedi datgan eu hethnigrwydd/statws anabledd er mwyn cael eu cynnwys yn y gwaith cyfrifo.<br>• Ceir nifer o ddulliau o gyfrifo bylchau cyflog, sy'n golygu ei bod yn bosibl na fydd bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol gymaradwy â bylchau cyflog a gyhoeddir gan sefydliadau eraill. Yn ddiweddar (mis Ebrill 2023), cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau i gyflogwyr ar gyfrifo bylchau cyflog ar sail ethnigrwydd. Bydd cydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn ystyried y canllawiau hyn, ond ni ddaethant i law mewn pryd ar gyfer ffigurau 2023 a gaiff eu cyhoeddi yn nes ymlaen eleni.<br>• Mae data ar y bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd wedi cael eu rhannu â chydweithwyr yn ein rhwydweithiau amrywiaeth staff, undebau llafur, uwch-reolwyr, ac yn ehangach ym mhob rhan o'r sefydliad, yn ogystal â chael eu cyhoeddi yn ein Datganiad Polisi Tâl blynyddol a'n Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Blynyddol. |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

Fel sefydliad, rydym wedi gosod targed uchelgeisiol i fynd i'r afael â chynrychiolaeth annigonol hanesyddol yn ein gweithlu drwy sicrhau y bydd 20% o recriwtiaid newydd yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol erbyn 2026.

Hefyd, mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys ymrwymiad y bydd o leiaf 6% o'r holl staff ar bob lefel yn Llywodraeth Cymru yn perthyn i leiafrif ethnig erbyn 2026, yn sgil cyrraedd ein targedau.

Er ein bod wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i brosesau recriwtio, gan gynnwys allgymorth penodedig, recriwtio dienw ac addasiadau recriwtio er mwyn cefnogi ymgeiswyr unigol, mae'r ffigurau ar gyfer 2022 yn dangos ein bod ymhell o gyrraedd ein targed o 20%, ac mae cyfyngiadau cyllidebol sy'n effeithio ar recriwtio allanol wedi gwaethygu hyn.

Er mwyn cyflawni ein nodau, mae nifer o weithgareddau ar waith gennym i gymryd camau cadarnhaol (fel y diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010). Ymhlith y rhain mae adolygu ceisiadau am swyddi, meini prawf a methodolegau asesu, cefnogi hyfforddiant a chynlluniau interniaeth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, atgyfnerthu allgymorth, a sicrhau bod paneli cyfweld yn amrywiol.

## Academi Wales

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth** | |
| **Nod: Sicrhau bod y sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a ariannwn yn gweithio i sicrhau na chaiff hiliaeth ei goddef.** | |
| Bydd Academi Wales yn adolygu ac yn cydlunio ei Fframwaith Ymddygiadau ar gyfer Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ymgorffori ymagwedd wrth-hiliol yn yr adolygiad hwnnw. | • Mae Academi Wales wedi dechrau cynnal yr adolygiad ac mae yn y broses o ailddylunio ei Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau ar gyfer Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ymgorffori ymagwedd wrth-hiliol yn yr adolygiad hwnnw.<br>• Mae'r adolygiad yn cynnwys sawl cam ac mae'r cam cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol ail-lunio Gwerthoedd ac Ymddygiadau Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, sy'n gyson â Phum Ffordd o Weithio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac Egwyddorion Cyffredin Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. |
| Bydd Academi Wales yn rhannu'r ymddygiadau drafft â'r Grŵp Atebolrwydd ac, yn benodol, yr arbenigwyr drwy brofiad a benodwyd i gytuno ar y fframwaith newydd cyn ei fabwysiadu a'i gyhoeddi. | • Mae Academi Wales wedi sefydlu gweithgor sy'n cynnwys arbenigedd gan yr Athro Cornelius, Rajvi Glasbrook (Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg – Cymunedau a Threchu Tlodi – Cymunedau), Dinah Griffiths (Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol – Llywodraeth Leol – AcademiWales), Bethan Johnson (Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol – Academi Wales), Diana Reynolds (Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – Yr Amgylchedd a Materion Gwledig – Ymadael â'r UE a'r Strategaeth) a Sabiha Azadwill i drafod a gwneud newidiadau priodol. Mae'r ddogfen werthoedd gychwynnol ar ffurf drafft gan y tîm dylunio ar hyn o bryd, cyn i ragor o waith ymgynghori gael ei wneud. Mae angen adolygu a chydlunio'r fframwaith ymddygiadau ar gyfer arweinwyr ymhellach. |

### Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

Mae'r Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau yn gyfrwng arwyddocaol ar gyfer cyflawni agenda Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru ac, wrth gwrs, rhaid i egwyddorion a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod wrth wraidd yr adolygiad. Mae gweithgor ardderchog ar waith i wreiddio dull gweithredu gwrth-hiliol yn yr adolygiad o'r fframwaith, ond un her allweddol yw sicrhau bod y fframwaith yn cyflawni yn erbyn agendâu allweddol gan aros yn gryno ar yr un pryd. Rydym hefyd yn cydnabod nad drafftio a dylunio'r ddogfen yw diwedd y stori, ac y bydd angen gwneud gwaith i wreiddio'r gwerthoedd a'r ymddygiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus ar ôl iddi gael ei mabwysiadu.

## 2.2. Addysg a'r Gymraeg

Mae'r diweddariad hwn yn rhoi trosolwg o'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith mewn sectorau addysg, gan gynnwys ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch. Mae'r adran ar ysgolion yn y diweddariad hwn yn canolbwyntio ar ddau brif nod: cynyddu nifer yr athrawon sy'n cael eu recriwtio o gymunedau ethnig lleiafrifol a gwreiddio arferion gwrth-hiliol yn y sector addysg. Mae cyflawniadau sylweddol wedi cael eu gweld yn yr adran hon, megis sefydlu cynllun recriwtio ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon (AGA), datblygu adnoddau dysgu proffesiynol gwrth-hiliol, a chynnwys hanesion a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm i Gymru ar ei ffurf ddiwygiedig.

Ym maes polisi addysg bellach, mae'r ffocws wedi bod ar feithrin diwylliant gwrth-hiliol ac integreiddio arferion gwrth-hiliol ym mhob sefydliad addysg bellach a darparwr dysgu oedolion yng Nghymru. Ymhlith y cyflawniadau allweddol mae defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth o lywio'r cyfeiriad gwaith a dylanwadu arno, sefydlu grŵp llywio cymorth a her a chomisiynu gweithgarwch i atgyfnerthu'r cwricwlwm mewn ffordd arloesol. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau, yn enwedig o ran creu dull mwy integredig o gynllunio ar gyfer cydraddoldebau a mynd i'r afael â phwysau llwyth gwaith.

Yn y sector addysg uwch, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sy'n rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith. Ymhlith y cyflawniadau sy'n werth sylw mae sefydlu rhwydwaith gwrth-hiliaeth cadarn, cyhoeddi adroddiadau cydraddoldeb hil, a chyhoeddi canllawiau ar fonitro anghydraddoldebau. Fodd bynnag, gwreiddio'r canllawiau hyn a sicrhau newid cynaliadwy hirdymor ym mhob rhan o'r sector yw'r her. O fis Ebrill 2024 ymlaen, bydd y cyfrifoldeb hwn yn symud i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a fydd yn meddu ar amrywiaeth eang o bwerau, gan gynnwys cyfrifoldeb rheoleiddio am addysg drydyddol ac addysg uwch yng Nghymru. Ni fydd CCAUC yn bodoli mwyach ar ôl hynny.

Mewn ymateb i'r heriau sydd ar ddod, mae ymdrechion sylweddol wedi cael eu neilltuo i godi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth ddyfnach o wrth-hiliaeth mewn lleoliadau addysgol. Mae'r ymdrechion hyn wedi paratoi'r ffordd ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt, megis parhau â menter Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL), dyrannu cyllid ar gyfer mentoriaid cymunedol AGA, a chynnal sesiynau dysgu proffesiynol ar gyfer cyflogeion Llywodraeth Cymru.

I ategu'r dull cynhwysfawr hwn, mae cyflwyno prosiect Cynefin wedi cynnig ffordd o archwilio hanes amlddiwylliannol Cymru drwy ddysgu creadigol. Drwy groesawu amrywiaeth a mynd ati i hyrwyddo cynwysoldeb, mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn ymdrechu i sicrhau dyfodol lle y caiff gwrth-hiliaeth ei gwreiddio'n ddwfn yn y sector addysg, gan ddatblygu amgylchedd meithringar ar gyfer pob dysgwr a gweithiwr proffesiynol fel ei gilydd.

## Ysgolion

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Ysgolion** | |
| **Nod: Cynyddu nifer yr athrawon sy'n cael eu recriwtio o gymunedau ethnig lleiafrifol yn y sector addysg gyda ffocws clir ar recriwtio i raglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA).** | |
| Adolygu Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) a dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu dull gwrth-hiliol o recriwtio a hyfforddi athrawon. | • Mae Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid allweddol ym maes AGA yn parhau i gydweithio â'i gilydd i gefnogi a gwreiddio'r cynllun recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon a roddwyd ar waith ym mis Hydref 2021. Mae pob partneriaeth AGA wedi cynnal archwiliad ac wedi nodi meysydd allweddol y tynnir sylw atynt yn eu cynlluniau recriwtio eu hunain. Mae pob partneriaeth yn gweithio i gyrraedd y targedau y mae wedi'u nodi ei hun. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn gweithio gyda sefydliadau i roi cyngor a hyrwyddo gyrfaoedd ym myd addysg. |
| Ehangu'r ystod o bynciau sydd ar gael yn y cynllun Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) sy'n seiliedig ar gyflogaeth er mwyn denu staff cymorth o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, gan gynnwys cyfrwng Cymraeg | • Mae'r meini prawf wedi'u diweddaru ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, yn datgan yn benodol ei bod yn ofynnol i'r holl raglenni AGA yng Nghymru fod yn wrth-hiliol, ac mae'n rhoi adnoddau i athrawon dan hyfforddiant allu creu amgylcheddau dysgu gwrth-hiliol ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.<br>• Mae mentoriaid cymunedol AGA sydd wedi cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru dros y 12 mis diwethaf yn parhau i gefnogi partneriaethau AGA yn eu gweithgareddau sy'n helpu i recriwtio ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i addysg gychwynnol i athrawon.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol er mwyn ein helpu i gyflawni ein huchelgais o greu Cymru wrth-hiliol a chynyddu nifer yr athrawon ethnig leiafrifol fel y bydd gan ddysgwyr yng Nghymru weithlu addysgu mwy amrywiol. Mae'r cynllun hwn wedi bod ar gael ers mis Medi 2022 i fyfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. O dan y cynllun hwn, mae grant cymell o hyd at £5,000 ar gael a chaiff ei dalu mewn dau randaliad o £2,500 i fyfyrwyr cymwys: y cyntaf ar ôl cwblhau'r cymhwyster ac ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) a'r ail ar ôl cwblhau'r rhaglen sefydlu yn llwyddiannus. Mae'r cynllun hwn yn un o dri chynllun cymhelliant sydd ar waith er mwyn helpu unigolion i hyfforddi, ymuno â'r proffesiwn addysgu ac aros ynddo.<br>• Mae cyfraniad myfyrwyr at y gwaith hwn yn tyfu ac mae'r Clwb Amrywiaeth (Ysgol Uwchradd Llanwern, sef enillydd gwobr Betty Campbell MBE, ac Ysgol Glantaf) wedi bod yn gweithio ar hyrwyddo cyfraniadau a safbwyntiau cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r clwb wedi creu cyfres o chwe chlip fideo y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i dynnu sylw at y diffyg amrywiaeth mewn ysgolion a helpu i ddenu unigolion o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i ddilyn gyrfaoedd ym myd addysg.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Brifysgol Agored i ehangu'r pynciau uwchradd sydd ar gael drwy'r llwybrau AGA amgen, gan gynnig cyrsiau TAR rhan-amser a chwrs TAR ar sail cyflogaeth i athrawon dan hyfforddiant na allant ddilyn AGA amser llawn. Rydym yn sicrhau y gall ymgeiswyr sydd am ymuno â'r proffesiwn addysgu gael AGA o ansawdd da sy'n cyfateb i raglenni amser llawn traddodiadol, beth bynnag fo'u cefndir a'u hamgylchiadau. Mae arlwy estynedig y rhaglen ar gael o fis Medi 2023 ymlaen. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Creu gweithlu addysg gwrth-hiliol drwy ymgorffori dysgu proffesiynol gwrth-hiliol.** | |
| Datblygu adnoddau dysgu proffesiynol gwrth-hiliol i helpu i addysgu'r cwricwlwm newydd ar "gampws rhithwir" wedi'i ddylunio ar y cyd i goladu a churadu'r holl ddeunyddiau ac adnoddau gwrth-hiliol. | • Cafodd prosiect Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) Llywodraeth Cymru ei lansio'n ffurfiol yn ystod hydref 2022, ac mae'n hollbwysig er mwyn gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru a sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb.<br>• Caiff y prosiect blaengar hwn ei arwain gan gynghrair o bartneriaid sydd â phrofiad proffesiynol a phrofiad bywyd er mwyn helpu pobl sy'n gweithio ym myd addysg i ddeall a datblygu arferion gwrth-hiliol ac anhiliol.<br>• Mae holl ganllawiau, hyfforddiant ac adnoddau gwrth-hiliol DARPL ar gael mewn un lle drwy gampws rhithwir DARPL, sy'n denu dros 2,000 o drawiadau bob mis. Mae'r gwaith i wella'r campws rhithwir yn barhaus ar y gweill, ac ymhlith yr uchafbwyntiau eleni mae canllawiau wedi'u teilwra ar gyfer uwch-arweinwyr, blog ymarferwyr ac adnoddau byr.<br>• Mae'r prosiect yn cael effaith gynyddol ledled Cymru gyfan. Hyd at fis Mai 2023, roedd 18,000 o weithwyr addysg proffesiynol wedi ymgysylltu â DARPL drwy ddigwyddiadau byw, ymgyngoriadau ac adnoddau.<br>• Yn ystod hydref 2022, sefydlodd DARPL Grŵp Cyswllt Gwrth-hiliol newydd, sy'n rhoi cymorth gan gymheiriaid ar gyfer arweinwyr addysgol ledled Cymru. Ym mis Mawrth 2023, cafodd cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf y grŵp ei gynnal yn UWC Atlantic. Mae aelodau newydd yn ymuno â'r grŵp mewn ymateb i alwad agored.<br>• Roedd Uwchgynhadledd Addysg y Byd ym mis Mawrth 2023, lle roedd addysgwyr o'r radd flaenaf o bedwar ban byd yn bresennol, yn gyfle unigryw i hyrwyddo DARPL ar lwyfan rhyngwladol.<br>• Roedd digwyddiad Mewnwelediad Polisi rhithwir a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar 25 Ebrill, lle roedd 110 o weithwyr addysg proffesiynol yn bresennol, yn gyfle i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am adnoddau dysgu proffesiynol y cwricwlwm newydd i Gymru, gan gynnwys ffocws ar y doreth o adnoddau sydd ar gael drwy gampws rhithwir DARPL.<br>• Gan adeiladu ar lwyddiant dysgu proffesiynol gwrth-hiliol i ysgolion, ers mis Mai 2023, mae DARPL wedi cael ei ymestyn i'r sectorau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ac Addysg Bellach.<br>• Cafodd darpariaeth wrth-hiliol DARPL i uwch-arweinwyr a llywodraethwyr ei chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ym mis Mai 2023.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu doethuriaeth PhD er mwyn myfyrio ar adborth o DARPL, ei werthuso a chanfod beth sydd ei angen ar ysgolion i'w cefnogi ar gamau nesaf eu taith wrth-hiliol<br>• Mae gwaith i gasglu amrywiaeth o wybodaeth am ymgysylltu ac effaith mewn perthynas â DARPL yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r ffaith bod y ddarpariaeth ar gyfer uwch-arweinwyr a llywodraethwyr wedi cael ei hardystio gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi rhoi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth bresennol. Bydd darpariaeth DARPL i athrawon a chynorthwywyr addysgu yn destun gwaith sicrhau ansawdd fel rhan o broses gymeradwyo genedlaethol newydd Llywodraeth Cymru.<br>• Mae grŵp cymuned ymarfer DARPL ar gyfer gwaith ymchwil gweithredol hydredol yn tyfu. Mae'n cynnig lle heriol a chefnogol i'r rhanddeiliaid o ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia sy'n gweithio gyda a thrwy DARPL. Caiff rhai o'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg eu rhannu mewn gweminarau, adroddiadau a phapurau o dymor yr hydref ymlaen. |

<table>
<tr><th>Camau gweithredu</th><th>Cyflawniadau</th></tr>
<tr><td colspan="2">Nod: Sicrhau bod cyfraniadau a hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu haddysgu drwy'r Cwricwlwm i Gymru ar ei ffurf ddiwygiedig.</td></tr>
<tr><td>Ei gwneud yn ofynnol i gynnwys addysgu am gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'u cyfraniadau yn y Cwricwlwm i Gymru ar ei ffurf ddiwygiedig.</td><td>• Mae Cymru'n arwain y ffordd, gan fod y rhan gyntaf o'r DU i'w gwneud hi'n ofynnol addysgu am hanes a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Dechreuwyd cyflwyno'r Cwricwlwm newydd mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022.<br>• Cafodd ein gwobr addysgu proffesiynol newydd: gwobr Betty Campbell MBE, am hyrwyddo cyfraniadau a safbwyntiau cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ei rhoi am y tro cyntaf yn 2022 i Ysgol Uwchradd Llanwern yng Nghasnewydd, a ddangosodd ddiwylliant cadarn o Gynefin, lle mae holl aelodau cymuned yr ysgol yn meithrin ymdeimlad o berthyn.<br>• Mae Cyngor y Celfyddydau wedi datblygu maes newydd o fewn Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau sy'n canolbwyntio ar Gynefin er mwyn helpu ysgolion i:<br>- Archwilio hanes a datblygiad Cymru fel cymdeithas amlddiwylliannol;<br>- Archwilio profiadau a chyfraniadau amrywiol pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru yn y gorffennol a'r presennol;<br>- Gweithio ochr yn ochr ag Ymarferwyr Creadigol mewn amgylchedd dysgu er mwyn gwella'r ansawdd a'r addysgu a'r dysgu;<br>- Helpu ysgolion i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.</td></tr>
</table>

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

Er gwaethaf rhywfaint o her ar y dechrau o ran deall yr angen i wreiddio gwrth-hiliaeth yn ein gwaith, mae hyn wedi cael ei oresgyn drwy wella dealltwriaeth ac arbenigedd llunwyr polisïau ac ymarferwyr.

Hyd at fis Mehefin 2023, roedd 19,000 o weithwyr addysg proffesiynol wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â dysgu proffesiynol amrywiaeth a gwrth-hiliaeth (DARPL) drwy ddigwyddiadau wyneb yn wyneb neu gonsortia rhanbarthol, ymgyngoriadau, canllawiau a sesiynau anghydamserol.

O ganlyniad i wella ymwybyddiaeth o effaith gwrth-hiliaeth a gwybodaeth amdani mewn lleoliadau addysgol, caiff gwrth-hiliaeth ei derbyn yn fwy fel rhan annatod o'n gwaith, yn hytrach na rhywbeth ychwanegol.

## Addysg Bellach

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Addysg Bellach (AB)** | |
| **Newid diwylliant tuag at wrth-hiliaeth. Defnyddio adnoddau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd i greu newid tuag at wrth-hiliaeth ym mhob rhan o'r sefydliad** | |
| **Nod: Mae diwylliant ac arferion gwrth-hiliol wedi'u hymgorffori ym mhob sefydliad AB a darparwr dysgu oedolion yng Nghymru.** | |
| Gweithio gyda'r sector AB i ymgorffori egwyddorion cynllun 10 pwynt y Grŵp Arweinyddiaeth Du er mwyn sicrhau system AB wrth-hiliol. Cynnal arolwg o ddysgwyr a staff er mwyn deall eu profiadau o hiliaeth a chasglu safbwyntiau ar yr hyn sy'n arferion gwrth-hiliol effeithiol ym maes AB. | • Comisiynwyd astudiaeth gwmpasu gychwynnol gan y Grŵp Arweinyddiaeth Du a ColegauCymru, ac fe'i cyhoeddwyd yn ystod haf 2022. Mae argymhellion yr astudiaeth wedi llywio'r rhaglen waith gyda'r sector addysg bellach (AB) dros y flwyddyn ddiwethaf.<br>• Mae grŵp llywio AB wedi cael ei sefydlu er mwyn cael cymorth a her gan bobl â phrofiad bywyd, arbenigwyr a rhanddeiliaid.<br>• Cafodd y Grŵp Arweinyddiaeth Du a ColegauCymru eu comisiynu i ddatblygu canllawiau cynllunio gweithredu gwrth-hiliol, ynghyd â chymorth ac adborth i sefydliadau AB er mwyn iddynt ddatblygu eu cynlluniau gweithredu. Mae pob un o'r 13 o sefydliadau AB wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith a byddant yn cyflwyno adroddiad cynnydd ar ddiwedd 2023.<br>Mae'n rhy gynnar i ddechrau mesur effaith ein gweithredoedd hyd yn hyn, ond mae swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn KAS i ystyried sut y gellir mesur canlyniadau yn y tymor canolig i'r tymor hir. Bydd y gwaith ymchwil ansoddol rydym wedi'i gomisiynu yn rhoi gwybodaeth bwysig a fydd yn helpu i bennu llinell sylfaen ar gyfer hyn. |
| Adolygu a diwygio'r cwricwlwm AB presennol er mwyn ymgorffori egwyddorion gwrth-hiliol a datblygu cwricwlwm diwygiedig ar y cyd. | • Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi cael ei gomisiynu i arwain prosiect mawr i ddatblygu modiwlau cwricwlwm ar gyfer dysgwyr ym mhob coleg.<br>• Bydd y modiwlau'n cynnwys tiwtorialau ar gyfer dysgwyr o Lefel 1 i Lefel 3 a chynnwys ar gyfer 14 o feysydd y cwricwlwm, a fydd ar gael mewn "byd rhithwir" ymdrochol unigryw y gall dysgwyr ei ddefnyddio i archwilio cysyniadau sy'n ymwneud â gwrth-hiliaeth, amrywiaeth a chynhwysiant.<br>• Caiff y modiwlau eu treialu ym mhob rhan o'r sector AB o dymor yr hydref 2023 ymlaen. |
| Caiff cyfranogiad, deilliannau a chynnydd dysgwyr o gefndiroedd ethnig gwahanol eu monitro'n systematig a chaiff camau eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. | • Cafodd datganiad ystadegol ar ethnigrwydd dysgwyr ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022, a oedd yn cynnwys dadansoddiad manwl o gyfranogiad a deilliannau dysgwyr mewn sefydliadau AB, prentisiaethau, dysgu oedolion a dosbarthiadau chwech.<br>• Mae dadansoddiad o ethnigrwydd wedi cael ei ymgorffori mewn datganiadau ystadegol rheolaidd megis y cyhoeddiadau blynyddol ar gyflawniad a chyrchfannau dysgwyr ôl-16.<br>• Mae fformatau manwl ar gyfer dadansoddi data wedi cael eu cynnwys yn y canllawiau cynllunio gweithredu gwrth-hiliol newydd i sefydliadau AB.<br>• Yn dilyn ymarfer caffael, mae cwmni David Kester & Associates wedi cael ei benodi i wneud gwaith ymchwil ansoddol ar brofiadau bywyd dysgwyr a staff yn y sectorau AB, prentisiaethau a dysgu oedolion. Mae'r gwaith ymchwil wedi'i gwblhau a bwriedir i'r canfyddiadau gael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2023. |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

**Addysg Bellach:** Yn y sector AB, ceir lefel uchel o ymrwymiad i'r nod o greu Cymru wrth-hiliol. Fodd bynnag, hoffai'r sector fynd ar drywydd dull mwy integredig o gynllunio ar gyfer cydraddoldebau mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig, gyda mwy o ffocws ar groestoriadedd. Bydd angen inni gynnal y momentwm o ran gwrth-hiliaeth gan geisio dilyn dull cytbwys sy'n cydnabod y cyd-destun ehangach y mae sefydliadau'n gweithio ynddo ar yr un pryd, ac amrywiaeth lawn eu poblogaethau dysgwyr.

## Addysg Uwch

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Addysg Uwch** | |
| **Nod: Gall staff a myfyrwyr ddisgwyl i'w profiad o AU fod yn gadarnhaol, ni waeth beth fo'u cefndir hil ac ethnig.** | |
| Sefydlu rhwydwaith gwrth-hiliaeth yn y sector AU.<br>Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb hil a mesurau perfformiad ar gyfer y sector, gan gynnwys canlyniadau i fyfyrwyr a staff. | • **Sefydlodd CCAUC rwydwaith gwrth-hiliaeth ar gyfer y sector AU cyfan –** cafodd y rhwydwaith ei sefydlu ym mis Chwefror 2023 ac, hyd yma, mae wedi cynnwys rhannu arferion gorau ar gyfer mynd i'r afael ag aflonyddu a hyrwyddo diwylliant gwrth-hiliol. Bwriedir i'r rhwydwaith ddatblygu a chryfhau dros y blynyddoedd sydd i ddod er mwyn cynnig llwyfan amhrisiadwy ar gyfer cydweithio drwy'r sector. |
| **Nod: Gwell defnydd o'r sbardunau sydd ar gael i hyrwyddo diwylliant gwrth-hiliol ym maes addysg uwch.** | |
| Ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddisgwyl i bob sefydliad AU adolygu ei bolisïau a'i weithdrefnau recriwtio presennol o safbwynt gwrth-hiliaeth. Ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddisgwyl i sefydliadau AU fonitro anghydraddoldebau a mynd i'r afael â nhw, gan gynnwys gwahaniaethau mewn cyflog. Disgwyl i bob sefydliad AU ennill Nod Siarter Hil fel amod cyllido o fewn tair blynedd i ymgorffori polisïau gwrth-hiliaeth ar bob lefel o'r sector. | • **Cyhoeddodd CCAUC ganllawiau ar fonitro cydraddoldeb hil** – Un nod allweddol yw helpu uwch-arweinwyr i ddilyn dull system gyfan o ymdrin â gwrth-hiliaeth ac, yn y pen draw, wella cynrychiolaeth ethnig ar lefelau uwch ym mhob rhan o'r sector. W22/28HE: Ymgynghoriad ar fonitro cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch – CCAUC.<br>• **Mae CCAUC wedi rhoi canllawiau i sefydliadau addysg uwch ar fonitro anghydraddoldebau,** gan gynnwys gwahaniaethau mewn tâl. Mae hwn yn faes allweddol sydd â'r nod o wella tryloywder, gan ddod o hyd i broblemau/tueddiadau a all lywio camau gweithredu a sicrhau cydraddoldeb o ran cyflogau. Ymgysylltu parhaus er mwyn adolygu a diweddaru polisïau ac arferion. |

| Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: |
|---|
| Gweithio gyda sefydliadau er mwyn gwreiddio'r canllawiau a sicrhau bod y gwaith yn canolbwyntio ar ddeilliannau, gan sbarduno newid dros y tymor hir. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC/y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'r sector, adroddiadau rheolaidd gan sefydliadau, a defnyddio dulliau sefydledig, er enghraifft trafod materion a mynd i'r afael â nhw drwy is-grŵp addysg a'r Gymraeg Cymru Wrth-hiliol. |

## Y Gymraeg

Mae ymdrechion wedi cael eu gwneud i sicrhau, nid yn unig y caiff lleisiau siaradwyr Cymraeg Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol eu clywed, ond y gwrandewir arnynt. I hwyluso hyn, bu gweithgor sy'n cynnwys termegwyr Cymraeg, academyddion a siaradwyr Cymraeg o gymunedau ethnig lleiafrifol yn cydweithio er mwyn datblygu cyfres safonedig o derminoleg Gymraeg ym maes hil ac ethnigrwydd. Mae'r cyhoeddiad a ddeilliodd o hynny yn rhoi canllawiau gwerthfawr yn y cyd-destun hwn, gan feithrin cynwysoldeb a chyfathrebu effeithiol ym maes y Gymraeg.

Er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o brofiadau ein pobl ifanc ethnig leiafrifol sy'n siarad Cymraeg, cyrhaeddwyd carreg filltir arwyddocaol pan gomisiynwyd digwyddiad panel Perthyn, a drefnwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Choleg Caerdydd a'r Fro. Cynigiodd y digwyddiad hwn gipolwg gwerthfawr gan olygu mai hwn oedd y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Hefyd, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cyrraedd sawl carreg filltir yn ei hymdrechion i groesawu pobl y mae eu rhuglder yn y Saesneg yn gyfyngedig. Mae hefyd wedi datblygu rhaglen sy'n cynnwys cwrs blasu 'Croeso i Bawb', sydd wedi cael ei drosi'n gwrs hunanastudio sydd ar gael mewn Cantoneg, Arabeg Syria, Ffarsi, Pashto ac Wcreineg.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf bod strategaeth Cymraeg 2050 a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cydfodoli'n gytûn a bod y ddau faes gwaith yn ategu ei gilydd.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Y Gymraeg** | |
| **Nod: Sicrhau bod lleisiau siaradwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu clywed a bod eraill yn gwrando arnynt a bod rhagor yn cael ei wneud i hyrwyddo mynediad at y Gymraeg ymhlith cymunedau ethnig lleiafrifol ym meysydd addysg, dysgu'r iaith, y gweithle a gweithgareddau cymunedol.** | |
| Sicrhau bod y derminoleg Gymraeg a ddefnyddir i drafod gwrth-hiliaeth yn gyfredol, yn briodol, yn gyson ac yn seiliedig ar gyfraniad siaradwyr Cymraeg o gymunedau ethnig lleiafrifol. | • Mae sicrhau bod gan bobl yr iaith a'r hyder i siarad am wrth-hiliaeth yn hanfodol er mwyn arwain at weithredu.<br>• Mae rhanddeiliaid **Cymraeg 2050** wedi bod yn aros yn eiddgar am gyfarwyddyd a chyngor ar yr hyn sy'n cyfateb yn y Gymraeg i'r derminoleg newydd a datblygol a ddefnyddir mewn sgyrsiau am wrth-hiliaeth.<br>• Mae swyddogion **Cymraeg 2050** yn falch o fod wedi ymgynnull grŵp o randdeiliaid allweddol yn ystod blwyddyn gyntaf Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol er mwyn safoni cyfres o derminoleg Gymraeg ynghyd â chanllawiau i'w defnyddio.<br>• Ymhlith y rhanddeiliaid ar y gweithgor roedd termegwyr Cymraeg, academyddion a siaradwyr Cymraeg o gymunedau ethnig leiafrifol.<br>• O ganlyniad i waith caled y gweithgor, cyhoeddwyd cyfres newydd o derminoleg Gymraeg gymeradwy a safonedig ym maes hil ac ethnigrwydd sydd i'w gweld yma: Terminoleg y Gymraeg ym maes hil ac ethnigrwydd. |
| Meithrin gwell dealltwriaeth o brofiad bywyd y 10,000 o siaradwyr Cymraeg o gymunedau ethnig lleiafrifol, yn ôl amcangyfrif, er mwyn llywio camau gweithredu ac ymyriadau yn y dyfodol i ddileu hiliaeth yng Nghymru. | • Mae is-grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn parhau i rannu profiad bywyd a chyngor ar sut i wreiddio gwrth-hiliaeth ym mhob rhan o strategaeth Cymraeg 2050 i gyd a'r ffordd y caiff ei rhoi ar waith.<br>• Yn ddiweddar, cyhoeddodd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ddadansoddiad manwl o ddata Cyfrifiad 2021 mewn perthynas ag ethnigrwydd siaradwyr Cymraeg.<br>• Cafodd digwyddiad panel i ddysgu am brofiadau siaradwyr Cymraeg ethnig leiafrifol ei gomisiynu gan bartner i Is-adran **Cymraeg 2050**, sef y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ar y cyd â Choleg Caerdydd a'r Fro. Cynhaliwyd y digwyddiad, sef Perthyn, yn y Senedd ar 20 Mawrth 2023, ac roedd llawer o bobl yn bresennol a chafwyd adborth da ganddynt. Y digwyddiad hwn oedd y cyntaf o'i fath yng Nghymru. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| | <br><br>https://twitter.com/jasonmohammad/status/1637929251675545600?s=20 |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Comisiynu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i adolygu faint o unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n manteisio ar y ddarpariaeth, a'r strategaethau presennol i hyrwyddo mynediad. | • Mae'r Ganolfan wedi datblygu rhaglen o waith i groesawu pobl nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, neu y mae eu Saesneg yn gyfyngedig.<br>• Mae cwrs blasu arbennig o'r enw 'Croeso i Bawb' wedi cael ei greu ac, ers hynny, mae wedi cael ei drosi'n gwrs hunanastudio.Nod y cyrsiau yw cyflwyno agweddau pwysig ar Gymru a bywyd yng Nghymru, ac mae'r unedau wedi cael eu creu mewn pum iaith wahanol: Cantoneg, Arabeg Syria, Ffarsi, Pashto ac Wcreineg.<br>• Mewn partneriaeth â SaySomethinginWelsh, mae adnodd digidol bellach ar gael hefyd er mwyn helpu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ddysgu Cymraeg llafar drwy ieithoedd Arabeg, Pashto a Dari.<br>• Cafodd y cyrsiau newydd eu lansio ar ddiwedd mis Ionawr 2023, yng Nghanolfan Oasis, Caerdydd.<br>• Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.<br><br><br>Yn y llun uchod, o'r chwith i'r dde: Dona Lewis, Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; Zaina Aljumma, sy'n dysgu Cymraeg; Gosia Rutecka, sydd wedi dysgu'r iaith; a Helen Prosser, Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu yn y Ganolfan Genedlaethol.<br>• Er bod y gwaith y cyfeirir ato uchod yn canolbwyntio ar gymunedau ethnig lleiafrifol nad yw Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn adolygu ei gwaith ar wrth-hiliaeth yn fwy cyffredinol drwy'r amser, ac mae yn y broses o ddatblygu strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyffredinol. |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

- Mae strategaeth **Cymraeg 2050** a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ill dau yn bolisïau eang a phellgyrhaeddol iawn sy'n cyffwrdd â phob un o feysydd gwaith Llywodraeth Cymru. Er bod hyn yn arwain at heriau o ran adnoddau ac ymateb i ddatblygiadau cyflym ym mhob rhan o'r llywodraeth, mae hefyd yn cynnig cyfleoedd. Ymhlith y cyfleoedd mae gwaith trawslywodraethol sy'n canolbwyntio ar wrando ar y bobl sydd wrth wraidd y ddau bolisi ac ymgysylltu â nhw.
- Bydd swyddogion yn y ddau faes polisi yn parhau i gydweithio'n agos er mwyn cysoni uchelgeisiau **Cymraeg 2050** a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio tuag at yr un nod.

## 2.3. Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon

Drwy fentrau sydd â'r nod o ddatblygu arferion gwrth-hiliol, sicrhau cyfle cyfartal, a meithrin mwy o ymgysylltu, mae ymdrechion ar y cyd â chyrff a noddir wedi arwain at gyflawniadau arwyddocaol. Mae gwerth mwy na £1.8 miliwn o gyllid wedi cael ei ddyrannu i gyrff hyd braich yn y sectorau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn wedi hwyluso prosiectau Cymru gyfan a chydgynhyrchu gyda chymunedau amrywiol, ac wedi cyflymu mentrau gwrth-hiliol.

Ymhlith y cyflawniadau allweddol mae lansio Llwyfan Newydd, sef cyfres o ddigwyddiadau i arddangos doniau artistiaid a cherddorion Du lleol. Mae cyllid wedi cael ei roi i saith oriel er mwyn sefydlu gofodau arddangos ar gyfer ymarferwyr creadigol Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn cydweithrediad ag amgueddfeydd cenedlaethol. Yn ychwanegol at hyn, mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi sicrhau cyllid grant ar gyfer prosiect "Lleoedd rwy'n eu cofio – recordio treftadaeth cymunedau Asiaidd yng Nghymru". Hefyd, mae Chwaraeon Cymru wedi defnyddio cyllid i gynnal gweithgareddau hyfforddi wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y gymuned yn ystod Ramadan.

Mae ymdrechion i hyrwyddo naratif hanesyddol cytbwys wedi'i ddad-drefedigaethu a chydnabod cyfraniadau cadarnhaol cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi arwain at gyflawniadau arwyddocaol. Un cyflawniad allweddol yw Arddangosfa Ail-fframio Picton, a arweinir gan Amgueddfa Cymru. Mae Cadw yn gwneud cynnydd tuag at ddatblygu canllawiau i gyrff cyhoeddus ar goffáu cyhoeddus a rhoddwyd mwy na £2.8 miliwn o gyllid i 22 o sefydliadau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon ledled Cymru.

Er bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud, mae Cadw'n wynebu her o ran gwneud gweithlu'r asiantaeth yn fwy amrywiol, gan gydnabod anghenion croestoriadol mewn perthynas â hil a'r Gymraeg.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon** | |
| **Nod: Dwyn sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus i gyfrif am roi mesurau a chamau gweithredu gwrth-hiliol ar waith, fel y'u nodir yn y cynllun gweithredu hwn.** | |
| Ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sefydlu amgylcheddau gwaith sy'n gynhwysol iawn ac yn wrth-hiliol, gan gynnwys hyfforddiant gwrth-hiliaeth fel un o elfennau craidd dysgu a datblygiad proffesiynol. | • Mae Amgueddfa Cymru wedi datblygu matrics ac asesiad sgiliau ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau bod gweithgareddau hyfforddi a datblygu priodol ar waith. Mae Race Council Cymru wedi cael ei benodi i ddatblygu a chynnal hyfforddiant gwrth-hiliaeth ar gyfer aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr a sesiwn beilot ar gyfer staff, cyn i ymarfer caffael llawn ar gyfer yr holl staff ar hyfforddiant gwrth-hiliaeth gael ei gynnal tua diwedd 2023.<br>• Mae sefydliad Chwaraeon Cymru wedi defnyddio ei gyllid hyd yma i gynnal gweithgareddau hyfforddi penodol ar gyfer staff ei ganolfan genedlaethol er mwyn ei alluogi i addasu ei arferion er mwyn diwallu anghenion y gymuned yn ystod Ramadan. Mae'n bwriadu adeiladu ar y profiad hwn, ac mae wedi cyflogi cynghorydd buddsoddi cymunedol i gysylltu â grwpiau cymunedol lleol er mwyn i'r cymunedau hyn allu manteisio ar gyfleoedd cyllido nad oeddent wedi manteisio arnynt o'r blaen.<br>• Yn gynharach eleni, cychwynnodd Undeb Rygbi Cymru (URC) ar daith tuag at ddyfodol mwy cynhwysol a theg drwy ffurfio partneriaeth ag elusen Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i roi hyfforddiant gwrth-hiliaeth i'w staff ac aelodau ei fwrdd drwy'r Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Y nod oedd mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â hiliaeth systemig o fewn y sefydliad a'r gamp yn ei chyfanrwydd. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Annog pob sefydliad a ariennir yn gyhoeddus i fabwysiadu polisïau recriwtio 'cadarnhaol' a fydd yn cefnogi ac yn galluogi ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a llwybrau gyrfa ar eu cyfer; er enghraifft, drwy adolygu a diwygio dyluniad ffurflenni cais a dulliau hysbysebu swyddi, a darparu hyfforddiant i ymgeiswyr a phaneli dethol. | • Mae tîm Adnoddau Dynol Amgueddfa Cymru wedi bod yn cydweithio ar wella prosesau recriwtio. Fel rhan o'r broses o roi polisi recriwtio 'cadarnhaol' ar waith i gefnogi a galluogi ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, mae Amgueddfa Cymru yn ailwampio'r wybodaeth recriwtio i ymgeiswyr ar hyn o bryd er mwyn cynnwys:<br>- cynnig penodol o gymorth un i un ar gyfer ceisiadau am swyddi ac mewn perthynas ag addasiadau rhesymol<br>- canllaw recriwtio sy'n cynnwys fideos ar sut i wneud cais a beth i'w ddisgwyl mewn cyfweliad. Caiff gwerth profiad bywyd ei bwysleisio.<br>• Bydd I-recruit, sydd ar gamau terfynol y gwaith datblygu, yn cynnig recriwtio dienw fel dewis safonol ar gyfer pob rôl a phroses hyblyg ar gyfer gwneud cais. |
| Adolygu'r systemau presennol ar gyfer rhoi gwybod am gwynion yn ymwneud â gwahaniaethu, ac ymdrin â nhw, gan gynnwys nodi a dileu pob math o wahaniaethu ar sail hil. | • Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi gweithio gydag Undeb Rygbi Cymru i ddiwygio ei bolisïau er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysol ac yn hyrwyddo amrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau i weithdrefnau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a disgyblu er mwyn dileu rhagfarn a gwahaniaethu. Mae URC hefyd wedi creu ei bolisi gwrth-hiliaeth cyntaf mewn cydweithrediad â Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2023. Mae URC wedi lansio amrywiaeth o fentrau i wella amrywiaeth o fewn y sefydliad, gan gynnwys gweithio'n rhagweithiol gyda grwpiau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, megis Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon (Riverside), Cyngor Ffoaduriaid Cymru ac EYST. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Gweithio gyda'r cyrff a noddir gennym i sicrhau eu bod yn defnyddio eu pwerau gwario i roi arferion gwrth-hiliol ar waith, hwyluso mynediad a chanlyniadau cydradd, a chynyddu lefelau cyfranogiad ymhlith pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i'r eithaf.** | |
| Gweithio gyda chyrff cyllido i gyd-lunio cynigion gan sefydliadau bach neu sefydliadau a arweinir gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol er mwyn gwella canlyniadau i grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. | • Ym mis Ionawr 2023, gwnaeth Amgueddfa Cymru yng Nghaerdydd, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, Honey Sessions, The BOMB Directory a Radio Cardiff, lansio cyfres newydd o ddigwyddiadau, sef **Llwyfan Newydd**. Mae'r gyfres yn canolbwyntio ar arddangos doniau artistiaid a cherddorion Du lleol. Llwyfan Newydd: Cyfraniadau o'r Caribî \| Amgueddfa Cymru.<br>• Y llynedd, cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru ddogfen ar y cyd o'r enw Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad 2022-2025 \| Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n seiliedig ar waith i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl, grwpiau a chymunedau ar hyn o bryd, yn enwedig y rhai hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, o ran mynediad at y celfyddydau a chyfranogiad ynddynt.<br>• Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, wedi rhoi cyllid i saith oriel i weithio gyda saith amgueddfa genedlaethol er mwyn creu gofodau arddangos ar gyfer ymarferwyr creadigol Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r amgueddfeydd canlynol wedi cael eu penodi drwy broses galwad agored i weithio mewn partneriaeth ar y fenter hon dros y ddwy flynedd nesaf:<br>1. Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth gyda'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol<br>2. Galerie Simpson Artists gydag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe<br>3. Chapter Caerdydd gydag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd<br>4. Artes Mundi gydag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru<br>5. Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange gyda Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru<br>6. Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin gyda'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol<br>7. Ffyrdd o Weithio gyda Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru<br>• Mae'r saith sefydliad celfyddydau gweledol hefyd wedi comisiynu gweithwyr creadigol proffesiynol o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol i weithio ar y prosiect dros y ddwy flynedd, gan gwestiynu a herio'r ffyrdd presennol o feddwl o fewn y sefydliadau, ymgysylltu â chymunedau er mwyn darganfod safbwyntiau a straeon newydd ac archwilio sector y celfyddydau gweledol a threftadaeth o safbwynt gwrth-hiliaeth a dad-drefedigaethu. Bydd y gwaith gyda'r gweithwyr creadigol proffesiynol yn dechrau yn nes ymlaen yn yr hydref. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
| --- | --- |
| Cyd-lunio cyfleoedd â sefydliadau cymunedol llawr gwlad i annog unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (gan gynnwys menywod, merched, pobl anabl, yr henoed, pobl sy'n ystyried eu hunain yn LHDTC+, a phobl nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf) i fynegi eu creadigrwydd, eu treftadaeth, eu hiaith, eu hunaniaeth ddiwylliannol a'u gwreiddiau. Bydd y gweithgareddau hyn yn galluogi pobl i ddod ynghyd i ddathlu ein treftadaeth ddiwylliannol amrywiol ond cyffredin, gan gynnwys drwy'r celfyddydau gweledol a pherfformio, gan gynnwys celf stryd gyfoes, ffasiwn, barddoniaeth, dawns, chwaraeon a cherddoriaeth. | • Mae mwy na £2.8 miliwn wedi cael ei roi i 22 o sefydliadau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu annibynnol ledled Cymru. Mae pob prosiect sydd wedi cael cyllid yn cynnwys ffocws ar gydgynhyrchu, gan ddangos ymrwymiad i sicrhau bod profiad bywyd wrth wraidd polisïau a gwaith i ddatblygu a darparu gwasanaethau.<br>• Cafodd Urdd Gwneuthurwyr Cymru gyllid yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf i gynnal prosiect crefftau cymunedol a oedd yn targedu menywod ethnig leiafrifol sy'n byw yn ward Butetown yng Nghaerdydd yn benodol. Cafodd menywod o'r ardal gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau crefft wythnosol yn rhad ac am ddim, megis sgrin-brintio ar fagiau, crochenwaith, gemwaith gleiniog, batic ar ffabrigau, cerfluniau a fframiau lluniau papier-mâché, gwneud ffelt a phrintio trosglwyddo ar sgarffiau. Gwnaethant fwynhau dysgu sgiliau crefft newydd yn ogystal â deall sut y gallent ddatblygu eu crefftau yn syniadau busnes. Ers i'r prosiect a ariannwyd ddod i ben, mae grŵp bach o'r menywod yn dal i gwrdd bob prynhawn Gwener yng Nghanolfan Gymunedol Butetown ac maent wedi dechrau rhannu gweithgareddau crefft o fewn y grŵp. Mae'r prosiect wedi ffurfio cysylltiadau newydd ar gyfer yr Urdd ag artistiaid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. |
| Annog menywod a merched o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i fyw bywydau egnïol, gan ystyried anfanteision croestoriadol, ieithoedd a'r grwpiau mwyaf difreintiedig. | • Mae Women Connect First wedi cael cyllid grant ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-2025 drwy ein cynllun grantiau lleol i gynnal Sport4All, sy'n ceisio cynyddu nifer y menywod a merched Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Hyd yma, mae'r prosiect wedi ymgysylltu â mwy na 190 o fenywod a merched ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol mewn gweithgareddau ffitrwydd corfforol, gweithgareddau chwaraeon neu weithgareddau iechyd a llesiant eraill, er mwyn gwella eu hiechyd, eu llesiant a'u hyder. Mae'n mynd ati i ennyn diddordeb cyfranogwyr mewn gweithgareddau y mae menywod ethnig leiafrifol fel arfer yn cymryd rhan ynddynt yn llai aml na grwpiau eraill (am resymau sy'n ymwneud ag amhriodoldeb diwylliannol, hiliaeth uniongyrchol, cyfyngiadau ariannol neu rwystrau eraill sy'n arbennig o berthnasol i fenywod a merched ethnig leiafrifol yng Nghymru). |
| Nodi adnodd penodol wedi'i neilltuo i gefnogi gweithgareddau diwylliannol, creadigol a chwaraeon ar lawr gwlad ymhlith grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a hyrwyddo hyn i annog ceisiadau, gan ystyried anfanteision croestoriadol a materion penodol yn ymwneud ag ieithoedd cymunedol. | • Rydym wedi rhoi contract i Diverse Cymru ar gyfer gweinyddu'r Cynllun Grantiau Diwylliant ar gyfer Sefydliadau Llawr Gwlad er mwyn cefnogi gweithgareddau diwylliannol ar lawr gwlad ymhlith grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru.<br>• Daeth y cyfnod gwneud cais am grant i ben ar 25 Medi ac mae'r gwaith dadansoddi cychwynnol yn dangos bod Diverse Cymru wedi cael mwy na 50 o geisiadau. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Gweithio gyda chyrff cyhoeddus i gydnabod yn llawn eu cyfrifoldeb (yn unigol ac ar y cyd) am gyflwyno'r naratif hanesyddol priodol, gan hyrwyddo a chyflwyno disgrifiad cytbwys, dilys ac wedi'i ddatrefedigaethu o'r gorffennol – disgrifiad sy'n cydnabod anghyfiawnderau hanesyddol ac effaith gadarnhaol cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.** | |
| Gweithio gyda chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i nodi a chodi rhwystrau i fwynhau safleoedd treftadaeth a chasgliadau diwylliannol.<br><br>Adrodd straeon o safbwynt profiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (ddoe a heddiw) yn ein horielau a'n hamgueddfeydd, gan gynnwys drwy arddangosiadau parhaus, a thrwy ddathlu eu cyfraniad a chydnabod eu presenoldeb yn hanes Cymru. | • Arddangosfa dan arweiniad y gymuned oedd Arddangosfa Ail-fframio Picton Amgueddfa Cymru, lle y cafodd darnau newydd o waith celf gan yr artistiaid Gesiye (artist amlddisgyblaethol o Trinidad a Tobago) a Laku Neg (grŵp o bedwar o artistiaid o dreftadaeth Drinidadaidd sy'n hyrwyddo mynegiannau o wybodaeth am ddiaspora Affricanaidd drwy'r celfyddydau) eu comisiynu a'u harddangos ochr yn ochr â phortread wedi'i ailddehongli o Thomas Picton (Ail-fframio Picton \| Amgueddfa Cymru). Bu'r grŵp yn gweithio gyda churaduron Amgueddfa Cymru i gynnwys mwy o wybodaeth a chyd-destun am waddol Picton fel Llywodraethwr Trinidad ar droad y 19eg ganrif, a'r ffaith ei fod wedi arteithio pobl Trinidad. Gwnaed y penderfyniad i ailddehongli'r portread fel rhan o Ail-fframio Picton – menter dan arweiniad pobl ifanc gan gynnwys Amgueddfa Cymru a phartner cymunedol, sef Panel Cynghori Is-Sahara.<br><br>• Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi cael cyllid grant ar gyfer prosiect i gofnodi treftadaeth Asiaidd Gymreig. Bydd prosiect a gaiff ei ariannu am sail blwyddyn (blynyddoedd ariannol 22-25) **'Lleoedd rwy'n eu cofio – cofnodi treftadaeth cymunedau Asiaidd yng Nghymru'** yn gweithio gyda chymunedau Asiaidd yng Nghymru i ddiffinio a chofnodi'r hyn sy'n arwyddocaol iddyn nhw o ran treftadaeth ac yn arddangos cyfraniad sylweddol pobl o dreftadaeth Asiaidd i ddiwylliant, economi a llesiant Cymru. CBHC \| Lansio Prosiect y Comisiwn Brenhinol, sef Prosiect Treftadaeth Asiaidd Cymru: Dathlu ac Archifo Profiadau Asiaid Ugandaidd.<br><br>• Creu naratif hanesyddol cytbwys a dilys wedi'i ddad-drefedigaethu yw ffocws y prosiect a arweinir gan KIRAN Cymru, sef Corfflu Gwasanaeth Brenhinol Byddin India (RIASC) a'i gydweithrediad â'r Fyddin Brydeinig yn ystod yr Ail Ryfel Byd – Treftadaeth a Rennir. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae KIRAN Cymru wedi bod yn gweithio gydag aelodau o'r gymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys plant ysgol, er mwyn gwneud gwaith i ailddarganfod cyfraniad sylweddol Corfflu Gwasanaeth Brenhinol Byddin India (RIASC) a'i gydweithrediad â'r Fyddin Brydeinig yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae KIRAN Cymru yn gweithio gyda'r Archif Genedlaethol a Chasgliad y Werin i gyfleu'r hanes cyfoethog y mae'n ei ddarganfod. |
| Adolygu a datrefedigaethu ein mannau a'n casgliadau cyhoeddus drwy ymdrin yn briodol â'r ffordd y caiff pobl a digwyddiadau â chysylltiadau hanesyddol hysbys â chaethwasiaeth a threfedigaethedd eu coffáu, gan gydnabod y niwed a wnaed yn sgil eu gweithredoedd ac ail-lunio'r ffordd y caiff eu hetifeddiaeth ei chyflwyno er mwyn cydnabod hyn yn llawn. | • Mae Cadw wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran Coffáu Cyhoeddus yng Nghymru: Canllawiau i Gyrff Cyhoeddus – un o gamau dilynol allweddol 'Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru'. Mae'r canllawiau, sy'n cael eu diwygio ar hyn o bryd gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn trafod y materion sydd wedi cael eu codi mewn perthynas â choffáu cyhoeddus, ac yn nodi pedwar cam er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r materion hyn ac achub ar gyfleoedd i ddefnyddio coffáu cyhoeddus i gyfrannu at Gymru wrth-hiliol.<br><br>• Mae CBHC yn parhau â'i waith ar ddad-drefedigaethu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru. Hyd yma, mae'r Comisiwn wedi cynnal chwiliadau ar 235 o allweddeiriau, gan gynnwys 15 o unigolion a nodwyd yn adroddiad Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru fel unigolion â beiusrwydd pendant yn y Fasnach Drawsatlantig mewn Caethweision, a 35 yn rhagor o unigolion â beiusrwydd amhendant. O'r 15 o unigolion â beiusrwydd pendant, mae archwiliadau pellach wedi cael eu cynnal mewn perthynas â 14 o'r 15 a, hyd yma, mae 225 o gofnodion safleoedd ac archifau unigol wedi cael eu harchwilio. Ar hyn o bryd, gellir diystyru 152 ohonynt, bydd angen archwilio 60 ymhellach er mwyn egluro unrhyw gysylltiadau ag unigolion beius, a bydd angen ychwanegu nodyn at wyth cofnod er mwyn rhoi eu cysylltiadau ag unigolion beius yn eu cyd-destun. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Sicrhau bod cyrff perthnasol yn adrodd ar y ffordd y maent wedi adolygu ac wedi ail-lunio'r naratif hanesyddol yn seiliedig ar brofiadau amrywiol, gan sicrhau y caiff unigolion a grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n cymryd rhan ac yn rhannu eu profiadau ymarferol eu talu'n briodol am eu hamser a'u profiad. | • Mae Amgueddfeydd, Casgliadau a Chynefin yn brosiect sydd wedi cael ei ariannu o'r £2.8 miliwn. Mae'r prosiect, a gaiff ei arwain gan Dr Marian Gwyn, yn adeiladu ar brosiect blaenorol llwyddiannus a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru o'r enw Amrywiaeth mewn Amgueddfeydd, a oedd yn hwyluso dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng casgliadau a chaethwasiaeth ac ymerodraeth. O dan y prosiect presennol, mae 10 amgueddfa arall wedi cofrestru ar gyfer yr adolygiad o gasgliadau a fydd yn nodi gwrthrychau ac eitemau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth, trefedigaethedd ac amrywiaeth Atlantig. Bydd yr amgueddfeydd yn dilyn rhaglen hyfforddi eang yn seiliedig ar yr adolygiad o gasgliadau a fydd yn cefnogi'r staff wrth iddynt ddad-drefedigaethu eu hamgueddfeydd. |
| **Nod: Nodi a chyrraedd targedau i gynnig cyfleoedd addysg a dysgu gwrth-hiliol, gan gynnwys deunyddiau dehongli, marchnata ac addysgol sy'n cydnabod ac yn dathlu cymysgedd diwylliannol cyfoethog ac amrywiol ein cymdeithas, yn annog ymgysylltiad corfforol a deallusol eang ac yn hyrwyddo arferion ac egwyddorion gwrth-hiliol drwyddi draw.** | |
| Adolygu cynnwys ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol i wella gwelededd ac annog hygyrchedd – gan chwilio am grwpiau ac unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a gweithio gyda nhw i ddatgelu straeon heb eu hadrodd a dathlu llwyddiant. | • Erbyn hyn, mae gan Cadw adran benodol ar ei gwefan sy'n canolbwyntio ar natur gyfoethog ac amrywiol treftadaeth Cymru – Treftadaeth Gyfoethog ac Amrywiol Cymru \| Cadw (llyw.cymru). Y bwriad yw y bydd hyn yn tyfu fel porth rhagarweiniol i gynnwys cysylltiedig. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Adeiladu ar straeon pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n rhan o raglenni addysgol a diwylliannol sy'n bodoli eisoes a chysylltu'r straeon hynny ymhellach, gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru, Cyfuno, Hwb, Cynefin a Chasgliad y Werin Cymru. | • Mae Archifau Morgannwg wedi comisiynu gwaith i ddatblygu adnoddau ac astudiaethau achos amlieithog. Mae gwaith ymchwil yn mynd rhagddo i ddod o hyd i astudiaethau achos sydd â pherthnasedd lleol ym Morgannwg i'w cynnwys yn y Canllaw. Mae nifer o astudiaethau eisoes wedi cael eu dewis, sy'n ymwneud yn benodol â Chaerdydd, Pontypridd a Chymoedd y Rhondda. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y Canllaw yn helpu i symud i ffwrdd oddi wrth ddibyniaeth ar bobl a digwyddiadau rhyngwladol enwog, cyflwyno cynnwys sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, a chynnwys sy'n dyddio o gyfnod cyn canol i ddiwedd yr 20fed ganrif.<br>• Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mewn partneriaeth ag ysgolion lleol a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi dechrau gweithio ar greu adnoddau dysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol Cymru, gan gyfrannu'n uniongyrchol at gynnig cyfleoedd addysg a dysgu gwrth-hiliol. Mae'r prosiect yn Cathays yn edrych ar hanes amrywiol yr ardal, ac mae prosiect EYST yn rhoi cyfle i bobl ifanc o wahanol gefndiroedd i drafod hunaniaeth a Chymreictod o safbwynt profiadau eu cymunedau. Nod y prosiect yn Ysgol Cil-maen yw lleihau'r profiad negyddol o hiliaeth ymhlith dysgwyr o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'n cynnig cyfle i addysgu eraill am draddodiadau diwylliannol cyfoethog ac amrywiol pobl o bob cefndir ym mhob rhan o Gymru.<br>• **Ysgol Cil-maen:** Daw bron hanner disgyblion Ysgol Cil-maen yn Sir Benfro o gefndiroedd sipsiwn a theithwyr. Trefnodd cydgysylltydd prosiect Cymunedau Cymru ar gyfer teithwyr Roma, yr awdur Richard O'Neill, sesiwn ar-lein gyda disgyblion yn yr ysgol. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar adrodd straeon a gwneud y cysylltiad rhwng straeon traddodiadol sydd wedi cael eu hadrodd gan genedlaethau o deithwyr a straeon traddodiadol yng Nghymru megis y Mabinogi. Mae'r disgyblion wedi gweithio ar gynhyrchu ffilm fer yn adrodd stori eu cymuned eu hunain ar y thema 'sut hoffech chi gael eich trin?'. Mae'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol drwy leihau'r profiad negyddol o hiliaeth ymhlith dysgwyr o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br>• **Ysgol Bodhyfryd:** Yn Wrecsam, ffurfiodd y prosiect gysylltiad rhwng Ysgol Bodhyfryd a'r grŵp cymunedol lleol Bom Dia, sef grŵp o siaradwyr Portiwgaleg sy'n byw ac yn cwrdd â'i gilydd yn Wrecsam. Cysylltodd cydgysylltydd y prosiect â Comunidade de Lingua Portuguesa (CLPW) a drefnodd weithgareddau i ddod â disgyblion Ysgol Bodhyfryd ac aelodau o grŵp cymunedol Bom Dia ynghyd. Ymhlith y gweithgareddau roedd sesiynau dawnsio i aelodau o'r gymuned a disgyblion ddysgu dawnsiau Cymreig a Phortiwgeaidd traddodiadol. Hefyd, gwnaeth gweithgareddau crefft a diwylliannol eraill a gefnogwyd gan CLPW alluogi disgyblion yr ysgol i ddysgu mwy am y gymuned Bortiwgeaidd yn Wrecsam, diwylliannau Portiwgeaidd yn fwy cyffredinol, a Phortiwgaleg. Mae'r prosiect wedi arwain at greu adnoddau dysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol Cymru, a'u cymharu â thraddodiadau gwledydd a diwylliannau eraill.<br>• **Ysgol Cathays:** Daeth prosiect Cymunedau Cymru ag Ysgol Uwchradd Cathays a'r stiwdio greadigol Unify ynghyd i ddylunio a chreu murlun yng Nghaerdydd. Yr ysbrydoliaeth ar gyfer y murlun oedd dyluniadau John Petts, sy'n cael eu cadw yn y Llyfrgell Genedlaethol. Roedd wedi dylunio a chreu ffenestr gwydr lliw yn dangos Iesu du yn rhodd gan ddinasyddion Cymru i eglwys yn Birmingham, Alabama, yn 1963, yn dilyn ymosodiad bomio â chymhelliant hiliol a laddodd bedair merch Affro-Americanaidd rhwng 11 a 14 oed. Roedd y gweithgaredd yn gyfle i ddisgyblion yn yr ysgol ddysgu mwy am y cysylltiad hwn rhwng Cymru a'r gymuned ddu yn Alabama, yn ogystal â chreu darn o waith celf gweledol a gaiff ei baentio ar ffurf murlun ar ochr adeilad yng Nghaerdydd cyn bo hir. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| | • Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi dechrau ar waith i wella amrywiaeth y Bywgraffiadur Cymreig. Adnodd dwyieithog sy'n cynnwys cofnodion ar fywydau tua 5,000 o bobl â chysylltiad â Chymru sydd wedi gwneud cyfraniadau arwyddocaol drwy'r canrifoedd yw'r Bywgraffiadur. Cafodd ei gyhoeddi mewn print i ddechrau, a daeth yn adnodd ar-lein yn 2001. Mae ar gael ar-lein am ddim (bywgraffiadur.cymru). Nid yw cyfraniad pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi'i gynrychioli'n ddigonol yn y Bywgraffiadur, a phrif nod y prosiect yw cymryd camau gweithredu a fyddai'n datblygu adnodd addas a mwy cynhwysol i Gymru. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi ffurfio cysylltiadau gwerthfawr sydd wedi datblygu gyda phrosiectau ac unigolion eraill ledled Cymru, ac mae hyn wedi rhoi cyfle i wrando ar leisiau o'r cymunedau amrywiol a chymryd camau i gynnwys eu straeon a'u hanesion yn y Bywgraffiadur. Mae'r gwaith o gomisiynu a chyhoeddi erthyglau newydd am bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn parhau, ynghyd ag addasu a diwygio cofnodion sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Bywgraffiadur oherwydd geirfa anwyddoniadurol neu broblemau dehongli yn unol â thargedau 2023-24.<br>• Mae CBHC yn awyddus i chwarae ei ran yn y gwaith o wireddu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol drwy greu grŵp cynghori amrywiol i weithio gyda Chasgliad y Werin Cymru i gydgynhyrchu camau gweithredu a chanlyniadau mewn perthynas â'r tasgau yng nghynllun gweithredol Casgliad y Werin Cymru ar gyfer 2023-24. Bydd hyn yn cynnwys recriwtio aelodau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o'r grŵp cynghori, meithrin Cenhadon newydd i Gasgliad y Werin Cymru o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, cynyddu nifer y defnyddwyr cofrestredig ethnig leiafrifol sy'n defnyddio'r wefan a chynyddu nifer y cyfranwyr ethnig leiafrifol. |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

Un her fawr i Cadw yw gwella amrywiaeth gweithlu'r asiantaeth. Byddem wrth ein bodd yn recriwtio (neu ddim ond yn annog ymgeiswyr, hyd yn oed) o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i Cadw – ac yn enwedig yn ein rolau sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn ein canolfannau ymwelwyr sy'n gysylltiedig â henebion (sy'n cyfrif am tua 50% o'n gweithlu). Fodd bynnag, mae hyn yn heriol – a hynny am ddau reswm, fwy na thebyg. Yn gyntaf, mae ein henebion wedi'u staffio yn tueddu i fod mewn rhannau gwledig o Gymru ac, yn ail, mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Cadw wella'r ddarpariaeth o ran staff sy'n siarad Cymraeg ar safleoedd.

## 2.4. Iechyd

Mae adroddiadau ar gynnydd o ran rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi bod yn cael eu paratoi ar gyfer pob rhan o'r GIG yng Nghymru. Mae uwch-arweinwyr yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Her mewnol, gan sicrhau atebolrwydd a llywodraethu wrth fonitro cynnydd yn erbyn nodau iechyd a gofal cymdeithasol a sicrhau cynnydd ar y cyd. Mae'r gofyniad i ddangos arweinyddiaeth a chynlluniau gwrth-hiliol wedi cael ei wneud yn orfodol, ac mae pob un o Fyrddau GIG Cymru wedi penodi hyrwyddwyr cydraddoldeb gweithredol ac wedi ymrwymo i'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd.

O ganlyniad i ymdrechion i greu amgylcheddau diogel a chynhwysol ar gyfer staff a mynd i'r afael ag arferion hiliol, mae holl bolisïau'r gweithlu GIG Cymru wedi cael eu harchwilio o safbwynt gwrth-hiliol. Dylid blaenoriaethu argymhellion yr archwiliad a byddant yn llywio'r gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau'r gweithlu.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn rhoi pwyslais ar wella ansawdd data a chyflwyno Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu. Bydd rhoi'r Safon ar waith yn fodd i fesur cynnydd o ran cydraddoldeb hil y gweithlu ac adrodd ar feysydd megis bwlio, aflonyddu, arweinyddiaeth, cynnydd, hyfforddiant, recriwtio a chyflog. Mae ymdrechion hefyd yn mynd rhagddynt i fynd i'r afael â bylchau mewn data sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd drwy gydweithio â Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG.

Er mwyn sicrhau mynediad teg at wasanaethau gofal iechyd, mae camau penodol wedi cael eu cymryd ym meysydd gofal mamolaeth a newyddenedigol ac iechyd meddwl. Bydd y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol yn gwneud newidiadau er mwyn gwella canlyniadau a phrofiadau ar gyfer menywod a theuluoedd ethnig leiafrifol sy'n wynebu anghydraddoldebau iechyd.

Er i heriau gael eu hwynebu wrth geisio sicrhau a gweinyddu adnoddau, mae swyddogion y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal yn ymrwymedig i roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith yn llwyddiannus.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Iechyd** | |
| **Nod: Bydd y GIG yng Nghymru yn wrth-hiliol ac ni fydd yn derbyn unrhyw fath o wahaniaethu nac anghydraddoldeb i gyflogeion na defnyddwyr gwasanaethau.** | |
| Bydd uwch-arweinwyr yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn sefydlu Bwrdd Her mewnol i gynnwys cynrychiolaeth allanol i fonitro cynnydd yn erbyn Nodau a Chamau Gweithredu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sicrhau cynnydd ar y cyd. | **Mae gweithredu i wneud cynnydd o ran gwrth-hiliaeth yn dal yn flaenoriaeth uchel ar agendâu ym mhob rhan o'r sector iechyd, yn fewnol ac yn allanol.**<br>1. Wedi sefydlu trefniadau cadarn o ran atebolrwydd a llywodraethu ac ymgysylltu ag arweinwyr y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Bwrdd Gweithredu a Her. Mae Bwrdd Gweithredu a Her Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a gaiff ei gadeirio gan Judith Paget, yn cyfarfod bob dau fis i graffu ar gynnydd a mynd i'r afael â rhwystrau rhag cyflawni.<br>Mae Indu Deglurkar ac Anton Emmanuel yn cynrychioli'r Grŵp Atebolrwydd Allanol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r ddau'n rhoi mewnbwn i Fwrdd y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.Mae'r Bwrdd wedi gwahodd partneriaid a rhanddeiliaid allanol i gyflwyno'r rhwystrau a'r heriau sy'n eu wynebu wrth roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith ac i weithredu fel cyfaill beirniadol.<br>2. Mae'r gofyniad i ddangos tystiolaeth o arweinyddiaeth a chynlluniau gwrth-hiliol wedi cael ei wneud yn orfodol drwy amcanion Cadeirydd Bwrdd GIG Cymru a thrwy Fframwaith Perfformiad GIG Cymru. Mae holl Fyrddau GIG Cymru wedi penodi hyrwyddwyr cydraddoldeb gweithredol. Mae holl Fyrddau GIG Cymru wedi ymrwymo i'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd sy'n cael ei datblygu gan Academi Wales. |

<table>
<tr><th>Camau gweithredu</th><th>Cyflawniadau</th></tr>
<tr><td colspan="2">Nod: Bydd staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel a chynhwysol, sydd wedi'u hadeiladu ar arweinyddiaeth wrth-hiliol ac yn cael eu cefnogi i wireddu eu potensial llawn, a chaiff staff ethnig lleiafrifol a'u cynghreiriaid eu grymuso i nodi arferion hiliol a mynd i'r afael â nhw.</td></tr>
<tr><td>Cam blaenoriaeth 2: Comisiynu archwiliad annibynnol o'r holl bolisïau a gweithdrefnau presennol sy'n ymwneud â'r gweithlu o safbwynt gwrth-hiliol, a disgwyl cynrychiolaeth o grwpiau ethnig lleiafrifol mewn fforymau neu grwpiau a sefydlir i lunio'r archwiliad a goruchwylio a chefnogi'r broses o'u rhoi ar waith a'u cymhwyso'n effeithiol.<br><br>Bydd Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) a Sefydliadau'r GIG yn llunio rhaglenni addysg ar wrth-hiliaeth ar y cyd â phartneriaid ethnig lleiafrifol.</td><td>Mae polisïau a gweithdrefnau'r GIG yn cael eu hatgyfnerthu er mwyn helpu staff i weithio mewn amgylcheddau diogel a chynhwysol<br><br>1. Mae Diverse Cymru yn cynnal archwiliad o holl bolisïau'r gweithlu GIG Cymru o safbwynt gwrth-hiliol. Caiff argymhellion yr archwiliad eu hymgorffori yn y protocol ar gyfer datblygu ac adolygu holl bolisïau'r gweithlu GIG Cymru a chaiff egwyddorion ac argymhellion allweddol eu rhannu i'w defnyddio mewn prosesau adolygu a dylunio polisïau lleol erbyn diwedd 2023.<br><br>2. Mae swyddogion yn gweithio gyda sefydliadau partner i adolygu systemau ar gyfer rhoi gwybod am ymddygiad hiliol yn y gweithlu gan gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau, er mwyn gwneud prosesau'n fwy tryloyw, sicrhau mynediad at gymorth llesiant effeithiol a gwneud penderfyniadau cadarn ac adferol yn gyson.<br><br>3. Mae grŵp gorchwyl a gorffen traws-sefydliad wedi cael ei sefydlu er mwyn datblygu'r fanyleb ar gyfer pecyn e-ddysgu sylfaen ar arferion gwrth-hiliol a fydd ar gael ym mhob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rhagwelir y bydd yr e-ddysgu hwn yn sail ar gyfer fframwaith o addysg ar wrth-hiliaeth ar gyfer y gweithlu.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod: Caiff data ar hil, ethnigrwydd ac anfantais groestoriadol eu casglu'n rheolaidd, eu rhannu a'u defnyddio mewn ffordd dryloyw, er mwyn dileu anghydraddoldebau mewn iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd, a rhoi sicrwydd bod GIG Cymru yn amgylchedd gwrth-hiliol a diogel i staff a chleifion.</td></tr>
<tr><td>Cam blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd data ar y gweithlu a chyflwyno Safon Cydraddoldeb Hil ar gyfer y Gweithlu i ddarparu sylfaen dystiolaeth i sicrhau newid strwythurol wedi'i dargedu a'i fesur. Wedi'i ategu gan newid diwylliannol, drwy ymyriadau wedi'u targedu ar lefel leol a chenedlaethol, a ddatblygir drwy bartneriaeth gymdeithasol.</td><td>Wedi cwmpasu a chymeradwyo'r ffordd y caiff Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu ei rhoi ar waith –<br><br>1. Mae'r cyfnod o roi Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu i Gymru ar waith wedi dechrau bellach, dan arweiniad yr Athro Anton Emmanuel a oedd wedi arwain Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu ar gyfer NHS England cyn hynny, ers 2020.<br><br>Bydd y Safon yn nodi ac yn mesur cynnydd o ran cydraddoldeb hil yng ngweithlu'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol o fewn gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gofal cymdeithasol, ac yn adrodd yn systematig ar wybodaeth am fwlio, aflonyddu, arweinyddiaeth, cynnydd, hyfforddiant, recriwtio a chyflog. Mae'r gofyniad i adrodd ar y data hyn yn y GIG yn orfodol yn unol â Fframwaith Perfformiad GIG Cymru.<br><br>2. Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddwyd cyllid ar gyfer cyfnod gweithredu rhaglen Mamolaeth Ddigidol Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg data dibynadwy i olrhain patrymau clinigol a chanlyniadau gwael mewn amser real ar sail ethnigrwydd, gan sicrhau y bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n cael rhybuddion amserol er mwyn gallu ymyrryd ac uwchgyfeirio. Bydd hefyd yn fodd i sefydlu dangosfwrdd cenedlaethol cadarn a fydd yn cynnwys data allweddol ar sail ethnigrwydd mamau a babanod er mwyn sicrhau y caiff gwaith ei flaenoriaethu er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau gwael.<br><br>3. Bydd Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG yn mynd i'r afael â bylchau allweddol yn y setiau data a ddefnyddir ar hyn o bryd i fonitro ac olrhain anghydraddoldebau iechyd.</td></tr>
</table>

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Byddwn yn nodi ac yn chwalu rhwystrau sy'n atal mynediad teg at wasanaethau gofal iechyd i bobl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.** | |
| **Cam blaenoriaeth 4:** Bydd y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol, wedi'i chyd-lunio a'i datblygu â chymunedau ethnig lleiafrifol a rhanddeiliaid, yn manylu ar newidiadau penodol i wasanaethau mamolaeth a fydd yn gwella canlyniadau a phrofiadau menywod a theuluoedd o gymunedau ethnig lleiafrifol sy'n wynebu anghydraddoldebau iechyd, ac yn eu rhoi ar waith.<br><br>**Cam blaenoriaeth 5:** Bydd "Amser i Newid Cymru" yn datblygu ac yn cyflwyno rhaglen atal stigma iechyd meddwl wrth-hiliol sydd wedi'i chyd-lunio â phobl â phrofiadau bywyd a phobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. | 1. Ym mis Ionawr 2022, ymrwymodd y Gweinidog i roi £1.15 miliwn tuag at gam 'darganfod' y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol. Mae'r cam hwn wedi dod i ben ac mae'r Adroddiad Darganfod wedi cael ei gyhoeddi, gan nodi nifer o flaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol er mwyn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys:<br>• Adolygu mynediad at ofal mamolaeth a beichiogrwydd cynnar i bob menyw, waeth beth fo'u hethnigrwydd.<br>• Yr holl fyrddau iechyd i gydgynhyrchu cyfathrebiadau wedi'u teilwra ar gyfer menywod ethnig leiafrifol yn eu cymunedau.<br>• Sicrhau mynediad cyflym at gyngor os bydd menywod o gefndir ethnig lleiafrifol yn pryderu am eu hiechyd.<br>• Sicrhau bod gan bob aelod o staff drothwy is i adolygu, derbyn ac ystyried uwchgyfeirio amlddisgyblaethol ymhlith menywod o gefndir ethnig lleiafrifol.<br>• Rhaid cofnodi ethnigrwydd yn gywir yn ystod yr apwyntiad cofrestru a defnyddio data i fonitro canlyniadau ar gyfer menywod o darddiad ethnig gwahanol.<br><br>2. **Mae arweinydd amrywiaeth clinigol wedi cael ei benodi** a bydd yn bwrw ymlaen â'r camau sy'n ymwneud â gofal mamolaeth a newyddenedigol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Bydd yn parhau i weithio gyda grwpiau rhanddeiliaid cymunedol allweddol er mwyn symud ymlaen o nodi materion allweddol tuag at weithio gyda'n gilydd i sicrhau atebion cynaliadwy.<br><br>3. Amser i Newid Cymru – gwaith gyda sefydliadau arbenigol i ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a sicrhau bod deunyddiau a dulliau ymgyrchu a hyfforddi yn ddiwylliannol briodol. **Mae 14 o Hyrwyddwyr Amser i Newid Cymru newydd o gymunedau ethnig lleiafrifol wedi cael eu recriwtio rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023**. Mae saith sefydliad newydd sydd â chyfrannau uchel o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn eu gweithluoedd wedi ymrwymo i'r Adduned Cyflogwr yn y chwarter diwethaf (Ionawr-Mawrth 23). |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

Mae swyddogion y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi wynebu heriau tebyg i feysydd polisi eraill ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru o ran y ffaith bod sicrhau a gweinyddu adnoddau yn golygu bod llai o amser ar gael i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu.

## 2.5. Gofal Cymdeithasol

Mae grŵp llywio partneriaeth sy'n cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC), ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi cymryd camau i gefnogi amrywiaeth o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth ar gyfer aelodau ethnig leiafrifol o'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwaith ymchwil er mwyn sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygu arweinyddiaeth sy'n targedu staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn benodol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn effeithiol. Hefyd, mae gwaith wedi cael ei gwblhau i fapio anghenion presennol unigolion ethnig leiafrifol sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol o ran diwylliant, iaith a dehongli/cyfieithu. Dylai canfyddiadau'r ymarfer mapio hwn fod wedi'u cwblhau ac yn barod i lywio gweithgarwch yn y dyfodol erbyn hyn.

Mae ymdrechion wedi cael eu gwneud i wella prosesau casglu data, ymchwilio a dadansoddi mewn perthynas â defnyddwyr gofal cymdeithasol ethnig leiafrifol a'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys diwygio Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol a diweddaru'r Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth i gynnwys data ar ethnigrwydd. Mae'r mesurau hyn yn cynnig gwybodaeth werthfawr ac yn helpu i fynd i'r afael â bylchau yn y data sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae swyddogion y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi wynebu heriau fel meysydd polisi eraill o fewn Llywodraeth Cymru o ran sicrhau a gweinyddu adnoddau, sydd wedi effeithio ar eu gallu i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu yn effeithiol. Mae gan yr amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid sy'n rhan o ymdrechion gwrth-hiliol amrywiaeth o flaenoriaethau sefydliadol a mannau cychwyn, sy'n peri heriau ychwanegol o ran y gallu i gydweithio.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol** | |
| **Nod: Sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel ym maes gofal cymdeithasol yn modelu ac yn hyrwyddo gwrth-hiliaeth, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn cyflwyno sector gofal cymdeithasol gwrth-hiliol i bobl sy'n cael gofal a chymorth ac i'r gweithlu gofal cymdeithasol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwaith datblygu er mwyn creu uwch-weithlu â mwy o amrywiaeth ethnig.** | |
| Cymryd camau cadarnhaol a chefnogi amrywiaeth o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth ar gyfer aelodau ethnig lleiafrifol o'r gweithlu gofal cymdeithasol er mwyn eu datblygu'n rheolwyr canol ac uwch-reolwyr. | Mae GCC ac AaGIC wedi bod yn adolygu'r broses o roi Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau ei bod yn creu arweinwyr sy'n weithredol wrth-hiliol.<br><br>Bydd dull rhaglen dan arweiniad GCC (fel corff gwella'r sector) drwy grŵp llywio partneriaeth gydag ADSSC ac AaGIC yn bwrw ymlaen â gwaith ymchwil a datblygu er mwyn sicrhau y bydd cynigion ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn effeithiol.<br><br>Mae GCC hefyd yn datblygu cynnwys adnodd e-ddysgu fel cyflwyniad i wrth-hiliaeth ar gyfer pob gweithiwr gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn rhan o'r gofynion cofrestru. Y bwriad yw y bydd hyn yn rhan o amrywiaeth o adnoddau a fydd yn ymdrin â'r holl nodweddion gwarchodedig, a chroestoriadedd. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Sicrhau na fydd pobl ethnig leiafrifol yn wynebu unrhyw rwystrau wrth geisio dilyn gyrfa neu ymgymryd â rôl ym maes gofal cymdeithasol.** | |
| Adolygu prosesau dethol a dyrchafu (gan ddechrau gyda rolau rheolwyr canol ac arweinwyr awdurdodau lleol) a nodi'r rhesymau pam y mae gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol ethnig lleiafrifol yn ymadael â'r gweithlu. Bydd yr adolygiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer lleihau rhagfarn mewn perthynas â'r prosesau a'r polisïau perthnasol a threfniadau i'w gwerthuso'n barhaus.<br><br>Sicrhau bod yr holl ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol, cyn mynediad a datblygiad proffesiynol parhaus, wedi'i hadolygu mewn perthynas â chynnwys gwrth-hiliol; gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a gwrth-hiliaeth. | • Bydd gwaith yn dechrau cyn bo hir, dan arweiniad ADSSC, i adolygu prosesau dethol a dyrchafu er mwyn nodi'r rhesymau pam mae gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ymadael â'r gweithlu.<br>• Mae GCC wedi dechrau adolygu cynnwys yr holl gymwysterau blynyddoedd cynnar a gofal plant a gofal cymdeithasol lefel 2 i lefel 5 er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu gwrth-hiliaeth yng Nghymru (yn ogystal â gwrth-wahaniaethu). Caiff y newidiadau a nodir eu rhoi ar waith yn yr adolygiad o gymwysterau galwedigaethol y bwriedir ei gynnal rhwng 2023 a 2025.<br>• Mae gan GCC brosiect sy'n mynd rhagddo i wella'r ffordd rydym yn sicrhau y caiff llais y dysgwr ei glywed o fewn rhaglenni gwaith cymdeithasol a reoleiddir. Diben hyn yw deall llais y dysgwr yn well, gan dynnu sylw at unrhyw brofiad o hiliaeth neu wahaniaethu.<br>• Mae GCC yn cynnal adolygiad o'r cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant er mwyn helpu i gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, egwyddorion a chynlluniau gweithredu LHDTC+ mewn canllawiau ar gyfer addysgu a dysgu, ynghyd ag adolygiad o iaith i gefnogi arferion gwrth-wahaniaethol. Mae argymhellion yn cael eu pennu a'u cyflwyno i'r grŵp gweithredol ar gymwysterau gytuno arnynt.<br>• Gan weithio gyda SAUau, gwrth-hiliaeth fydd testun ein gwaith monitro thematig drwy ein cylch gwaith Sicrhau Ansawdd Addysg. Bydd hyn yn rhoi trosolwg inni o'r ffordd y caiff gwrth-hiliaeth ei chynnwys ym mhob agwedd ar brofiad myfyriwr ar hyn o bryd, gan gynnwys y broses gwneud cais, cynnwys a chwricwlwm a chwynion.<br>• Caiff anghenion y gweithlu ethnig leiafrifol o ran y Gymraeg eu mapio drwy ddatblygu adnodd asesu sgiliau Cymraeg. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Gwella data ansoddol a meintiol, ymchwil, tystiolaeth, gwaith dadansoddi, gwybodaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys casglu llawer mwy o ddata ar brofiadau ymarferol gan bobl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol – er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau presennol yn y data a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r holl Nodau a Chamau Gweithredu ym maes gofal cymdeithasol.** | |
| Adolygu a diwygio'r Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â materion yn ymwneud â defnyddwyr ethnig lleiafrifol gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol (gan gynnwys profiadau ymarferol). Bydd hyn yn gwella'r gwaith o ddatblygu, casglu a defnyddio tystiolaeth yng Nghymru a chysylltu unrhyw fylchau mewn ymchwil a all helpu i gyflawni'r holl Nodau a Chamau Gweithredu ym maes gofal cymdeithasol yn y Cynllun hwn.<br><br>Sicrhau bod y Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (bwlch a nodwyd eisoes yn y data) yn casglu data ac yn cynnwys pwyntiau data ar ethnigrwydd fel bod gennym well gwybodaeth am bobl ethnig leiafrifol sy'n cael gwasanaeth cymdeithasol a'r mathau o wasanaethau y maent yn eu cael. | • Mae'r gwaith o ddiwygio'r Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol wedi dechrau cael ei ddatblygu mewn perthynas â materion yn ymwneud â defnyddwyr ethnig lleiafrifol gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol (gan gynnwys profiadau ymarferol). Bydd hyn yn gwella'r gwaith o ddatblygu, casglu a defnyddio tystiolaeth yng Nghymru a chysylltu unrhyw fylchau mewn ymchwil a all helpu i gyflawni'r holl Nodau a Chamau Gweithredu ym maes gofal cymdeithasol.<br>• Mae gwaith wedi cael ei gwblhau i sicrhau bod y Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (bwlch a nodwyd eisoes yn y data) yn casglu data ac yn cynnwys pwyntiau data ar ethnigrwydd fel bod gennym well gwybodaeth am bobl ethnig leiafrifol sy'n cael gwasanaethau cymdeithasol a'r mathau o wasanaethau y maent yn eu cael. Rhoddwyd canllawiau cymeradwy terfynol i Awdurdodau Lleol ym mis Tachwedd 2022. Bydd y rhain yn llywio'r data a gaiff eu casglu o fis Ebrill 2023 ymlaen ac yn cynnwys dadansoddiadau manwl o hil ac ethnigrwydd oedolion sy'n cael gofal a chymorth. Caiff y data hyn eu cyhoeddi am y tro cyntaf yn 2024/25. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Parhau i nodi'r rhwystrau i wasanaethau gofal cymdeithasol a wynebir gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a mynd ati i'w chwalu, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a bod y gwasanaethau a ddarperir yn wrth-hiliol, yn hygyrch ac yn ddiwylliannol briodol.** | |
| Mapio anghenion iaith, dehongli/cyfieithu a diwylliannol presennol pobl ethnig leiafrifol sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn helpu i gynllunio gwasanaethau presennol a gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a darparu cyfieithiadau llafar ac ysgrifenedig.<br><br>Sefydlu gweithgor o bartneriaid gwasanaethau statudol, annibynnol a thrydydd sector er mwyn cyd-lunio gwasanaethau gofal cymdeithasol gwrth-hiliol sy'n ddiwylliannol gymwys i ddefnyddwyr o bob oed. Bydd y grŵp yn rhoi cyngor a chymorth i swyddogion gofal cymdeithasol. Bydd aelodaeth y grŵp yn cynrychioli pobl ethnig leiafrifol er mwyn cynnig eu profiadau ymarferol a'u harbenigedd. | • Mae gwaith wedi cael ei wneud i fapio anghenion iaith, dehongli/cyfieithu a diwylliannol presennol pobl ethnig leiafrifol sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn helpu i gynllunio gwasanaethau presennol a gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a darparu cyfieithiadau llafar ac ysgrifenedig. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan ADSS Cymru. Bydd y camau nesaf yn archwilio anghenion gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol.<br>• Mae gweithgor o bartneriaid gwasanaethau statudol, annibynnol a thrydydd sector wedi cael ei sefydlu er mwyn cyd-lunio gwasanaethau gofal cymdeithasol gwrth-hiliol sy'n ddiwylliannol gymwys i ddefnyddwyr o bob oed. Bydd aelodaeth y grŵp yn cynrychioli pobl ethnig leiafrifol a bydd hefyd yn cynnwys arbenigwyr ym maes gofal cymdeithasol er mwyn cynnig eu profiadau ymarferol a'u harbenigedd.<br>• Mae AGC ac AGIC yn datblygu Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar y cyd ac yn trefnu hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer arolygwyr. Maent wedi cynnal gweithdai cydraddoldeb, amrywiaeth a chydraddoldeb gan ymdrin â materion fel y Model Cymdeithasol o Anabledd, microymosodiadau ac effeithiau meddyliol/corfforol hiliaeth ar unigolion.<br>• Mae ADSSC yn arwain gwaith i fapio anghenion diwylliannol, iaith a chyfieithu ar y pryd presennol pobl ethnig leiafrifol sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, er mwyn helpu i gynllunio gwasanaethau presennol a gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a darparu cyfieithiadau llafar ac ysgrifenedig, a disgwylir adroddiad ar gynnydd erbyn dechrau mis Mehefin. |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

- Mae swyddogion y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi wynebu heriau tebyg i feysydd polisi eraill ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru o ran y ffaith bod sicrhau a gweinyddu adnoddau yn golygu bod llai o amser ar gael i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu.
- Mae wedi bod yn heriol gweithio gydag amrywiaeth mor eang o randdeiliaid a phartneriaid sydd â gwahanol flaenoriaethau sefydliadol a mannau cychwyn o ran gwrth-hiliaeth.
- Mae swyddogion yn ymwybodol o rai honiadau o hiliaeth sy'n dal i fynd rhagddynt ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys enghreifftiau penodol a godwyd â Llywodraeth Cymru. Caiff yr honiadau hyn eu cymryd o ddifrif ac mae camau'n cael eu cymryd lle bo modd ac maent yn cael eu trosglwyddo i sefydliadau perthnasol lle bo angen.
- Mae adnoddau a chyllid yn heriol o hyd. Mae cyllid ar gyfer 2023/24 wedi cael ei gadarnhau, mae gwaith i'w wneud i brosesu hyn, ac mae'n dal i beri pryder mai dim ond cyllid am flwyddyn y gallwn ei gadarnhau yn hytrach na chyllid parhaus o ystyried y pwysau cyllidebol presennol a geir yn gyffredinol.

## 2.6. Cartrefi a Lleoedd

Ymhlith y cyflawniadau allweddol yn y maes polisi hwn mae ymdrech â ffocws pendant i wella amrywiaeth o fewn sefydliadau tai drwy gydweithio â grwpiau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae adroddiad amrywiaeth Tai Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer 2021 yn dangos cynrychiolaeth o 6% i leiafrifoedd ethnig ar fyrddau, sydd fymryn yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol. Mae hyn yn gynnydd o 4% ers 2014. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi'r diffyg amrywiaeth ymhlith cadeiryddion cymdeithasau tai ac yn pwysleisio'r angen am fwy o gynhwysiant mewn swyddi arwain.

Mae prosiect Get into Housing yn cynnig lleoliadau gwaith am dâl i unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir o gymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghaerdydd, sy'n cyd-fynd â nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Ar ben hynny, o 2023-24 ymlaen, bydd yn ofynnol i sefydliadau tai sy'n derbyn grantiau gael polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, gyda sylw penodol ar ei roi ar waith.

Mae rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn parhau i gynnal prosiect 'llwybr at aelodaeth bwrdd'. Cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yw'r prosiect, a'i nod yw sicrhau bod unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol sydd am gyfrannu at arwain sefydliad mewn sefyllfa well i wneud hynny.

Mae Tai Pawb wedi rhoi hyfforddiant i 547 o bobl ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a dywedodd 92% o'r rhai a oedd yn bresennol y byddent yn argymell yr hyfforddiant i bobl eraill. Llwyddodd y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd i recriwtio aelodau amrywiol ac mae wedi ffurfio cysylltiadau â grwpiau amrywiol er mwyn cefnogi'r llwybr recriwtio.

Ymhlith yr heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion mae'r raddfa y mae angen eu cyflawni arni o fewn cyfnod byr. Fodd bynnag, mae grŵp cyfeirio mewnol ac allanol ar gyfer tai wedi cael ei sefydlu i oruchwylio'r ffordd y caiff Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ei roi ar waith o fewn y Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio a'r sector tai ehangach yng Nghymru.

Er gwaethaf yr heriau o ran adnoddau, llwyddwyd i sicrhau cynnydd o ran adolygu Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr drwy ymweliadau helaeth â safleoedd ledled Cymru. Mae'r ymweliadau hyn wedi hwyluso gwell dealltwriaeth o'r heriau a wynebir. Nawr, mae'n hanfodol adfer y momentwm a gollwyd a blaenoriaethu'r nodau a bennwyd ar gyfer mis Mehefin 2024.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Tai ac Adfywio** | |
| **Nod: Cynyddu cynrychiolaeth pobl ethnig leiafrifol mewn swyddi uwch-arweinwyr ac ar bob lefel o weithlu'r sector tai yn sylweddol, er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth a wasanaethir.** | |
| Sicrhau bod byrddau sefydliadol, grwpiau cynghori, uwch-arweinwyr a'r gweithlu (Tai) yn adlewyrchu amrywiaeth pobl ethnig leiafrifol drwy weithio gyda sefydliadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a phartneriaid er mwyn rhoi **Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus** ar waith, ar y cyd â'r Uned Cyrff Cyhoeddus, yn arbennig mewn perthynas â'r nodau canlynol:<br>• dangos arferion recriwtio agored a thryloyw<br>• dangos amrywiaeth o fewn Byrddau<br>• dangos eu bod yn creu cymuned o unigolion (yn enwedig menywod ethnig lleiafrifol) sydd â diddordeb, sy'n ymwybodol ac sydd bron yn barod i fod yn aelodau o Fwrdd (h.y. creu cyflenwad cyson a chadarn). | Cafodd **adroddiad amrywiaeth Tai Cymdeithasol Cofrestredig 2021** ei gyhoeddi ym mis Hydref 2022. adroddiad-cydraddoldeb-ac-amrywiaeth-byrddau-cymdeithasau-tai_2021.pdf (llyw.cymru)<br><br>Mae'n dweud bod cyfran yr aelodau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar fyrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (6%) fymryn yn uwch nag o fewn y boblogaeth gyffredinol (4.9%) a'i bod wedi cynyddu 4% yn raddol ers 2014. Roedd holl gadeiryddion cymdeithasau tai yn wyn, a bydd gwell amrywiaeth ymhlith cadeiryddion yn cael ei hannog. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â byrddau er mwyn deall eu prosesau a'u cymorth ar gyfer annog ymgeiswyr amrywiol yn well, gyda'r bwriad o ddarganfod pa waith ychwanegol y gellir ei wneud, ac a ellir rhoi unrhyw gymorth neu arweiniad ychwanegol.<br><br>Mae Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd, ynghyd â chwe Chymdeithas Dai arall, wedi cynnal prosiect Get into Housing ers mis Ebrill 2022. Mae'n cynnig lleoliadau gwaith am dâl mewn amrywiaeth o adrannau tai i bobl o gymunedau ethnig lleiafrifol 25 oed a throsodd yng Nghaerdydd sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir.<br><br>Mae cais wedi cael ei wneud am gymeradwyaeth i roi gwerth £100k o gyllid grant i bwyso am gyllid o'r Gronfa Loteri Fawr a gweithio ochr yn ochr â'r prosiect i ddysgu gwersi y gellir eu hymgorffori mewn syniadau polisi tan 2025. Mae amcanion y prosiect yn gyson ag ymrwymiadau yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol mewn perthynas â Thai ac Adfywio, a Chyflogadwyedd.<br><br>Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn parhau i gynnal prosiect 'llwybr at aelodaeth bwrdd'. Cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yw'r prosiect, a'i nod yw sicrhau bod unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol sydd am gyfrannu at arwain sefydliad mewn sefyllfa well i wneud hynny. Mae'r prosiect yn cynnig safbwynt ymarferol a damcaniaethol drwy hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ac arsylwi ar gyfarfodydd bwrdd. Mae'r prosiect yn targedu gweithwyr proffesiynol Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd â'r cymhelliant a'r brwdfrydedd i gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau mwy cytbwys ac amrywiol yn ystafell y bwrdd.<br><br>O 2023-24 ymlaen, bydd **llythyrau Cynnig Grant a roddir i sefydliadau tai** yn cynnwys gofyniad i sefydliadau a ariennir lunio polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a gwneud trefniadau i sicrhau y caiff y polisi ei roi ar waith. |
| Sicrhau bod Cymdeithasau Tai, adrannau tai awdurdodau lleol a sefydliadau cymorth y trydydd sector yn dangos sut y byddant yn sicrhau bod gwrth-hiliaeth a chydraddoldeb hil wedi'u hymgorffori yn eu sefydliadau, fel cyflogwyr ac fel darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys mentrau fel adduned Gweithredoedd nid Geiriau Tai Pawb; dylai'r gwaith hwn gael ei lywio gan sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol. | Anogir sefydliadau i ymrwymo i addewid Gweithredoedd nid Geiriau a gaiff ei reoli gan Tai Pawb.<br><br>Mae 31 o sefydliadau wedi ymrwymo i'r addewid. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Tai Pawb a Cartrefi Cymunedol Cymru dros y 12 mis nesaf i annog pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdod Lleol sy'n cadw stoc i ymrwymo i addewid Gweithredoedd nid Geiriau.<br><br>Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol: roedd mwy na 4,700 o bobl wedi defnyddio gwefan Tai Pawb gan gynnwys adnoddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, roedd 547 wedi cael hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (gyda 92% yn ei argymell i eraill), roedd 364 o bobl wedi bod i ddigwyddiadau Tai Pawb, ac roedd 154 â phrofiad bywyd wedi cymryd rhan yng ngwaith Tai Pawb. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Sicrhau bod sefydliadau partner yn darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth a dim goddefgarwch i Fyrddau a phob grŵp o staff ar ddeall a herio hiliaeth yn barhaus. | Mae Rhentu Doeth Cymru, mewn partneriaeth â Tai Pawb, bellach wedi cwblhau deunyddiau hyfforddi sydd wedi'u teilwra ar gyfer y sector rhentu preifat, a chawsant eu cyhoeddi ar borth hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae'r tudalennau cymorth i denantiaid ar wefan Rhentu Doeth Cymru bellach yn cynnwys dolenni i wefannau Tai Pawb a Llinell Gymorth Pobl Ddu, Asiaidd c Ethnig Leiafrifol Cymru.<br><br>Mae hyfforddiant gwrth-hiliaeth Tai Pawb wedi cael ei ddiweddaru, a chaiff ei gynnig i sefydliadau yn ystod y flwyddyn nesaf. |
| Diwygio'r safonau rheoleiddiol presennol er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau a osodir ar Gymdeithasau Tai mewn perthynas â chynrychiolaeth ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gynnwys gwrth-hiliaeth, yn glir. | Mae'r safonau rheoleiddiol ar gyfer cymdeithasau tai wedi cael eu diwygio. O dan Safon Reoleiddiol 1: Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion. Y disgwyliadau yw bod y landlord cymdeithasol yn gosod ac yn cyflawni ymrwymiadau mesuradwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob un o'i feysydd busnes mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael â throseddau casineb) gan adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'n gweithio gyda nhw. Anogir cymdeithasai tai i sicrhau bod eu byrddau'n amrywiol, gan adlewyrchu'r cymunedau y mae'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn gweithio gyda nhw ac ynddynt, a bod ganddynt y sgiliau a'r ybodaeth sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r safon. Mae hyn yn cael ei fonitro. |
| Sicrhau bod Byrddau a grwpiau cynghori Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai, yn adlewyrchu llais pobl ethnig leiafrifol ac yn eu cynrychioli wrth drawsnewid gwasanaethau digartrefedd. | Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd wedi llwyddo i recriwtio aelodau annibynnol o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Cafodd yr hysbyseb ar gyfer mynegi diddordeb yn rôl Cadeirydd y Bwrdd ei rhannu â sefydliadau cydraddoldeb, megis Anabledd Cymru, Stonewall Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru i annog casgliad mwy amrywiol o ymgeiswyr. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Sicrhau bod safonau, darpariaeth a gwasanaethau mewn perthynas â darparu cartrefi yn hyrwyddo cydraddoldeb hil, yn ymgorffori arferion gwrth-hiliaeth, cydraddoldeb a hawliau dynol, ac yn diwallu anghenion amrywiol pobl ethnig leiafrifol.** | |
| Gweithio gyda sefydliadau a arweinir gan bobl ethnig leiafrifol, Tai Pawb, y Sefydliad Siartredig Tai, TPAS Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymorth Cymru a CLlLC er mwyn gwneud y canlynol:<br>• darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth a chymhwysedd diwylliannol parhaus i'r gweithlu sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i denantiaid a chwsmeriaid (ac fel rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus)<br>• adolygu canllawiau ar gyfer y sefydliadau uchod i helpu staff a thenantiaid i ddeall sut i roi gwybod am hiliaeth a throseddau casineb, a rhoi cymorth i'r rhai sy'n rhoi gwybod am achosion o'r fath (gan sicrhau'n rhagweithiol fod tenantiaid yn ymwybodol o'u hawliau a'r cymorth sydd ar gael)<br>• sicrhau bod pob landlord yn dangos ei fod yn ymateb yn gyflym i gwynion am hiliaeth, aflonyddu a throseddau casineb ac yn cynnig cymorth priodol. | **Rhoddwyd cyllid ychwanegol gwerth £70k** i Tai Pawb dros 18 mis i benodi Rheolwr Gwrth-hiliaeth. Dechreuodd deiliad y swydd yn y rôl ym mis Ionawr 2023 ac mae rhaglen waith wedi cael ei chadarnhau. Mae Tai Pawb wedi penodi rheolwr prosiect i arwain ar brosiect rhoi gwybod am droseddau casineb yng Ngwent. Consortiwm o sefydliadau a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr yw'r prosiect.<br>Mae hyfforddiant gwrth-hiliaeth Tai Pawb wedi cael ei ddiweddaru, a chaiff ei gynnig i sefydliadau yn ystod y flwyddyn nesaf. |
| Gan adeiladu ar yr adolygiad o lenyddiaeth a gynhaliwyd ar dai gorlawn ymhlith pobl a chymunedau ethnig lleiafrifol, gwneud rhagor o waith ymchwil a/neu ddadansoddi er mwyn deall yn well y cysylltiad rhwng tai gorlawn a'r risg uwch o ddal COVID-19 ymhlith pobl ethnig leiafrifol. | Ym mhob rhan o'r **rhaglen ymchwil Tai ac Adfywio,** mae gwaith yn mynd rhagddo a fydd yn helpu i ddeall amrywiol effeithiau ymyriadau ar bobl a chymunedau ethnig leiafrifol yn ogystal â gwella ein dealltwriaeth o'r gwahanol broblemau sy'n wynebu pobl a chymunedau ethnig leiafrifol mewn agweddau ar faes tai y tu hwnt i orlenwi. Lle y caiff bylchau ac anghenion o ran gwaith ymchwil eu darganfod o'r prosiectau hyn a'r broses datblygu polisïau mewn perthynas â gorlenwi, cânt eu hintegreiddio yn y rhaglen ymchwil. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Gweithio gyda sefydliadau a arweinir gan bobl ethnig leiafrifol, awdurdodau lleol, Cymdeithasau Tai, Shelter Cymru a Cyngor ar Bopeth Cymru i ddangos bod anghenion gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth pobl ethnig leiafrifol yn cael eu diwallu mewn perthynas â'r gallu i gael cartrefi priodol, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr, menywod ethnig lleiafrifol a cheiswyr lloches a ffoaduriaid. | Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd **wedi llwyddo i recriwtio aelodau annibynnol o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol**. Cafodd yr hysbyseb ar gyfer mynegi diddordeb yn rôl Cadeirydd y Bwrdd ei rhannu â sefydliadau cydraddoldeb, megis Anabledd Cymru, Stonewall Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru i annog casgliad mwy amrywiol o ymgeiswyr.<br><br>Cafodd ymgyrch recriwtio'r gweithlu er mwyn annog amrywiaeth eang o bobl i ymuno â'r sector cymorth digartrefedd a thai ei lansio ym mis Chwefror 2023. Er y daw canlyniad yr ymgyrch hon i'r amlwg yn fwy cyflawn dros amser, mae'n werth nodi ar hyn o bryd mai nifer defnyddwyr y safle swyddi ym mis Mawrth 2023 oedd 19,101 o gymharu â 574 cyn yr ymgyrch. Mae'r adborth cychwynnol wedi dangos cynnydd yn amrywiaeth, nifer ac ansawdd yr ymgeiswyr. |
| Datblygu canllawiau newydd ar gyfer Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol ar y cyd ag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, i gynnwys:<br>• dadansoddiad o anghenion tai grwpiau allweddol (pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl, pobl ddigartref, pobl hŷn, y rhai â chyflyrau iechyd meddwl, menywod ethnig lleiafrifol, ac ati) ym mhob awdurdod lleol er mwyn deall:<br>- argaeledd tai priodol<br>- yr angen a amcangyfrifir yn y dyfodol<br>- beth yw'r diffygion ar gyfer pob grŵp allweddol<br>• Llywodraeth Cymru i roi hyfforddiant a chymorth parhaus i bob awdurdod lleol. | Asesiad o'r farchnad dai leol (LHMA): canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol \| LLYW.CYMRU.<br><br>Canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd yn 2022. Bydd angen i'r Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol sy'n cael eu paratoi gan awdurdodau lleol gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2024. Bydd yr adolygiad o'r asesiadau yn dangos a yw'r awdurdodau lleol wedi dilyn y canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022. Daw'r effeithiau ar ddarparu gwasanaethau i'r amlwg pan gaiff yr Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol eu rhoi ar waith o fis Mawrth 2024 ymlaen.<br><br>Mae'r canllawiau'n atgoffa awdurdodau lleol i ystyried Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, gan gynnwys yr angen i gynnwys pobl, casglu data a chynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. |
| Sicrhau bod pob Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, a'i asesiad o anghenion pobl ethnig leiafrifol a grwpiau allweddol eraill, yn llywio'r prosbectws fel rhan o waith monitro'r rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol. | Asesiad o'r farchnad dai leol (LHMA): canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol \| LLYW.CYMRU.<br><br>Bydd yr Asesiadau sy'n cael eu datblygu yn llywio ceisiadau prosbectws am Grantiau Tai Cymdeithasol yn y dyfodol. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Sicrhau yr eir i'r afael yn benodol â'r rhwystrau a wynebir gan yr amrywiaeth lawn o bobl ethnig leiafrifol er mwyn sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau digartrefedd a chartrefi.<br><br>Bydd hyn yn cynnwys:<br><br>• sicrhau bod cydraddoldeb hil yn rhan annatod a phenodol o'r broses o drawsnewid gwasanaethau digartrefedd (gan gynnwys ystyried angen blaenoriaethol a dyraniadau yn y dyfodol) a sicrhau bod llwyddiant i ddiwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol yn rhan o'r gwaith o werthuso'r broses drawsnewid<br>• sicrhau bod y fframwaith polisi a deddfwriaethol yn cefnogi'r broses o gomisiynu gwasanaethau cymorth tai a llety sy'n ystyried agweddau diwylliannol, er mwyn diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol amrywiol<br>• sicrhau bod holl ganllawiau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chartrefi i awdurdodau lleol, fel Ailgartrefu Cyflym neu'r Cod Canllawiau ar Ddyraniadau, yn ystyried yr amrywiaeth lawn o bobl ethnig leiafrifol. | Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd **wedi llwyddo i recriwtio aelodau annibynnol o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol**. Cafodd yr hysbyseb ar gyfer mynegi diddordeb yn rôl Cadeirydd y Bwrdd ei rhannu â sefydliadau cydraddoldeb, megis Anabledd Cymru, Stonewall Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru i annog casgliad mwy amrywiol o ymgeiswyr.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiadau effaith integredig ar ei pholisïau a'i harferion. Caiff yr effaith ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ei hystyried fel rhan o'r broses hon.<br><br>Mae dull sy'n canolbwyntio ar unigolion wedi cael ei nodi fel un o'r chwe chanlyniad strategol yn y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd er mwyn sicrhau na fydd pobl â nodweddion gwarchodedig yn wynebu mwy o risg o fod yn ddigartref. Mae cydraddoldeb, gwrth-wahaniaethu a hawliau dynol yn sail i'n Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, sy'n cydnabod y rhwystrau o ran anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac ymyleiddio y mae grwpiau penodol yn llawer mwy tebygol o'u hwynebu. |
| Dros y pum mlynedd nesaf: Sicrhau y caiff anghenion pob unigolyn ethnig lleiafrifol eu cynnwys yn yr adolygiadau o ddarparu cartrefi/deddfwriaeth a pholisïau sy'n gysylltiedig â thai yn ystod tymor y Senedd nesaf, gan gynnwys mewn perthynas â digartrefedd a dyraniadau. | Mae grwpiau sy'n cynrychioli pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi cyfrannu at y Papur Gwyrdd ar Dai Digonol a Rhenti Teg a gyhoeddwyd er mwyn ymgynghori arno ar 6 Mehefin 2023. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Datblygu Cynllun Gweithredu i'r Sector Rhentu Preifat er mwyn gwella cydraddoldeb yn y sector, y bydd gwrth-hiliaeth yn rhan greiddiol ohono.<br><br>Dylid cynnwys y canlynol:<br><br>• gwaith ymchwil pellach ar gyffredinrwydd hiliaeth a gwahaniaethu, gan ystyried croestoriadedd ac anfantais economaidd gymdeithasol yn y sector rhentu preifat a phennu opsiynau i fynd i'r afael â hyn<br>• adolygu ac ymchwilio i'r sylfaen dystiolaeth o'r cymorth a roddir i denantiaid ethnig lleiafrifol gael tenantiaethau yn y sector rhentu preifat a'u cadw<br>• gwaith ymchwil pellach ar nifer y tai gorlawn yn y sector rhentu preifat, a sut y gellid cryfhau gallu awdurdodau lleol i orfodi safonau yn y sector rhentu preifat<br>• atgyfnerthu'r cymorth i'r rhai ar incymau is i gael tenantiaethau fforddiadwy a thymor hwy<br>• gweithio gyda Rhentu Doeth Cymru i ddatblygu hyfforddiant gwrth-hiliaeth a throseddau casineb i landlordiaid ac asiantiaid. Rhoi gwybodaeth i denantiaid i'w hannog i roi gwybod am hiliaeth a throseddau casineb yn y sector rhentu preifat<br>• gwella cyfathrebu ac ymgysylltu â thenantiaid ethnig lleiafrifol yn y sector rhentu preifat er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawliau a sut i'w gorfodi, a bod ganddynt yr hyder i wneud hynny. | Yn ystod 12 mis cyntaf y cynllun, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar weithio gyda Rhentu Doeth Cymru ynghyd â Tai Pawb i gwblhau deunyddiau hyfforddi sydd wedi'u teilwra ar gyfer y sector rhentu preifat. Cafodd y deunyddiau a'r canllawiau eu cyhoeddi ar borth hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae'r tudalennau cymorth i denantiaid ar wefan Rhentu Doeth Cymru bellach yn cynnwys dolenni i wefannau Tai Pawb a Llinell Gymorth Lleiafrifoedd Ethnig Cymru.<br><br>Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael er mwyn helpu tenantiaid ethnig leiafrifol i gadw tenantiaethau, gwella prosesau casglu data a gwella lefelau ymgysylltu â thenantiaid. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
| --- | --- |
| Sicrhau bod deunyddiau ac ymgyrchoedd cyfathrebu Cyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru yn apelgar i bobl ethnig leiafrifol yn y ffordd y cânt eu dylunio a'u cyflwyno, a sicrhau y caiff sefydliadau a arweinir gan bobl ethnig leiafrifol a phobl ethnig leiafrifol eu cynnwys mewn gwaith datblygu, monitro a gwerthuso. | Mae cymeradwyaeth wedi cael ei sicrhau ar gyfer penodi Pennaeth Cyfathrebu ar gyfer Tai ac Adfywio yn benodol. Mae grid rhagolwg cyfathrebu wedi cael ei sefydlu er mwyn helpu i nodi digwyddiadau a gweithgareddau cyfathrebu i'w teilwra yn unol ag anghenion cynulleidfaoedd yn well. |
| Rhaid sicrhau bod gan denantiaid ethnig lleiafrifol sianeli i leisio pryderon, herio a dylanwadu ar bolisi Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru drwy wneud y canlynol:<br>• gweithio gyda sefydliadau a arweinir gan bobl ethnig leiafrifol a phartneriaid, gan gynnwys Tai Pawb, Cymorth Cymru, y Sefydliad Siartredig Tai, Cartrefi Cymunedol Cymru a TPAS Cymru<br>• gweithio gyda sefydliadau a arweinir gan bobl ethnig leiafrifol a phartneriaid, gan gynnwys Tai Pawb, Cymorth Cymru, y Sefydliad Siartredig Tai, Cartrefi Cymunedol Cymru a TPAS Cymru i ddatblygu arferion cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol mewn perthynas â Chydraddoldeb<br>• amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gynnwys gwrth-hiliaeth. | Cyhoeddodd gwasanaeth **TPAS Cymru** ei arolwg tenantiaid blynyddol ym mis Ionawr. Roedd 4% o'r ymatebwyr mewn tai preifat a 2% o'r ymatebwyr mewn tai cymdeithasol yn ystyried eu hunain yn bobl o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol. Mae'r boblogaeth genedlaethol yn cynnwys 5.1% o bobl sy'n ystyried eu hunain yn bobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br>Mae TPAS Cymru yn cydnabod bod angen ymdrechion pellach i ymgysylltu â phobl sy'n ystyried eu hunain yn bobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol er mwyn sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu cynrychioli mewn arolygon blynyddol yn y dyfodol. Roedd gan rentwyr preifat a oedd yn ystyried eu hunain yn bobl o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol ddyheadau tebyg o ran bod yn berchen ar dai â'r ymatebwyr ehangach ond roeddent yn llawer llai bodlon ar yr amodau rhentu presennol. Ym maes tai cymdeithasol, roedd pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn bobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o fod mewn gwaith (46% o gymharu â 27%), ac roedd canran lawer llai mewn llety ymddeol (9% o gymharu â 32%).<br>Mae swyddogion wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried sut y gellir gwella **cyfranogiad cynhwysol tenantiaid** â Llywodraeth Cymru a'u landlordiaid/asiantiaid (ym mha sector bynnag). Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp gorchwyl a gorffen ar 28 Mawrth 2023 ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo. |
| Meithrin dealltwriaeth well o gyfranogiad tenantiaid a chwalu'r rhwystrau i hynny, a sicrhau mwy o gysondeb o ran atebolrwydd am wasanaethau tenantiaid mewn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai; gweithio gyda sefydliadau a arweinir gan bobl ethnig leiafrifol; CLlLC, Cartrefi Cymunedol Cymru, y Sefydliad Siartredig Tai a TPAS Cymru, i sicrhau bod landlordiaid yn casglu ac yn cyhoeddi data ar gyfranogiad tenantiaid ethnig lleiafrifol. | **Rhoddwyd cyllid ychwanegol gwerth £70k** i Tai Pawb dros 18 mis i benodi Rheolwr Gwrth-hiliaeth. Dechreuodd deiliad y swydd yn y rôl ym mis Ionawr 2023 ac mae rhaglen waith wedi cael ei chadarnhau. Mae'r cynllun gwaith wedi cynnwys cymorth ac arweiniad ychwanegol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar gyfer cynnal asesiadau effaith. Mae arolwg o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi cael ei gynnal, a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Awst 2023 |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Yn ystod y cam gwerthuso/datblygu polisi, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau a arweinir gan bobl ethnig leiafrifol; Tai Pawb, y Sefydliad Siartredig Tai, Cartrefi Cymunedol Cymru, TPAS Cymru, CLlLC a phobl ethnig leiafrifol i ddeall sut y gall potensial Rheoleiddio ar sail Maes (h.y. rheoleiddio awdurdodau lleol yn ogystal â chymdeithasau tai mewn perthynas â gwasanaethau landlordiaid) effeithio ar ganlyniadau i bobl a chymunedau ethnig lleiafrifol. | Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, gan gynnwys yr angen i gynnwys pobl, casglu data a chynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.<br><br>Er enghraifft, gwnaeth Tai Pawb gofnodi mewnbwn i 117 o gwestiynau polisi ac ymateb i bedwar ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022/23. |
| Sefydlu Grŵp i barhau i oruchwylio'r broses o roi'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith yn y Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio, gan gynnwys strwythurau ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arferion effeithiol. | Sefydlwyd grŵp cyfeirio tai ac adfywio allanol ym mis Mawrth 2023. Mae wedi cyfarfod ddwywaith. Mae is-weithgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a gaiff ei gadeirio gan Tai Pawb wedi cael ei sefydlu hefyd. |

| Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: |
|---|
| Y raddfa y mae angen cyflawni arni dros gyfnod cymharol fyr mewn cyd-destun o bwysau ar adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner. |

## Llety Sipsiwn a Theithwyr

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Cydnabod bod angen llety diogel diwylliannol briodol er mwyn i unigolion ffynnu mewn rhannau eraill o'u bywydau ac er mwyn ymdrin â'r prinder safleoedd a'r llety o ansawdd gwael sydd ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.** | |
| | Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu cadernid Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru er mwyn gweld a ydynt yn diwallu anghenion safleoedd ym mhob rhan o'r wlad ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chymunedau Sipsiwn a Theithwyr i bennu graddfa'r gofynion a deall y rhwystrau sy'n atal cynnydd.<br><br>Fel rhan o hyn, mae swyddogion wedi ymweld â safleoedd ledled Cymru dros y chwe mis diwethaf er mwyn deall yr heriau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau cynllunio a datblygu safleoedd. Mae hyn wedi cynnwys ymweliadau â safleoedd preifat a safleoedd awdurdodau lleol er mwyn deall y rhwystrau a wynebir a chyfleoedd i ddatblygu a gwella safleoedd.<br><br>Bydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol i rannu canlyniad yr asesiadau hynny. Cyfarfu'r Gweinidog â CLlLC ag arweinwyr cabinet priod gynghorau dros gydraddoldeb er mwyn helpu i ddeall yr heriau hynny sy'n dal i fodoli, a sicrhaodd gytundeb i gydweithio ledled Cymru er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol o safleoedd yn flaenoriaeth ar gyfer safleoedd parhaol a safleoedd dros dro.<br><br>Pan fydd y gwaith asesu wedi'i gwblhau, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag awdurdodau lleol ar lefel ranbarthol, a hefyd ar sail ddwyochrog, i adolygu bylchau mewn darpariaeth ac ymatebion awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r camau y bydd angen eu cymryd i oresgyn unrhyw rwystrau sy'n parhau, a cheisio cadarnhad o'u hymrwymiad i sicrhau darpariaeth ddigonol o safleoedd parhaol a safleoedd dros dro ledled Cymru er mwyn diwallu anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn unol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Bydd hyn yn gyfle pwysig i'w trafod gyda Llywodraeth Cymru fel adnodd pwysig ar gyfer bwrw ymlaen â gwaith i wella safleoedd a chreu rhai newydd. |

| Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: |
|---|
| Mae'r tîm polisi sy'n gyfrifol am hyn wedi wynebu bylchau staffio sylweddol iawn. Rydym yn blaenoriaethu gweithio i atgyfnerthu'r tîm fel bod modd ymgysylltu'n helaeth â phobl a chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a chydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni ein hymrwymiadau a rennir. |

## 2.7. Llywodraeth Leol

Mae cyflawniadau pwysig wedi cael eu sicrhau tuag at gyflawni nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol er mwyn hyrwyddo cynwysoldeb a chynrychiolaeth mewn llywodraeth leol. Un cyflawniad sy'n werth sylw yw'r gwaith parhaus i ehangu'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig. Mae gwerthusiad wedi cael ei gwblhau ac mae tystiolaeth wedi cael ei chasglu o nifer o ddarnau o waith ymchwil a gweithdai gyda rhanddeiliaid. Mae hyn bellach yn cael ei ddwyn ynghyd.

Mae proses ymgynghori wedi cael ei chwblhau er mwyn cynnig newidiadau i'r fframwaith moesegol, gyda ffocws ar atgyfnerthu'r Cod Ymddygiad drwy ei gysoni â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ystyried sut i wella ymddiriedaeth yn y system a sicrhau y rhoddir sylw i bob cwyn, p'un a fydd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymchwilio iddi ai peidio, ac y caiff camau gweithredu eu cymryd mewn ymateb iddi.

Mae ymdrechion i wella gwybodaeth a lefelau ymgysylltu mewn perthynas â chofrestru a phleidleisio yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol. O ganlyniad i roi'r hawl i bleidleisio i bobl ifanc 16 a 17 oed a dinasyddion tramor cymwys, mae cwmpas cyfranogiad democrataidd wedi ehangu. Mae deunyddiau gwybodaeth i bleidleiswyr helaeth wedi cael eu datblygu, gan gynnwys adnoddau penodol i ysgolion. Mae cyllid wedi cael ei ddarparu ar gyfer gwaith allgymorth wedi'i dargedu a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gymryd rhan mewn etholiadau.

Mae'r cyflawniadau hyn yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid i greu llywodraeth leol fwy cynhwysol a chynrychiadol.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Llywodraeth Leol** | |
| **Nod: Sicrhau bod deddfwriaeth a chanllawiau yn herio llywodraeth leol i gynrychioli'n well y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, ac i ymgysylltu'n llawn â nhw.** | |
| Ehangu'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2027. | Mae'r cam gweithredu hwn yn gyson ag ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r gronfa i bobl â nodweddion gwarchodedig y tu hwnt i anabledd. Mae fersiwn beilot y gronfa (a oedd yn anelu at ddarparu cyllid ar gyfer pobl ag anableddau a oedd am sefyll am swyddi etholedig) bellach wedi cau. Yn etholiadau'r Senedd ac mewn etholiadau llywodraeth leol, cafwyd 20 o geisiadau, ac 17 o ddyfarniadau. Rhoddwyd cymorth i 14 o ymgeiswyr, a chafodd chwe Chynghorydd Cymuned a Thref eu hethol.<br><br>Mae'r gronfa beilot wedi cael ei hadolygu a'i gwerthuso'n ffurfiol. Rydym hefyd wedi comisiynu a chael amrywiaeth o waith ymchwil er mwyn helpu i ddatblygu'r polisi i ehangu'r Gronfa. I ategu'r dystiolaeth hon, gwnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau gweithdy (ym mis Rhagfyr 2022), a digwyddiad rhithwir dilynol yng nghanol mis Ionawr eleni (2023), i ystyried y rhwystrau sy'n atal pobl â nodweddion gwarchodedig rhag sefyll am swyddi etholedig. Rydym hefyd wedi ystyried safbwyntiau fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Ddiwygio Etholiadol ac rydym wedi cynnwys darpariaethau yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a gyflwynwyd yn ddiweddar.<br><br>Y prif feysydd rydym yn mynd i'r afael â nhw yw rhoi cymorth i grwpiau ac unigolion yn gynharach yn y broses etholiadol ac ymestyn y gwaith i fynd i'r afael â rhwystrau y tu hwnt i'r rhai sy'n rhoi cymorth ariannol yn unig. Er enghraifft, cymorth ar gyfer gwydnwch personol. |
| Adolygu fframwaith moesegol llywodraeth leol a rhoi newidiadau ar waith. | Rydym wedi ymgynghori ar gynigion ar gyfer newidiadau i'r fframwaith moesegol ar gyfer llywodraeth leol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cynigion i atgyfnerthu'r ffocws yn y Cod Ymddygiad ar ymddygiadau priodol a chydraddoldebau drwy gysoni diffiniadau yn y od â'r Ddeddf Cydraddoldeb (mae'r Cod presennol yn dyddio'n ôl i 2001). Mae'r ymgynghoriad yn ystyried sut i wella ymddiriedaeth yn y system drwy sicrhau y caiff camau eu cymryd ynghylch pob cwyn, a bod hynny'n weladwy, p'un a fydd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymchwilio iddi ai peidio. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Cyhoeddi canllawiau ar gynhwysiant a chyfranogiad mewn llywodraeth leol. | Gwnaethom ymgynghori y llynedd ar ganllawiau i'w cyhoeddi o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mewn perthynas â'r strategaethau cyfranogiad y cyhoedd a'r cynlluniau deisebau sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf. Mae'r canllawiau hyn bellach wedi cael eu cwblhau a'u cyhoeddi. Yn y canllawiau, gwnaethom gynnwys ffocws ar sicrhau y caiff pobl o gefndiroedd amrywiol eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn llywodraeth leol, boed hynny drwy gymryd rhan mewn gwaith craffu neu ddylunio a chydgynhyrchu gwasanaethau. |
| Cyhoeddi cynlluniau i wella gwybodaeth ac ymgysylltu mewn perthynas â chofrestru a phleidleisio. | Rydym wedi rhoi'r hawl i bleidleisio i bobl ifanc 16 a 17 oed a dinasyddion tramor cymwys – fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom ddatblygu gwybodaeth helaeth i bleidleiswyr, gan gynnwys gwybodaeth i ysgolion a lleoliadau eraill, ac ariannu sefydliadau yn y trydydd sector – gan gynnwys Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru.<br><br>Byddwn yn adeiladu ar hyn ar Gam 2, gyda rhagor o waith a fydd yn targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau rhanddeiliaid i gyrraedd grwpiau a fydd wedi'u tangofrestru i bleidleisio mewn etholiadau fel arfer. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys ariannu awdurdodau lleol i recriwtio swyddog cofrestru penodedig er mwyn cynyddu'r gallu i wneud gwaith allgymorth wedi'i dargedu gyda grwpiau cymunedol, a helpu sefydliadau sy'n gweithredu fel cyfryngwyr dibynadwy er mwyn helpu i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gymryd rhan mewn etholiadau.<br><br>Er y bydd y ffocws ar gofrestru yn parhau, rydym hefyd yn gweithio gyda sefydliadau rhwng cylchoedd etholiadol i sicrhau y bydd y sgwrs am gyfranogi yn parhau. Rydym wedi darparu £300,000 ar gyfer 2023/24 a 2024/25 drwy ein Grant Ymgysylltu â Democratiaeth er mwyn gwella lefelau ymgysylltu â democratiaeth. Gan adeiladu ar y gwaith gwych a wnaed gan sefydliadau ledled Cymru i gynyddu cyfraddau cofrestru ymhlith y grwpiau sydd newydd gael yr hawl i bleidleisio, bydd y grant hwn yn helpu prosiectau i ymgysylltu â'r boblogaeth a hyrwyddo cyfranogiad mewn democratiaeth dros gyfnod hwy, estynedig.<br><br>Mae'r cyllid hwn wedi'i fwriadu ar gyfer y trydydd sector, sefydliadau nid-er-elw ac awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gallu dangos yr angen am gyllid i fynd ar drywydd dull arloesol o ennyn pobl heb gynrychiolaeth ddigonol, pobl sydd newydd gael yr hawl i bleidleisio, a phobl anabl i ymwneud â democratiaeth. |
| **Nod: Sicrhau bod llywodraeth leol yn gyflogwr sy'n dangos esiampl a bod pob polisi cyflogaeth ac adnoddau dynol yn wrth-hiliol er mwyn creu amgylchedd diogel a chynhwysol i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.** | |
| Defnyddio cyllid gwella a ddyrennir i lywodraeth leol i ysgogi arferion gorau mewn polisïau cyflogaeth fel rhan o drefniadau llywodraethu a pherfformiad da. | Rhoddir cyllid i CLlLC er mwyn cefnogi gwelliannau mewn prif gynghorau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y caiff cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hystyried fel rhan annatod o brosesau corfforaethol.<br><br>Ymhlith y gweithgareddau mae sesiynau sefydlu i gynghorwyr newydd, datblygu'r gweithlu ac atgyfnerthu lefelau ymgysylltu â chyfranogi yn y gymuned.<br><br>Rydym yn gweithio gyda CLlLC i sicrhau ei bod yn cefnogi'r camau a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

Un o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r fframwaith moesegol yw sicrhau y caiff safbwyntiau pawb eu hystyried yn dilyn y mathau amrywiol o gydgynhyrchu ac ymgynghori pan fydd amrywiaeth eang o safbwyntiau.

## 2.8. Cyflogadwyedd a Sgiliau, gan gynnwys Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg ac Entrepreneuriaeth

### Cyflogadwyedd a Sgiliau

Mae rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud tuag at gyflawni'r nod o wella gwybodaeth a data perfformiad ynglŷn â chyfranogiad pobl ethnig leiafrifol mewn rhaglenni Sgiliau a Chyflogadwyedd. Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi cael ei gomisiynu i ddatblygu Fframwaith Dysgu fel Teulu wedi'i greu ar y cyd, a fydd yn gwella rhagolygon cyflogadwyedd i blant ac oedolion gan fagu hyder oedolion i ymgymryd â dysgu pellach ar yr un pryd. Hefyd, mae adolygiadau o raglen Cymru'n Gweithio a Twf Swyddi Cymru+ yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, ac mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r ffordd y caiff data cyfranogwyr eu casglu er mwyn cofnodi ethnigrwydd yn well, gan gynnwys cofnodi cenedligrwydd ffoaduriaid a mudwyr dan orfod.

Mae gwaith cynllunio hefyd yn mynd rhagddo i gydlunio ac adolygu rhaglenni cyflogadwyedd o dan ambarél y Warant i Bobl Ifanc, gyda ffocws ar ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi cael profiad o hiliaeth. Hefyd, mae hyfforddiant wedi cael ei roi i ddarparwyr rhaglenni, ac mae mentrau codi ymwybyddiaeth wedi cael eu cynnal ar gyfer dysgwyr i gefnogi ymdrechion gwrth-hiliol.

Mae heriau wedi cael eu hwynebu wrth geisio cydgysylltu hyfforddiant ar gyfer darparwyr rhaglenni oherwydd galw uchel a phrinder capasiti cyflenwyr. Mae dulliau amgen o oresgyn hyn yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Cyflogadwyedd a Sgiliau** | |
| **Nod: Gwell gwybodaeth a data perfformiad ar gyfranogiad grwpiau ethnig lleiafrifol yn rhaglenni Sgiliau a Chyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.** | |
| Adolygu a gwerthuso'r data a gasglwn ar unigolion ethnig lleiafrifol sy'n cymryd rhan mewn Rhaglenni Cyflogadwyedd.<br><br>Dadansoddi pwy sy'n cymryd rhan a'u canlyniadau o ran gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn ein hadroddiadau ystadegol, gan ddatblygu data wedi'u dadgrynhoi yn ôl gwahanol grwpiau ethnig lleiafrifol a rhyw.<br><br>Adolygu data'n barhaus, gan edrych ar ein rhaglenni cyflogadwyedd, gan gynnwys Cymru'n Gweithio, ReAct+, a Twf Swyddi Cymru+, o safbwynt gwrth-hiliaeth. | • Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i arwain y gwaith o ddatblygu Fframwaith Dysgu fel Teulu wedi'i greu ar y cyd yng Nghymru. Bydd y Fframwaith yn adeiladu ar fanteision ehangach dull anffurfiol Dysgu fel Teulu o wella rhagolygon cyflogadwyedd i blant ac oedolion, magu hyder oedolion i symud ymlaen i ddysgu pellach, rhannu arferion gorau, a chynyddu lefelau ymgysylltu â chymorth Llywodraeth Cymru. Bydd y gweithgaredd hefyd yn ychwanegu at y gwaith sy'n mynd rhagddo gydag ysgolion bro ac, yn benodol, bydd yn ceisio cefnogi'r rhai sy'n wynebu rhwystrau rhag symud ymlaen ym meysydd cyflogaeth a dysgu oherwydd eu cefndir ethnig lleiafrifol.<br><br>• Mae'r adolygiadau o raglen Cymru'n Gweithio a Thwf Swyddi Cymru+ yn mynd rhagddynt. Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r ffordd y caiff data ar gyfranogwyr Cymru'n Gweithio eu casglu er mwyn gwella'r ffordd y caiff ethnigrwydd ei gofnodi, ac mae hyn bellach yn cynnwys cofnodi cenedligrwydd ffoaduriaid a mudwyr dan orfod. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Bydd rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn cynnig amgylchedd diogel, cadarnhaol a chynhwysol i bob aelod o staff a phawb sy'n cymryd rhan, lle yr eir i'r afael â hiliaeth.** | |
| | • Yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o adolygiad mewnol anffurfiol blaenorol o raglenni, mae gwaith cynllunio'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i gydlunio ac adolygu rhaglenni cyflogadwyedd o dan ambarél y Warant i Bobl Ifanc. Bydd hyn yn cyd-fynd â gwaith parhaus y Sgwrs Genedlaethol ar y Warant i Bobl Ifanc. Bydd y dull hwn yn canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed a bydd yn ymgysylltu â chyfranogwyr/darpar gyfranogwyr sydd â phrofiad bywyd o hiliaeth. Bydd yr adolygiad yn llywio ac yn ffurfio'r ffordd y caiff rhaglenni eu cynnal yn y dyfodol yn uniongyrchol, ochr yn ochr â'r argymhellion a gaiff eu gwneud gan bobl ifanc drwy'r sgwrs genedlaethol ehangach.<br>• Ymhlith y camau cadarnhaol sydd wedi cael eu cymryd i gefnogi gwrth-hiliaeth mae rhaglen o hyfforddiant i ddarparwyr rhaglenni a chodi ymwybyddiaeth dysgwyr. |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

Rydym wedi wynebu her benodol wrth geisio cynllunio a sicrhau adnoddau priodol i gynnal rhaglen gydgysylltiedig o hyfforddiant i ddarparwyr rhaglenni oherwydd nifer y ceisiadau tebyg a wneir ym mhob rhan o'r sefydliad, ac am fod capasiti sefydliadau cyflenwi sydd â sgiliau priodol yn gyfyngedig. Mae dulliau amgen (cydgysylltiedig) o helpu i gyflawni'r canlyniad yn cael eu hystyried a'u harchwilio ar hyn o bryd.

## Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg

Mae gwaith paratoi yn mynd rhagddo i sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, gan gynnwys mynd ati i ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y broses enwebu yn hyrwyddo amrywiaeth. Hefyd, mae TUC Cymru wedi ymgynghori â'i hetholwyr er mwyn sicrhau amrywiaeth a chynhwysiant yn eu henwebiadau. Yn y cyfamser, mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn gwneud cynnydd o ran ei ffrwd waith cydraddoldeb ac mae'n bwriadu cynnal cyfarfod briffio technegol ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar gyfer partneriaid cymdeithasol. Yn dilyn y cyfarfod briffio, bydd yr ymdrechion yn canolbwyntio ar y ffordd y gall partneriaid cymdeithasol helpu i roi'r camau gweithredu a amlinellir yn y cynlluniau ar waith.

Ymhlith yr ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cyflog mae gweithio gyda Cynnal Cymru i gynyddu cyfraddau mabwysiadu'r cyflog byw gwirioneddol.
Mae ymrwymiad wedi cael ei wneud i ddileu'r bwlch cyflog ar sail rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd erbyn 2050. Mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda chyflogwyr ac undebau hefyd wedi gwneud cyfraniad hanfodol at hyrwyddo newid a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arferion gwrth-hiliol.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg** | |
| **Nod: Codi ymwybyddiaeth o arferion, prosesau a diwylliannau yn y gweithlu sy'n wrth-hiliol, eu deall yn well a'u mabwysiadu.** | |
| Cynnwys gwrth-hiliaeth yn nhrefniadau gweithredol y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol newydd a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu yn y dyfodol a sicrhau bod gwrth-hiliaeth wedi'i hymgorffori yn eu gwaith a bod lleisiau ethnig lleiafrifol yn cael eu clywed. | • Mae gwaith paratoi yn mynd rhagddo i sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, gan gynnwys ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol ynghylch sut y gall y broses enwebu weithredu er mwyn hyrwyddo cymaint o amrywiaeth â phosibl ar y Cyngor. Cynhaliwyd archwiliad manwl o amrywiaeth ar ddiwedd 2022, a chymerodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ran ynddo. Mae TUC Cymru wedi ymgynghori â'i hetholwyr er mwyn darganfod sut y bydd ochr yr undebau llafur yn sicrhau amrywiaeth a chynhwysiant yn eu henwebiadau.<br>• Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn bwrw ymlaen â ffrwd waith ar gydraddoldebau. Mae cyfarfod briffio technegol ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a chynlluniau gweithredu eraill ar gydraddoldeb yn cael ei drefnu ar gyfer partneriaid cymdeithasol er mwyn helpu i wreiddio gwybodaeth am y cynlluniau a dealltwriaeth ohonynt. Bydd y gweithgarwch ar ôl y cyfarfod briffio yn canolbwyntio ar y ffordd y gall partneriaid cymdeithasol helpu i gyflawni'r camau gweithredu sydd yn y cynlluniau. |
| Ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol i sicrhau bod cyflogwyr ac undebau llafur yn gweithredu fel hyrwyddwyr dros newid wrth godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o arferion gwrth-hiliol a mynd i'r afael ag aflonyddu yn y gweithle. Byddwn yn cyflymu'r gweithgarwch hwn ac yn sefydlu ffyrdd o fesur cynnydd. | • **Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol er mwyn sicrhau gwaith teg ar lefel sectorau gan gynnwys drwy'r Fforwm Manwerthu a'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol:** Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i weithio ar y cyd â chyflogwyr ac undebau i fynd i'r afael â materion fel gwrth-hiliaeth yn y gweithle. Ymhlith yr enghreifftiau diweddar o ganlyniadau'r dull hwn mae: ein gwaith gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i fynd i'r afael â materion y tynnwyd sylw atynt yn ei ymchwiliad i brofiad gweithwyr ethnig leiafrifol yn y sector gofal cymdeithasol; cyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Manwerthu sy'n cynnwys camau i lunio canllawiau ar lesiant, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector, cyfeirio at yr adnoddau sydd eisoes ar gael ac astudiaethau achos arferion gorau. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Lleihau a dileu'r bwlch ethnigrwydd rhwng cyflogeion ethnig lleiafrifol a gwyn.** | |
| Cyflawni ein Carreg Filltir Genedlaethol i ddileu'r bwlch mewn cyflog yn ôl ethnigrwydd erbyn 2050. Yn y byrdymor, byddwn yn ymgorffori data ar gyflogau a chyflogaeth gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ein dulliau mesur canlyniadau gwaith teg, ac yn datblygu cynlluniau i adolygu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. | • **Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cyflog:** Gwyddom fod gweithwyr ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o fod mewn swyddi sy'n talu cyflogau is ac sy'n fwy ansicr. Felly, rydym yn gweithio'n agos gyda Cynnal Cymru, sef corff achredu'r cyflog byw gwirioneddol yng Nghymru, i gynyddu cyfraddau mabwysiadu ac achredu'r cyflog byw gwirioneddol. Mae hyn yn cynnwys camau sy'n targedu'r sector manwerthu lle y gwyddom fod nifer sylweddol o weithwyr ethnig leiafrifol yn cael cyflog isel.<br>• Hefyd, mae ein hymrwymiad i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn codi cyflogau i'r bobl sydd ar y cyflogau isaf yn y sector gofal cymdeithasol gan gynnwys gweithwyr ethnig leiafrifol sy'n llai tebygol o fod mewn rolau rheoli sy'n talu cyflogau uwch.<br>• Rydym hefyd yn ymrwymedig i gyrraedd ein carreg filltir genedlaethol o ddileu'r bwlch cyflog ar sail rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd erbyn 2050. |
| Gweithio gyda'n partneriaid cymdeithasol i fynd ati i hyrwyddo manteision gweithlu amrywiol i bawb ac amgylcheddau gwaith sy'n helpu gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i gymryd rhan, camu ymlaen yn eu gwaith a ffynnu. | • **Gwella dealltwriaeth busnesau o waith teg a'i fanteision posibl:** Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Busnes Cymru i gynnal prosiect a fydd yn codi ymwybyddiaeth o waith teg ymhlith perchnogion busnesau. Mae hyn yn cynnwys cymorth a gwybodaeth am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllaw ar waith teg ar wefan Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid fel Busnes yn y Gymuned i hyrwyddo gwrth-hiliaeth. |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

Tynnodd yr ymgynghoriad ar y cynllun drafft sylw at bryderon nad oedd y Cynllun yn rhoi digon o ffocws ar y sector preifat, nac ar gamau gweithredu a all ddylanwadu ar y sector preifat. Mae hyn yn peri her sylweddol am nad oes gennym ysgogiadau uniongyrchol yn y sector preifat yn yr un modd ag sydd gennym yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Er enghraifft, mae cyfraith cyflogaeth wedi'i chadw'n ôl gan Lywodraeth y DU ac mae hyn yn effeithio ar yr hyn y gallwn i wneud, a sut. Er gwaethaf hyn, rydym yn dal yn ymrwymedig i ddefnyddio pob ysgogiad sydd gennym i hyrwyddo gwrth-hiliaeth i'r sector preifat. Mae hyn yn cynnwys defnydd mwy effeithiol o'n prosesau grantiau a chaffael ac annog cyflogwyr i weithio mewn partneriaeth ag undebau llafur cydnabyddedig.

## Entrepreneuriaeth a Busnes Cymru

Mewn cydweithrediad â Race Equality First (REF), un cyflawniad pwysig yw datblygu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Busnes Cymru. Nod y cynllun hwn yw sicrhau bod gwasanaeth Busnes Cymru yn ymgysylltu ag unigolion o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn diwallu eu hanghenion, ac yn darparu gwasanaeth sy'n rhydd rhag rhagfarn, gwahaniaethu ac ymyleiddio. Mae'n gosod esiampl i wasanaethau eraill ei dilyn o ran gweithredu mewn ffordd wrth-hiliol, a bydd datganiad gwrth-hiliol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Busnes Cymru i gyd-fynd ag ef. Caiff camau gweithredu'r cynllun eu monitro a'u rhoi ar waith yn rheolaidd, ac mae'r hyfforddiant gwrth-hiliol a roddir i holl staff Busnes Cymru yn ystod hydref 2023 yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i feithrin gwasanaethau gwrth-hiliol ymhellach.

Mae'r ddealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen i gynnal momentwm newid diwylliant ar y raddfa hon yn cael ei chydnabod ond mae'r sector hwn yn dal yn ymrwymedig i gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Entrepreneuriaeth a Busnes Cymru** | |
| **Nod: Creu gwasanaeth Busnes Cymru sy'n wrth-hiliol ac sy'n ymgysylltu â chymunedau amrywiol mewn ffordd ddiwylliannol briodol er mwyn cynyddu nifer y cwmnïau newydd a thwf cwmnïau ymhlith pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.** | |
| Gweithio gyda chyrff cynrychioliadol ac unigolion, yn enwedig y rhai o'r gymuned fusnes ethnig leiafrifol, i ddatblygu cynllun gwrth-hiliol ar gyfer gwasanaeth Busnes Cymru. Rhoi hyfforddiant ar wrth-hiliaeth i bob aelod o staff Busnes Cymru. | Mewn cydweithrediad â Race Equality First (REF), mae Cynllun Gweithredu Busnes Cymru wedi cael ei ddatblygu.<br>• Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Busnes Cymru yn cydnabod yr angen i wasanaethau barhau i ymgysylltu ag unigolion o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a diwallu eu hanghenion, a darparu gwasanaeth lle na fydd unigolion yn wynebu rhagfarn, gwahaniaethu nac ymyleiddio.<br>• Y Cynllun hwn yw'r cam cyntaf tuag at ddarparu gwasanaeth gwrth-hiliol y bydd busnesau yng Nghymru yn rhyngweithio ag ef yn ddyddiol. Mae Busnes Cymru yn arwain y ffordd i wasanaethau eraill fabwysiadu arferion enghreifftiol o ran darparu gwasanaeth gwrth-hiliol.<br>• Bydd y Cynllun ar gael ar wefan Busnes Cymru ochr yn ochr â datganiad gwrth-hiliol a fydd yn tynnu sylw at y gwasanaeth y bydd unigolion yn ei gael. Caiff camau gweithredu o'r Cynllun eu monitro bob chwarter a chânt eu mabwysiadu gan bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir.<br>• Ar ben hynny, fel rhan o'n hymrwymiad i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, caiff hyfforddiant gwrth-hiliol ei roi i holl staff Busnes Cymru yn ystod hydref 2023. Bydd hyn yn allweddol er mwyn newid agweddau a gwneud gwasanaeth Busnes Cymru yn un gwrth-hiliol. |

| Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: |
|---|
| Yr her y bydd Busnes Cymru yn ei hwynebu dros y 12 mis nesaf fydd sicrhau bod y newid diwylliant sy'n datblygu yn cynnal momentwm ac y bydd ffocws absoliwt ar hynny wrth ddarparu gwasanaethau. |

## 2.9. Cenedl Noddfa

Yn y maes polisi hwn, mae cynnydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â phob cam gweithredu cysylltiedig yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Ymhlith y cyflawniadau allweddol mae ymestyn Gwasanaeth Noddfa Cymru, gan atgyfnerthu'r cymorth a gynigir i fudwyr dan orfod. Cyllid ar gyfer y 'Prosiect Tai i Ffoaduriaid' er mwyn helpu pobl sydd newydd gael eu cydnabod fel ffoaduriaid i gael llety 'Symud Ymlaen'. Hefyd, mae cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi arwain at gyllid parhaus i gynnal yr Hybiau ESOL lle mae'r llythyrau dyfarnu cyllid bellach ar waith tan o leiaf fis Mawrth 2025.

Mewn ymateb i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a chymunedau ethnig lleiafrifol. Gan weithio gyda sefydliadau cymunedol, mae'r grŵp yn ceisio gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a'r cymorth a roddir ganddynt. Mae rôl y grŵp, a oedd wedi'i fwriadu am 12 mis yn wreiddiol, wedi cael ei hymestyn am ddwy flynedd ychwanegol.

Er mwyn sicrhau bod gofal iechyd yn hygyrch i gymunedau sydd ag anghenion iaith y tu hwnt i Gymraeg neu Saesneg, mae adnoddau bellach ar gael mewn sawl iaith. Ymhlith yr ymdrechion diweddar mae cyfieithu deunyddiau megis Pecyn Cymorth y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ar gyfer unigolion sydd wedi bod drwy ddigwyddiadau trawmatig, yn ogystal â hyrwyddo llinell gymorth iechyd meddwl CALL mewn mwy nag 20 o ieithoedd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnal hawliau a lles pennaf plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru.

Mae heriau wedi deillio o newidiadau deddfwriaethol a newidiadau polisi gan Lywodraeth y DU, sydd wedi'i gwneud hi'n anodd ac yn gymhleth cymryd rhai camau gweithredu. Mae'r newidiadau hyn wedi arwain at fwy o galedi a dryswch.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Cenedl Noddfa** | |
| **Nod: Dod yn Genedl Noddfa drwy roi Cenedl Noddfa: Cynllun ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (2019) ar waith.** | |
| Sicrhau y gall mudwyr dan orfod sy'n byw yng Nghymru gael y gwasanaethau cyngor ac eiriolaeth sydd eu angen arnynt ac y cânt eu cefnogi i integreiddio'n effeithiol â chymunedau drwy gaffael a rheoli'r Gwasanaeth Cymorth i Geiswyr Noddfa. | • Dechreuodd contract Gwasanaeth Noddfa Cymru (Gwasanaeth Cymorth i Geiswyr Noddfa Cymru gynt) ar 1 Ebrill 2022 a disgwylir iddo barhau tan o leiaf 31 Mawrth 2025. Mewn ymateb i argyfwng Wcráin yn ystod gwanwyn 2022, gwnaethom ymestyn y gwasanaeth i gynnwys capasiti ychwanegol ac elfennau wedi'u teilwra ar gyfer carfan ychwanegol.<br>• Caiff pobl sy'n ceisio noddfa eu helpu i sicrhau gwell canlyniadau. Caiff cysylltiadau da rhwng ceiswyr noddfa a chymdeithas ehangach eu meithrin. Gall mudwyr dan orfod gael cyngor a bydd hyn yn sicrhau gwybodaeth am hawliau ac yn atal mwy o ganlyniadau niweidiol. Gall mudwyr dan orfod integreiddio â chymunedau a gall y gymuned ehangach ffynnu. |
| Rhoi ein Fframwaith Integreiddio Mudwyr i Gymru ar waith. | • Mae'r Fframwaith Integreiddio Mudwyr yn cael ei ddatblygu fel rhan o'n prosiect Lloches, Mudo ac Integreiddio o'r enw 'Integreiddio Mudwyr Cymru'. Disgwylir i'r Fframwaith gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2023 a'i wreiddio o fewn sefydliadau yng Nghymru dros y misoedd a'r blynyddoedd dilynol. Bydd y Fframwaith yn hyrwyddo ffordd gyson o gasglu a chyhoeddi data ar brofiad mudwyr o integreiddio yng Nghymru. Dylai hyn alluogi sefydliadau i fonitro anghydraddoldebau a dylunio ymyriadau mwy effeithiol er mwyn gwella integreiddio yn gyffredinol. |
| Sicrhau cynaliadwyedd Hybiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) er mwyn darparu asesiadau cyson o ansawdd uchel o rugldeer iaith a chyrsiau iaith priodol. | • Rydym wedi parhau i ddarparu cyllid er mwyn cynnal yr Hybiau ESOL ers i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gael ei gyhoeddi. Bydd llythyrau dyfarnu cyllid ar waith tan 31 Mawrth 2025 o leiaf. Bydd angen gwneud rhagor o waith gyda'r Hybiau er mwyn gweithio tuag at fodel cyllido mwy cynaliadwy yn y dyfodol.<br>• Mae prosiect peilot ar wahân yn cael ei gynnal er mwyn archwilio a allai cyrsiau ESOL dwy ar-lein fod yn ddarpariaeth ESOL effeithiol i rai buddiolwyr. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Sicrhau y caiff ffoaduriaid eu cefnogi er mwyn osgoi cyni a digartrefedd drwy barhau i ariannu prosiect llety 'Symud Ymlaen'. | • Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 'Prosiect Tai i Ffoaduriaid' Cyngor Ffoaduriaid Cymru er mwyn helpu pobl sydd newydd gael eu cydnabod fel ffoaduriaid (ceiswyr lloches gynt) i gael llety 'Symud Ymlaen' o fewn cyfnod 28 diwrnod yr hysbysiad ymadael a bennwyd gan Lywodraeth y DU.<br>• Bydd y prosiect yn sicrhau y gall ffoaduriaid ddod o hyd i lety amgen, cael cyfrifon banc a nawdd cymdeithasol/gwaith, cyn gynted â phosibl, gan osgoi tlodi a digartrefedd. |
| Diwygio hyfforddiant landlordiaid Rhentu Doeth Cymru i gynnwys esboniad o hawliau tai mudwyr (gan gynnwys sut mae hyn yn berthnasol i ffoaduriaid, y rhai na allant hawlio 'Arian Cyhoeddus', dinasyddion yr UE ac eraill), sut i wirio statws mudwyr yn hawdd er mwyn atal gwahaniaethu a sut i ymdrin â hiliaeth a throseddau casineb. | • Mae hyfforddiant i landlordiaid Rhentu Doeth Cymru bellach yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am hawliau mudwyr i gael tai er mwyn sicrhau bod landlordiaid yng Nghymru yn gwybod nad yw'r darpariaethau hyn (o dan Ddeddf Mewnfudo 2016) yn gymwys yma. |
| Rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus a chymorth i'r trydydd sector feithrin gallu yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod y rhai na allant hawlio 'Arian Cyhoeddus' yn gallu manteisio ar y gwasanaethau y mae ganddynt yr hawl iddynt, er mwyn osgoi sefyllfa lle maent yn mynd yn fwy agored i drais a chamfanteisio a sicrhau eu bod yn cael eu trin â thosturi ac y caiff canlyniadau niweidiol eu hosgoi. | • Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ar gefnogi pobl Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus. Caiff y canllawiau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyngor mor gywir â phosibl. Cafodd y canllawiau eu hategu gan hyfforddiant i gyrff cyhoeddus ar hawliau mudwyr yn ystod 2022-23. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gomisiynu hyfforddiant dilynol ar gyfer 2023-24.<br>• Rydym yn parhau i ariannu Housing Justice Cymru i gynnal prosiect 'Seeking Sanctuary', sy'n trefnu cyfleoedd i letya pobl y mae eu cais am loches wedi cael ei wrthod ond sydd â phosibilrwydd dilys o gyflwyno apêl neu gais newydd am loches. Rydym yn parhau i gynnal proses hawliadau eithriadol o fewn y Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer pobl y mae angen iddynt gael cymorth brys.<br>• Bydd awdurdodau lleol yn gweld anghenion y person cyn ei statws mewnfudo ac yn rhoi cymaint o gymorth â phosibl. Caiff awdurdodau lleol eu helpu i ddeall pa gymorth y gellir ei gynnig. Gellir rhoi lloches pan fydd unigolion yn cael cyfleoedd i unioni ei statws mewnfudo. Bydd pobl y caiff eu cais am loches ei wrthod ond sydd â sail dros herio'r penderfyniad yn cael eu helpu i wneud hynny.<br>• Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo er mwyn gweld pa gymorth ychwanegol y gellir ei roi ar waith ar gyfer y garfan hon sy'n arbennig o agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys gwaith i gefnogi mudwyr sydd wedi dioddef cam-drin domestig a helpu awdurdodau lleol i ymateb i'r her o roi cyngor arbenigol. |
| Ceisio lleihau faint o ddata a rennir rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru a'r Swyddfa Gartref i'r eithaf, er mwyn ennyn hyder ymhlith mudwyr i ofyn am ofal iechyd angenrheidiol neu gymorth hanfodol arall. | • Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu wrth inni roi'r Fframwaith Integreiddio Mudwyr ar waith yn 2024.<br>• Mae canlyniadau iechyd niweidiol, cam-drin domestig, neu gamfanteisio mudwyr gan gynnwys y rhai â statws mudo ansicr, wedi lleihau am fod llai o ofn gofyn am gymorth allweddol. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu wrth inni weithredu'r Fframwaith Integreiddio Mudwyr yn 2024.<br><br>Lleihau canlyniadau iechyd niweidiol, cam-drin domestig, neu gamfanteisio ymhlith mudwyr, gan gynnwys y rhai â statws mewnfudo ansicr, yn sgil llai o ofn gofyn am gymorth allweddol. | • Mae Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro (CAVHIS) yn parhau i gefnogi pobl sy'n cyrraedd yr ardal leol (yn enwedig pobl mewn Llety Lloches Cychwynnol) ac mae ei arbenigedd wedi cael ei rannu'n genedlaethol er mwyn paratoi ar gyfer pan fydd Wcreiniaid, Affganiaid a cheiswyr lloches yn cyrraedd pob rhan o Gymru.<br>• Caiff mudwyr dan orfod eu helpu i gael profion sgrinio iechyd cychwynnol ar ôl cyrraedd. Ni fydd mudwyr yn profi mynediad annheg at frechlynnau. Bydd y trawma sy'n wynebu pobl a gaiff eu gorfodi i fudo yn cael ei ddeall a'i liniaru.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu menter Straen Trawmatig Cymru (£1.2 miliwn y flwyddyn) er mwyn gwella iechyd a llesiant pobl o bob oed sy'n byw yng Nghymru ac sy'n wynebu risg o ddatblygu anhwylder straen wedi trawma (PTSD) neu anhwylder straen wedi trawma cymhleth (CPTSD) neu sydd ag un ohonynt yn barod. Mae gan Straen Trawmatig Cymru ffrwd waith benodol sy'n canolbwyntio ar ei gwneud yn haws i geiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr sydd wedi bod drwy ddigwyddiadau trawmatig gael cymorth iechyd meddwl. Hefyd, rydym wedi cytuno'n ddiweddar i ddarparu cyllid pellach i Straen Trawmatig Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn ariannu swyddi hyfforddi i gefnogi gweithredu Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr; plant a phobl ifanc; a'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ag anghenion o ran camddefnyddio sylweddau.<br>• Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen sy'n canolbwyntio iechyd meddwl a chymunedau ethnig lleiafrifol. Gan weithio gyda sefydliadau cymunedol, mae'r grŵp yn ceisio gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a'r cymorth a roddir ganddynt. Roedd sefydlu'r grŵp hwn yn ymrwymiad pwysig sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Bydd rôl y grŵp gorchwyl a gorffen, a oedd ar waith am 12 mis yn wreiddiol (ac a sefydlwyd yn ystod haf 2021), bellach yn parhau am ddwy flynedd ychwanegol.<br>• Rydym yn blaenoriaethu nifer o gamau gweithredu er mwyn sicrhau y gall pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol gael cymorth iechyd meddwl. Er enghraifft, naill ai mae staff sy'n darparu ein gwasanaeth iechyd meddwl brys '111, Pwyso 2' eisoes wedi cael hyfforddiant ar fod yn gymwys yn ddiwylliannol, neu byddant yn cael hyfforddiant o'r fath.<br>• Mae hyrwyddo cymhwysedd diwylliannol un flaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl i Gymru – ac rydym wedi rhoi cyllid ychwanegol i elusen Diverse Cymru er mwyn iddi barhau â'i chynllun a'i hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol.<br>• Rydym hefyd yn parhau i ddarparu adnoddau mewn sawl iaith – er mwyn helpu pobl mewn cymunedau lle nad Cymraeg na Saesneg yw eu dewis iaith i gael gofal iechyd. Un enghraifft ddiweddar o hyn yw cyfieithu adnoddau megis Pecyn Cymorth y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ar gyfer pobl sydd wedi bod drwy ddigwyddiadau trawmatig a deunyddiau i hyrwyddo llinell gymorth iechyd meddwl CALL (i fwy nag 20 o ieithoedd). Mae CALL hefyd yn defnyddio Language Line – sy'n golygu y gall unrhyw un sy'n ffonio'r llinell gymorth gael cymorth a chyngor yn ei ddewis iaith.<br>• Mae trefniadau monitro parhaus ar waith ar gyfer mentrau fel '111, Pwyso 2' a llinell gymorth iechyd meddwl CALL. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r Set Ddata Graidd Iechyd Meddwl. Rydym yn blaenoriaethu data demograffig – megis oedran, rhywedd ac ethnigrwydd – a fydd yn ein helpu i gynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion a gofynion ein poblogaeth. Rydym yn deall yr angen i ddata fod ar gael i'r cyhoedd ac rydym yn gweithio tuag at gael dangosfwrdd cenedlaethol cychwynnol ar gyfer gweithgarwch iechyd meddwl cyn gynted â phosibl. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| | • Yn fwy cyffredinol, gwyddom fod bylchau yn y data ar anghydraddoldebau iechyd. Mae'r bylchau hyn yn ei gwneud hi'n anodd asesu anghenion, targedu a blaenoriaethu ymyriadau yn gywir a gwerthuso eu heffaith ar bobl Cymru. Ar ben hynny, gellid ehangu effaith bosibl data wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd pe bai setiau data'n cael eu dwyn ynghyd yn fwy effeithiol. Mae is-grŵp data (sy'n rhan o brif Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG) yn gwneud gwaith i ystyried sut i fynd i'r afael â'r bylchau presennol a llywio ymyriadau a pholisïau yn y dyfodol. Drwy fynd i'r afael â'r bylchau hyn mewn data, bydd Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG yn sicrhau y caiff ffocws ar anghydraddoldebau iechyd ei wreiddio ym mhob rhan o waith blaenoriaethol sefydliadau GIG Cymru. |
| Caiff cyflogadwyedd mudwyr dan orfod ei gefnogi drwy godi ymwybyddiaeth o hawliau mudwyr i weithio ymhlith cyflogwyr, rhaglenni cyflogaeth ar gyfer sectorau penodol, megis Cynllun Meddygon Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid, ac eirioli dros hawl ceiswyr lloches i weithio. | • Drwy ein prosiect Integreiddio Mudwyr Cymru, rydym yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogwyr ynglŷn â chyfleoedd i recriwtio a chadw gweithwyr mudol. Bydd y Fframwaith Integreiddio Mudwyr yn cynnwys argymhellion ar gyfer dulliau llwyddiannus a'r hyn y dylid ei osgoi. Rydym yn archwilio ffyrdd o wella cyflogadwyedd mudwyr dan orfod, drwy ymgysylltu'n agosach â rhaglen Cymru'n Gweithio (a phartneriaid eraill) a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd sydd ar gael mewn busnesau sydd â diddordeb.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i roi hawl i geiswyr lloches weithio os na chaiff eu hawliad ei setlo o fewn chwe mis. Credwn fod hyn yn gwneud synnwyr economaidd, synnwyr moesol a synnwyr busnes. Yn anffodus, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod rhoi'r hawl hon i'r rhan fwyaf o geiswyr lloches. |
| Cynyddu cyfleoedd i fudwyr dan orfod ddilyn cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch drwy ystyried newidiadau i drefniadau cyllido a sicrhau bod ffoaduriaid yn parhau i gael eu hystyried yn 'fyfyrwyr cartref'. | • Mae ffoaduriaid yn parhau i gael eu hystyried yn 'fyfyrwyr cartref' yng Nghymru. Rydym hefyd wedi newid y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn er mwyn galluogi ceiswyr lloches i fod yn fuddiolwyr pan fyddant yn bodloni meini prawf eraill y gronfa. |
| Parhau i eirioli dros welliannau i systemau lloches a mudo er mwyn atal canlyniadau niweidiol i geiswyr lloches, ffoaduriaid neu fudwyr dan orfod eraill. | • Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU er mwyn eirioli o blaid gwelliannau i'r systemau ailgartrefu a lloches. Er nad yw'r systemau hynny wedi'u datganoli i Gymru, mae'r cyfrifoldebau am integreiddio mudwyr a chydlyniant cymunedol wedi'u datganoli. Mae gwelliannau i weithrediadau a pholisïau'r DU yn arwain at effeithiau cadarnhaol uniongyrchol ar ein hymdrechion i feithrin cysylltiadau da, gan leihau anghydraddoldebau a dileu gwahaniaethu.<br>• Rydym wedi ceisio eirioli o blaid newidiadau i Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 Llywodraeth y DU a'r Bil Mudo Anghyfreithlon ond mae ein hymdrechion wedi bod yn aflwyddiannus. Ar hyn o bryd, rydym yn archwilio ffyrdd o wella'r broses o gaffael a rhedeg llety lloches ledled Cymru ac argaeledd gwasanaethau cyngor cyfreithiol ar fewnfudo.<br>• O ran cynlluniau Wcráin, mae ein perthynas â'r Swyddfa Gartref a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi bod yn llawer mwy adeiladol a chydweithredol. Llywodraeth Cymru sydd wedi rheoli'r gweithrediad cynllun Cartrefi i Wcráin yng Nghymru, gan gynnwys llwybr Uwch-noddwr sydd wedi galluogi Llywodraeth Cymru i noddi ceiswyr noddfa yn uniongyrchol am y tro cyntaf.<br>• Ein nod yw i Lywodraeth y DU ddeall effaith ei phenderfyniadau ar Gymru ac ar gyfrifoldebau datganoledig yn llawn a rhoi parch cydradd i Lywodraeth Cymru pan fydd goblygiadau i Gymru, a hynny er budd pawb. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| Parhau i gefnogi a pharchu hawliau a buddiannau pennaf plant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches. Datblygu ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ymhellach gydag arweinwyr polisi. | • Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnal hawliau a lles pennaf plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru. Er gwaethaf ein pryderon ynglŷn â'r darpariaethau cysylltiedig yn Neddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 a'r Bil Mudo Anghyfreithlon (a phleidleisiau yn Senedd Cymru i beidio a chydsynio i Senedd y DU ddeddfu), mae Llywodraeth y DU wedi bwrw ymlaen â deddfwriaeth a fydd, yn ein barn ni, yn niweidio plant yng Nghymru.<br>• Rydym yn parhau i gynrychioli Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau ynglŷn â datblygu Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol a'i roi ar waith, a chyflwyno prosesau wedi'u symleiddio ar gyfer asesu hawliadau ar gyfer plant ar eu pen eu hunain a phlant sydd gydag oedolion sy'n ceisio lloches.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i helpu llywodraeth leol mewn perthynas â newidiadau y mae'r Swyddfa Gartref wedi'u cyflwyno i'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. Mae swyddogion yn parhau i archwilio ffyrdd o wella'r ffordd y mae'r Cynllun yn gweithredu yng Nghymru gyda Chonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a mynd i amrywiaeth o fforymau gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau y caiff Cymru ei chynrychioli pan gaiff newidiadau i bolisïau a dulliau cyflawni eu trafod.<br>• Rydym wedi parhau i roi buddsoddiad i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer helpu awdurdodau lleol i roi'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar waith ochr yn ochr â chefnogi cronfa ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ac sy'n gadael gofal.<br>• Drwy Gonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, rydym wedi rhoi hyfforddiant i ofalwyr maeth ar ddiwallu anghenion arbenigol plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, ynghyd â helpu awdurdodau lleol i roi llety i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ac sydd ag anghenion cymhleth.<br>• Rydym wedi datblygu canllawiau sy'n amlinellu, mewn ffordd sy'n addas i blant, beth yw hawliau plant a phobl ifanc wrth geisio lloches yng Nghymru. Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu cyfieithu i 12 o ieithoedd ac maent ar gael ar-lein gan gynnwys drwy fideo hygyrch sy'n addas i blant. |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

Mae newidiadau deddfwriaethol a newidiadau polisi gan Lywodraeth y DU yn ei gwneud hi'n anodd ac yn gymhleth cymryd rhai o'r camau gweithredu hyn. Bydd newidiadau deddfwriaethol yn achosi caledi a dryswch, ymhlith effeithiau niweidiol eraill. Mae'r newidiadau hyn hefyd yn atal ceiswyr lloches rhag ddefnyddio eu sgiliau a'u galluoedd i roi rhywbeth yn ôl i gymunedau, gan adael ceiswyr lloches mewn limbo ac yn methu cyfrannu, integreiddio na chynnal eu hunain a'u teuluoedd mewn cymdeithas.

Yn ogystal ag achosi oedi i'r system loches, mae polisïau fel y penderfyniad i ddefnyddio Gwesty Parc y Strade a'r ffordd ddilynol o ymdrin â defnyddio safleoedd ar gyfer llety lloches yn achosi tensiynau cymunedol sylweddol pan nad yw cymunedau'n cael eu cynnwys yn y broses, ac yn cael effaith ar dwristiaeth mewn ardaloedd sy'n ddibynnol iawn ar y sector hwn. Gellir gweld a theimlo'r effeithiau fisoedd ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud, a'r cymunedau sy'n teimlo'r effaith fwyaf.

## 2.10. Trosedd a Chyfiawnder

Cafodd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol, sy'n amlinellu camau gweithredu pendant i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ym mhob rhan o'r system, ei lansio ym mis Medi 2022. Yr ymrwymiad hwn yw'r tro cyntaf i bartneriaid cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y pedwar heddlu yng Nghymru, y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi ddod ynghyd i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sydd i'w gweld ar bob cam o'r system cyfiawnder troseddol. Mae panel annibynnol yn goruchwylio'r Cynllun, ac mae Cynllun Gweithredu dwy flynedd drafft wedi cael ei ddatblygu er mwyn pontio'r bwlch gweithredu. Hefyd, mae dangosfwrdd gwahaniaethau ar sail hil wedi cael ei greu, a bydd yn cael ei ddefnyddio i fesur effeithiolrwydd y Cynllun. Mae ymdrechion i wella amrywiaeth o fewn yr heddlu wedi cael eu gwneud drwy bolisïau cyfle cyfartal a monitro ethnigrwydd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Er mwyn sicrhau system cyfiawnder troseddol gwrth-hiliol a mwy cymwys yn ddiwylliannol, mae'r Tasglu Cydraddoldeb Hil, sy'n gyfrifol am roi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol ar waith, wedi sefydlu ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar gymhwysedd diwylliannol, addysg a hyfforddiant. Mae'r ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar ddod o hyd i'r pecynnau addysg a hyfforddiant effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymwneud â hil sydd ar gael ar hyn o bryd i gyflogeion ym mhob rhan o'r gweithlu cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau casineb â chymhelliant hiliol drwy gyfleoedd cyllido gan gynnwys Canolfan Cymorth Casineb Cymru, amrywiol ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a chyfleoedd cyllido drwy'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Cyfiawnder Troseddol** | |
| **Nod: Gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid eraill ym maes cyfiawnder troseddol (e.e. Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a'i aelodau) i greu system cyfiawnder troseddol wrth-hiliol yng Nghymru, gan fabwysiadu dull heriol a radical o wella canlyniadau a mynd i'r afael â hiliaeth systemig.** | |
| Ar y cyd â phartneriaid ym maes cyfiawnder troseddol, cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ym maes Cyfiawnder Troseddol i Gymru, gan nodi'r camau gweithredu diriaethol y byddwn yn eu cymryd ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac i greu system cyfiawnder troseddol wrth-hiliol. Cyflawni'r camau perthnasol y cytunwyd arnynt o dan y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ym maes Cyfiawnder Troseddol i Gymru uchod. Drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ym maes Cyfiawnder Troseddol i Gymru, gan sicrhau cynnydd a gwella canlyniadau. | • Cafodd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru ei lansio ym mis Medi 2022. Fe'i datblygwyd ar y cyd gan bartneriaid cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y pedwar heddlu yng Nghymru, y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yng Nghymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi saith ymrwymiad er mwyn helpu i sicrhau system gyfiawnder wrth-hiliol yng Nghymru yn ymarferol. Mae'r Cynllun yn ategu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac rydym wedi cytuno ar ddull o reoli'r rhyngweithio rhwng y ffordd y caiff y ddau gynllun eu cyflawni.<br>• Mae panel annibynnol yn goruchwylio Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol, a chafodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2023. Mae Cynllun Gweithredu dwy flynedd drafft wedi cael ei rannu â Llywodraeth Cymru er mwyn iddi wneud sylwadau arno.<br>• Drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn goruchwylio'r ffordd y caiff y Cynllun ei gyflawni. Aeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip i gyfarfod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar 22 Mawrth a chafodd ddiweddariad uniongyrchol am gynnydd. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Gwneud popeth o fewn gallu Llywodraeth Cymru o dan y system bresennol i fynd i'r afael â gwahaniaethau a chefnogi dull gweithredu gwrth-hiliol.** | |
| Drwy delerau'r cyllid a ddarparwn ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sicrhau bod heddluoedd yn arfer polisi cyfle cyfartal wrth gyflogi pobl, beth bynnag fo'u hil, rhyw/ hunaniaeth o ran rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran neu unrhyw anabledd. Monitro canlyniadau a herio yn ôl yr angen. Annog mwy o gamau cadarnhaol i recriwtio mwy o bersonél ethnig lleiafrifol ym mhob rhan o'r heddluoedd yng Nghymru ac ar bob lefel. Defnyddio Grŵp Llywio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Cymru i fonitro ethnigrwydd y swyddogion hyn yng Nghymru, gan herio mewn modd adeiladol os na fydd y niferoedd yn adlewyrchu poblogaeth ardal pob heddlu. | • Drwy delerau'r cyllid a ddarparwn ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn sicrhau bod heddluoedd yn arfer polisi cyfle cyfartal wrth gyflogi pobl, beth bynnag fo'u hil, rhyw/ hunaniaeth o ran rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran neu unrhyw anabledd. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall a yw cyfansoddiad gweithlu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gynrychiadol o ardal pob heddlu a herio os nad yw hyn yn wir.<br>• Caiff gwybodaeth am niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a oedd o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol ei rhannu â Llywodraeth Cymru gan yr heddluoedd fel rhan o'u ffurflenni monitro a gaiff eu cyflwyno bob chwarter. Craffwyd ar ffurflenni Chwarter 2 yng nghyfarfod dwyochrog y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu arweiniol ar 17 Ionawr 2023. Cytunwyd yn y cyfarfod ei bod yn hanfodol cynyddu cynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ymhlith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel bod heddluoedd yn gwbl gynrychiadol o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt ac er mwyn helpu i feithrin hyder ac ymgysylltu cadarnhaol.<br>• Ym mis Mawrth 2023, roedd 3.1% o'r 999 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a oedd yn eu swyddi yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd ychydig dros 6% o'r boblogaeth yng Nghymru yn ystyried eu hunain yn bobl o gefndir heb fod yn wyn, felly mae gwaith i'w wneud o hyd.<br>• Mae llythyr cynnig grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn cael ei baratoi a bydd yn cynnwys y disgwyliad i heddluoedd roi gwybodaeth gyfanredol am darddiad ethnig, rhywedd, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i Lywodraeth Cymru. Caiff cynnydd ei fonitro drwy ffurflenni chwarterol yr heddluoedd a'u hystyried yng Ngrŵp Llywio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Er mwyn ymateb i dystiolaeth glir gan randdeiliaid bod cryfhau'r sylfaen dystiolaeth i nodi gwahaniaethau ar sail hil yn y system gyfiawnder yn hanfodol, byddwn yn casglu ac yn cyflwyno data cadarn, manwl, amserol a chyson ar ethnigrwydd a hil yn y system gyfiawnder troseddol ac yn gweithio'n agos gyda phobl ethnig leiafrifol i wella eu gwybodaeth/ymddiriedaeth o ran y ffordd y caiff eu data eu defnyddio, er mwyn ennyn eu hyder i rannu data â'r llywodraeth a sefydliadau partner.** | |
| Codi ymwybyddiaeth o Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil Llywodraeth Cymru ymhlith partneriaid ym maes cyfiawnder troseddol yng Nghymru a nodi'r ffordd orau o helpu pob partner i wella'r dystiolaeth sydd ar gael ar wahaniaethau ar sail hil yn y system gyfiawnder yng Nghymru, a defnyddio hyn i gefnogi penderfyniadau a gwaith monitro polisi gwell.<br><br>Nodi'r bylchau mewn tystiolaeth mewn perthynas â phob maes, gan gynnwys data a gasglwyd ac a gofnodwyd ar ethnigrwydd a hil yn y system gyfiawnder troseddol, fel un o flaenoriaethau cyntaf yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil, drwy archwilio casgliadau data a ddelir/allbynnau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus/trydydd sector yn fwy cyffredinol.<br><br>Gan adeiladu ar yr asesiad cychwynnol hwn, mynd ar drywydd rhaglen o waith i wella'r sylfaen dystiolaeth er mwyn nodi gwahaniaethau ar sail hil yn y system gyfiawnder troseddol, gan gynnwys ymgysylltu'n barhaus â phobl ethnig leiafrifol i wella eu gwybodaeth/ymddiriedaeth o ran y ffordd y caiff eu data eu defnyddio, er mwyn ennyn eu hyder i rannu data. | • Fel rhan o'r gwaith i fonitro cynnydd o ran rhoi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol ar waith, mae dangosfwrdd gwahaniaethau ar sail hil wedi cael ei ddatblygu a gaiff ei lenwi â data gan bob un o'r partneriaid cyfiawnder troseddol sydd wedi ymrwymo i'r Cynllun. Caiff ei ddefnyddio i fesur effeithiolrwydd y cynllun.<br><br>• Bydd Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil Llywodraeth Cymru yn mesur llwyddiant cyffredinol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.<br><br>• Caiff swyddogion Llywodraeth Cymru o'r Uned Gwahaniaethau ar Sail Hil eu cynrychioli ar ffrwd waith Data a Pherfformiad Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol a byddant yn sicrhau bod gwaith y ffrwd waith hon yn cydgysylltu â'r gwaith a wneir yn yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil.<br><br>• Mae gwaith ymchwil yn cael ei gomisiynu o dan y Glasbrint Menywod ynglŷn â phrofiadau menywod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn y system cyfiawnder troseddol a'r ffactorau sy'n arwain at ganlyniadau anghymesur. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Meithrin ein sgiliau a'n hyder i ddeall sut beth yw system gyfiawnder wrth-hiliol ac annog a dylanwadu'n gadarn ar bolisi gwrth-hiliol gan Lywodraeth y DU.** | |
| Sicrhau y caiff swyddogion allweddol a'r rhai sy'n dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gyfleoedd datblygu a hyfforddi i ddeall a dadlau dros system gyfiawnder wrth-hiliol. Cymryd pob cam posibl i nodi anghenion a phrofiadau pobl ethnig leiafrifol, a phwysigrwydd dull gweithredu gwrth-hiliol a dealltwriaeth ohono, drwy ein hymateb i bolisi a deddfwriaeth Llywodraeth y DU ym maes cyfiawnder. | • Mae gan y Tasglu Cydraddoldeb Hil, sy'n helpu i roi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol ar waith, ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar gymhwysedd diwylliannol, addysg a hyfforddiant. Mae'n dod o hyd i becynnau addysg a hyfforddiant effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymwneud â hil sydd ar gael ar hyn o bryd i gyflogeion ym mhob rhan o'r gweithlu cyfiawnder troseddol yng Nghymru, gyda'r bwriad o sefydlu dull o roi hyfforddiant drwy'r system cyfiawnder troseddol gyfan sy'n gyson ac o ansawdd da.<br>• Tynnwyd sylw at bwysigrwydd gweithredu mewn modd gwrth-hiliol yn ymateb Llywodraeth Cymru i Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Feddiant Cyffuriau ac yn y canllawiau statudol ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol (darpariaeth yn Neddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd). Hefyd, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am ei dull o ymdrin â gwrth-hiliaeth yn y system cyfiawnder troseddol i Lywodraeth y DU fel rhan o'r ymateb i ymweliad Gweithgor y Cenhedloedd Unedig o Arbenigwyr ar Bobl o Dras Affricanaidd. Byddwn yn parhau i ddod o hyd i gyfleoedd i bwysleisio pwysigrwydd gwrth-hiliaeth fel rhan o'n busnes arferol. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Troseddau Casineb** | |
| **Nod: Sicrhau bod Cymru yn parhau i anelu at fod yn wlad wrth-hiliol sy’n lle diogel i fyw ynddo, drwy ddileu agweddau atgas a chefnogi’r rhai sy’n dioddef troseddau casineb â chymhelliant hiliol.** | |
| Gwella’r ffordd rydym yn cefnogi ac yn eirioli dros y rhai sydd wedi wynebu troseddau casineb ar sail hil drwy Ganolfan Cymorth Casineb Cymru ar ei newydd wedd, gan gynnwys ystyried achosion o gasineb croestoriadol a’r cymorth penodol y gall fod ei angen yn yr amgylchiadau hynny.<br><br>Ymgymryd â gwaith uniongyrchol gyda chyflawnwyr troseddau casineb er mwyn deall yn well sut y gellir lleihau achosion o gam-drin hiliol.<br><br>Codi ymwybyddiaeth o effaith troseddau casineb ar ddioddefwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol drwy ymgyrch ‘Mae Casineb yn Brifo Cymru’. Bydd yr ymgyrch hon yn ymdrin â’r rhai sy’n dioddef ac yn cyflawni troseddau casineb, a’r rhai sy’n dyst iddynt, drwy ddeunyddiau amrywiol. Caiff deunyddiau ymgyrchu eu datblygu ar y cyd â’r rhai y mae troseddau casineb ar sail hil wedi effeithio arnynt.<br><br>Creu trefniadau ariannu cynaliadwy i ariannu Diwrnod Cofio’r Holocost. | • Rydym yn ariannu Canolfan Cymorth Casineb Cymru, sy’n cael ei rhedeg gan elusen Cymorth i Ddioddefwyr Cymru, er mwyn darparu gwasanaeth eirioli a chyngor cyfrinachol am ddim i bobl sydd wedi dioddef troseddau casineb hiliol, gan gynnwys troseddau casineb croestoriadol.<br>• Rydym yn cydweithio â’r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru i edrych ar waith gyda chyflawnwyr troseddau casineb er mwyn deall yn well sut i leihau cam-drin hiliol, gan adeiladu ar dystiolaeth o gynlluniau dargyfeirio cyflawnwyr llwyddiannus eraill, ac edrych ar arferion cyfiawnder adferol.<br>• Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom ddyfarnu contract newydd i gyflawni cam nesaf ein hymgyrch gyfathrebu atal casineb, sef Mae Casineb yn Brifo Cymru, a fydd ar waith tan o leiaf fis Mawrth 2024.<br>• Rhoddir cyllid i Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio’r Holocost ar gyfer cyflogi gweithiwr cymorth yng Nghymru i annog gweithgareddau coffa yng Nghymru ar gyfer Diwrnod Cofio’r Holocost 2024. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Cydlyniant Cymunedol** | |
| **Nod: Mynd i'r afael â hiliaeth drwy greu cymunedau cydlynus ac integredig.** | |
| Gwella ein cymorth i greu cydlyniant cymunedol drwy adolygu'r llwyddiannau a'r meysydd i'w gwella yn ein Rhaglen Cydlyniant Cymunedol. | • Mae'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn ariannu wyth tîm ledled Cymru i roi cymorth rheng flaen i gymunedau, er mwyn helpu i fonitro a lliniaru tensiynau. Bydd y rhaglen yn parhau i gael ei hariannu tan 2025/26. |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

Goresgyn y bwlch gweithredu – sicrhau y caiff y weledigaeth ar gyfer newid a nodir yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ei gwireddu ac y bydd heddluoedd unigol, asiantaethau cyfiawnder ac ati yn llunio eu cynlluniau credadwy eu hunain sydd â ffocws pendant er mwyn sicrhau'r newid hwn.

## 2.11. Gofal Plant a Chwarae

Er mwyn sicrhau bod staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel a chynhwysol, yn cael eu cefnogi gan gynghreiriaid ac yn cael eu grymuso i fynd i'r afael ag arferion hiliol, ariannodd Llywodraeth Cymru brosiect Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL). Mewn cydweithrediad â CWLWM, llwyddodd y prosiect i ddatblygu adnoddau am ddim o safon uchel sy'n galluogi ymarferwyr ac uwch-arweinwyr i werthuso eu harferion yn feirniadol, cychwyn ar deithiau gwrth-hiliol, a gweithredu o safbwynt gwrth-hiliol er mwyn trawsnewid systemau, polisïau a phrosesau sefydledig sydd wedi peri i ganfyddiadau negyddol o unigolion ethnig leiafrifol barhau. Mae adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am wahaniaethu a bwlio wedi cael ei gynnal hefyd. Daethpwyd o hyd i adnoddau annigonol ac ychydig iawn o roi gwybod am achosion.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Llywodraethu Cymru Wrth-hiliol ac is-grwpiau er mwyn helpu i gyflawni nodau gofal plant a gwaith chwarae. Cafodd mentoriaid cymunedol o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol eu recriwtio er mwyn cynnig arbenigedd ar effaith hiliaeth ym maes gofal plant. Bydd y mentoriaid hyn yn gweithio gyda'r llywodraeth o fis Mehefin 2023 ymlaen, gan gyfrannu at wella mynediad a chynghreiriaeth yn y sector.

Mae mynd i'r afael â thangynrychiolaeth unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y sector gofal plant a chwarae yn her sylweddol. Nid oes llawer o ddata cadarn ar y gweithlu yng Nghymru, sy'n pwysleisio'r angen i gasglu a dadansoddi data cynhwysfawr. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae gwaith ymchwil yn cael ei wneud mewn dau gam er mwyn mapio'r gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru. Fel rhan o'r cam cyntaf, cafodd y ffynonellau data sydd eisoes yn bodoli eu hadolygu, ond daethpwyd o hyd i gyfyngiadau, a bydd swyddogion yn ceisio mynd i'r afael â nhw yn ystod yr ail gam.

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Gofal Plant a Chwarae** | |
| **Nod: Bydd staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel a chynhwysol, sydd wedi'u hadeiladu ar arweinyddiaeth wrth-hiliol ac yn cael eu cefnogi i wireddu eu potensial llawn, a chaiff staff ethnig lleiafrifol a'u cynghreiriaid eu grymuso i nodi arferion hiliol a mynd i'r afael â nhw.** | |
| Gan ganolbwyntio ar brofiad ymarferol, gwrth-hiliaeth, cynghreiriaeth a chymhwysedd diwylliannol, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector, ar y cyd â phartneriaid ethnig lleiafrifol, i lunio deunyddiau dysgu er mwyn helpu lleoliadau i gynnwys addysgu cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn lleoliadau gofal plant a chwarae a sicrhau bod ymarferwyr yn cael cymorth i wneud hynny. | Mae prosiect Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o waith ehangach Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i ddatblygu adnoddau dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ac uwch-arweinwyr yn y sector gofal plant, gwaith chwarae a blynyddoedd cynnar. Gwnaed hynny mewn partneriaeth â CWLWM, sef y corff ambarél sy'n cefnogi'r sector.<br>Mae'r adnoddau dysgu proffesiynol amrywiaeth a gwrth-hiliaeth newydd hyn, sydd o safon uchel ac ar gael am ddim, yn helpu pobl sy'n gweithio yn y sector gofal plant, gwaith chwarae a blynyddoedd cynnar i wneud y canlynol:<br>• gwerthuso eu harferion yn feirniadol<br>• ystyried eu teithiau gwrth-hiliol eu hunain<br>• archwilio sut y gallant weithredu o safbwynt gwrth-hiliol i newid systemau, polisïau a phrosesau sydd wedi gwreiddio canfyddiad negyddol o bobl ethnig leiafrifol ers amser maith. |
| Bydd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â phartneriaid yn y sector, yn ystyried sut i goladu ac adolygu pryderon ynglŷn â gwahaniaethu yn y gweithlu ac achosion o fwlio a godir gan staff. | • Mae Grŵp Llywodraethu Gofal Plant a Gwaith Chwarae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi comisiynu un o'i bartneriaid, sef CWLWM, i gynnal adolygiad er mwyn gweld i ba raddau y mae polisïau a gweithdrefnau'n bodoli yn y sector gofal plant a gwaith chwarae i roi gwybod am wahaniaethu a bwlio a chwyno am ddigwyddiadau hiliol.<br>• Mae cam cyntaf y gwaith hwn wedi'i gwblhau, a gwelwyd bod adnoddau bylchog ar waith heb fawr ddim rhoi gwybod am wahaniaethu, os o gwbl. Mae cam nesaf y gwaith hwn, sef datblygu pecyn cymorth arferion gorau, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. |

| Camau gweithredu | Cyflawniadau |
|---|---|
| **Nod: Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i wella mynediad at leoliadau gofal plant a chwarae yn ogystal â mynediad at gyfleoedd chwarae.** | |
| Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu gweithgor penodol. Bydd yn cynnwys cyrff cynrychioliadol y sector ac yn gweithio ochr yn ochr â phobl o Gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, er mwyn nodi'r rhwystrau a wynebir gan y cymunedau hyn i gael gafael ar wasanaethau. Bydd y gweithgor yn gwneud argymhellion ynglŷn â sut y gellir dileu rhwystrau er mwyn sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau. | • Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywodraethu Cymru Wrth-hiliol ac is-grwpiau er mwyn helpu i gyflawni nodau gofal plant a gwaith chwarae. Mae'r grwpiau hyn yn datblygu gweithgareddau i gyd-fynd â'r adnoddau dysgu proffesiynol, cynghreiriaeth a mentora cymunedol a gwaith ymchwil i lywio camau gweithredu yn y sector gofal plant a gwaith chwarae. Mae aelodaeth y grwpiau hyn yn cynnwys arbenigedd partneriaid yn y sector gofal plant a gwaith chwarae ac aelodau o'r mwyafrif byd-eang sy'n gweithio yn y sector hwn.<br>• Un rhan fawr o'r gwaith cynghreiriaeth yw rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu, cydweithio a chydgynhyrchu â'n rhanddeiliaid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Er mwyn helpu i gyflawni nodau ac amcanion gofal plant a gwaith chwarae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer recriwtio er mwyn penodi hyd at 10 unigolyn o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru sydd â gwybodaeth am effaith hiliaeth yn y sector gofal plant, gwaith chwarae a blynyddoedd cynnar, neu brofiad o hynny, i ddod yn fentoriaid cymunedol ar sail ymgynghorol.<br>• Mae'r mentoriaid cymunedol hyn wedi cael eu penodi a byddant yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru o fis Mehefin 2023 ymlaen. |

## Nodwch un her allweddol a wynebwyd wrth gyflawni neu geisio cyflawni eich amcan yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

Mae tangynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn amrywiaeth o sectorau a phroffesiynau wedi bod yn thema gyson mewn gwaith ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Yr un yw'r darlun yn y sector gofal plant a chwarae. Ar hyn o bryd, ni chaiff llawer o ddata cadarn eu casglu a'u dadansoddi mewn perthynas â'r gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud er mwyn cael set gadarn o ddata a thystiolaeth sy'n ymwneud ag ethnigrwydd y gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru.

Rydym yn gwneud gwaith ymchwil i fapio'r gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru a fydd yn ein helpu i ddeall mwy am y gweithlu, gan gynnwys mynd i'r afael â bylchau yn y data ar amrywiaeth. Cafodd y gwaith ymchwil ei ddylunio mewn camau.

Fel rhan o'r cam cyntaf, gwnaed gwaith ymchwil desg er mwyn adolygu'r ffynonellau data sydd eisoes yn bodoli. Gwyddom fod cyfyngiadau ar y data a gaiff eu casglu ar y gweithlu a, lle mae'r data a'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn annigonol i fapio'r gweithlu yn gywir, bydd swyddogion yn gweithio gyda'r contractwr i ddatblygu dull o gasglu'r data gofynnol yn ystod yr ail gam. Mae partneriaid CWLWM wedi bod yn rhan o gam cyntaf y gwaith ymchwil.

Mae'r gwaith hwn ar ddechrau cam dau ar hyn o bryd. Bydd yr ail gam yn cynnwys grwpiau ffocws ar gyfer ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae, rheolwyr lleoliadau a gwarchodwyr plant. Bydd y sesiynau hyn, a gaiff eu cynnal yn ystod mis Hydref 2023, yn bwysig er mwyn ein helpu i ddeall profiadau unigol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru. Hefyd, caiff cyfweliadau â'r gweithlu eu cynnal ym mis Ionawr 2024.

Fel rhan o drydydd cam prosiect mapio'r gweithlu, caiff y gwaith ymchwil ei ddefnyddio i ddechrau gweithredu ar yr argymhellion, a bydd hyn yn digwydd rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2024.

# Adran 3

# 3. Mynd y tu hwnt i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

### 3.1. Gwneud y cysylltiad â Threchu Tlodi a Hawliau Plant

Er nad oes amcanion penodol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ceir cyfraniadau trawsbynciol y dylid eu nodi o hyd wrth ystyried gweithredu trawslywodraethol ar wrth-hiliaeth a'r Cynllun Gweithredu. Mae'r ddau gyntaf yn enghreifftiau o waith a wnaed eleni (2023) sy'n dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â chydraddoldebau a hawliau mewn ffordd fwy eang a chydgysylltiedig:

- Drwy ymgysylltu ynghylch cydgynhyrchu'r **Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig** i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio safbwyntiau mwy na 3000 o unigolion sydd â phrofiad o fyw mewn tlodi. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys ffocws penodol ar bobl o deuluoedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Yn y dyfodol, bydd Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn pennu'r ffocws tymor hwy er mwyn i Lywodraeth Cymru gymryd camau gweithredu trawslywodraethol ynghylch gwaith cymorth i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau cysylltiedig a lliniaru effeithiau tyfu i fyny a byw mewn tlodi.
- Mae Cynllun **Hawliau Plant** Llywodraeth Cymru yn nodi sut y byddwn yn rhoi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth. Mae'r cynllun yn seiliedig ar bum egwyddor dull gweithredu'r Ffordd Gywir, a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru. Ymhlith y rhain mae cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu – gan sicrhau y caiff pob plentyn gyfle cyfartal i fod ar ei orau a pheidio â chael neb yn gwahaniaethu yn ei erbyn. Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd tystiolaeth fel sail i benderfyniadau'r llywodraeth a mynd i'r afael â chydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc. Mae'n nodi'r gofyniad i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant er mwyn asesu effaith polisïau a deddfwriaeth. Ymhlith y rhain mae ystyried yr effaith ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc a pha fesurau y gellir eu cymryd i'w lliniaru. Mae'r templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cadarnhau pwysigrwydd gwaith ymchwil a data ar blant a phobl ifanc er mwyn galluogi swyddogion i ddeall problemau posibl sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu. Mae'r model ymgysylltu yn amlinellu pwysigrwydd ymgysylltu â grwpiau amrywiol o blant a phobl ifanc â gwahanol brofiadau bywyd.

Mae'r cynllun Plant a Phobl Ifanc yn cynnig cydlyniaeth i'r gwaith sy'n cael ei wneud ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ar ran plant a phobl ifanc. Mae'n cynnwys blaenoriaeth i sicrhau y caiff plant a phobl ifanc o bob cefndir eu trin yn deg ac y dylid eu helpu i oresgyn rhwystrau a chyflawni eu potensial. Ar gyfer 2022-23, roedd hynny'n cynnwys gwella bywydau pobl â nodweddion gwarchodedig drwy gyfres o gynlluniau gweithredu sy'n ystyried hil, amhariad, rhywedd a LHDTC+.

Mae grant Llywodraeth Cymru yn helpu Plant yng Nghymru i gynnal rhaglen Cymru Ifanc. Mae hyn yn cynnig modd i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar waith y llywodraeth a sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Caiff data ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gwirfoddolwyr eu casglu a'u monitro er mwyn sicrhau bod model Cymru Ifanc yn gynrychiadol ac yn llywio rhagor o weithgarwch recriwtio wedi'i dargedu er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth. Gwneir ymdrechion penodol i sicrhau y bydd y bobl hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o beidio â chael eu clywed yn cael eu cynnwys ac yn gallu llywio meysydd polisi allweddol y llywodraeth.

Mae'r Cynllun Cyflenwi i Gymru yn nodi gweithgarwch rhwng 2020 a 2030 i gefnogi **cynhwysiant ariannol** a lleihau allgáu ariannol ar gyfer holl bobl Cymru. Cafodd y Cynllun hwn ei ddatblygu, a chaiff ei redeg, mewn partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Arian a Phensiynau a Llywodraeth Cymru. Mae'n rhan o Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol. Cyhoeddwyd y Cynllun Cyflenwi i Gymru yn 2022 yn dilyn gwaith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid.

### 3.2. Teuluoedd

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cydnabod bod cefnogi plant a theuluoedd yn ymrwymiad parhaus i Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar ofal plant a chwarae ond mae ein hymrwymiad i blant a theuluoedd yn ymestyn yn ehangach ac mae gwaith yn mynd rhagddo sy'n gwneud cyfraniad pwysig at gefnogi teuluoedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag effaith bosibl profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, cefnogi teuluoedd drwy wasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf, a chymorth ehangach i rieni, y berthynas rhwng rhiant a phlentyn ac amgylcheddau cartref.

## 3.3. Yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Fel yr esboniwyd yn yr adran flaenorol, nid oes camau gweithredu penodol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar gyfer y maes polisi hwn. Fodd bynnag, oherwydd dylanwad pellgyrhaeddol y gweithgarwch sy'n digwydd i roi'r Cynllun ar waith, mae gwaith yn cael ei wneud i ystyried camau pellach ym mhortffolios yr Amgylchedd, Materion Gwledig a Newid Hinsawdd. Mae'r pwyslais presennol ar gasglu tystiolaeth:

- Mewn adolygiad llenyddiaeth cyflym o hiliaeth (a ariannwyd gan UKRI), daethpwyd o hyd i'r angen am ragor o waith ymchwil i lywio gwaith datblygu polisïau.
- Proses Deialog Gymunedol sy'n gwahodd pobl o gefndir ethnig lleiafrifol i gymryd rhan mewn sesiynau archwilio dwfn neu gymryd rhan mewn rôl ymgynghorol.
- Gweithio gyda'r Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb Hil ar ddadansoddiad gofodol o gymdogaethau ethnig amrywiol yng Nghymru ac i ba raddau y maent yn dod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael ac yn cael mynediad at fannau gwyrdd.
- Contractio Cynghorydd Gwrth-hiliaeth i gynghori swyddogion Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig wrth ddadansoddi tystiolaeth a datblygu polisïau.
- O ganlyniad i Alwad am Dystiolaeth 'Pontio Teg' ynghylch cyfleoedd a bygythiadau sy'n gysylltiedig â phontio i economi carbon isel, tynnwyd sylw at heriau a gwendidau sy'n effeithio ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas, ar wahanol adegau ac mewn gwahanol leoedd ledled Cymru.
- Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymylol yn ystod ac yn dilyn [Wythnos Hinsawdd Cymru] (ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022) a thynnwyd sylw at y canlynol:
  - Awydd am fwy o raglenni a gweithdai hygyrch fel y rhain sy'n ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chadwraeth, wedi'u trefnu'n amlach mewn ardaloedd lleol ledled Cymru.
  - Yr angen i'r Llywodraeth wneud dewisiadau gwyrdd yn fwy apelgar gan wneud y sefyllfa bresennol yn llai deniadol ar yr un pryd.
  - Arwyddocâd y defnydd o arferion a thechnolegau cynaliadwy gan ddiwydiant a busnesau er mwyn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd i'r eithaf.
  - Pwysigrwydd camau ymarferol, megis codi sbwriel a glanhau traethau, er mwyn mynd i'r afael â heriau amgylcheddol a hybu amgylchedd glanach a mwy cynaliadwy.
- Bydd y gwahanol feysydd tystiolaeth hyn yn cynnig darlun o'r ffordd y daw hiliaeth i'r amlwg, a bydd sectorau Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn gofyn i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol am eu profiadau er mwyn cydgynhyrchu cynllun gweithredu, gan adlewyrchu proses wreiddiol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Heriau

- Daeth arolwg Amrywiaeth Hiliol mewn Proffesiynau Amgylcheddol 2022 i'r casgliad mai ffermio, pysgodfeydd a choedwigaeth fel grŵp yw'r proffesiwn lleiaf amrywiol yn y DU. Gyrfa mewn sectorau amgylcheddol oedd yr olaf ond un yn y rhestr.

## 3.4. Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad, gan gynnwys noddi'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru

Nid oes camau gweithredu penodol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ond mae'r tîm yn gweithio yn unol ag egwyddorion Cymru wrth-hiliol:

- Dechreuodd pedwar aelod newydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn eu swydd ar 1 Ionawr 2023. Llwyddodd y penodiadau hyn i wella amrywiaeth yn aelodaeth yr Awdurdod, gan gynnwys y fenyw ddu gyntaf i gael ei phenodi'n Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru.
- Ariannu rôl Arweinydd Strategol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, i nodi a datblygu mesurau i wella amrywiaeth staff, aelodau ac ymwelwyr ym mhob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yng Nghymru.

# Adran 4

# 4. Mesur Effaith

**Gan ddeall effaith bellgyrhaeddol y Cynllun hwn a'r adnoddau y bydd eu hangen i gyflawni ei amcanion, ymrwymodd Llywodraeth Cymru gyllid er mwyn helpu Tîm Gweithredu canolog i oruchwylio'r ffordd y caiff y cynllun ei roi ar waith a sefydlu'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil. Mae Tîm Gweithredu Cymru Wrth-hiliol bellach ar waith yn llawn ac yn arwain ar ddatblygu a monitro'r nodau a'r camau gweithredu yn y cynllun. Mae'n helpu i roi'r cynllun ar waith drwy gydweithio'n agos â swyddogion polisi mewnol a rhanddeiliaid allanol.**

## 4.1. Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil (RDEU)

### Creu Adnoddau a Systemau ar gyfer Mesur Dangosyddion Amcan RDEU

### Gweithgareddau hyd yma:

Mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn gweithio yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer gwaith ymchwil y llywodraeth, felly rydym yn cynnal asesiadau cadarn, dibynadwy a gwrthrychol er mwyn canfod a yw newid yn digwydd. Mae RDEU yn y broses o ddatblygu fframwaith ar gyfer mesur a gwerthuso effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys cynnal ymarferion mapio helaeth ac adolygu argaeledd data a thystiolaeth fel rhan o gam cyntaf y gwaith o asesu dichonoldeb a datblygu opsiynau i fesur effaith y cynllun. Mae'r fframwaith a ffefrir ar hyn o bryd yn cysylltu'r datganiadau o newid a ddymunir a nodir yn y cynllun â chamau gweithredu pob pennod a'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol er mwyn datblygu system ar gyfer mesur newid dros amser. Mae'r Grŵp Atebolrwydd Allanol wedi bod yn cydweithio ag RDEU, gan lywio'r gwaith o ddatblygu dangosyddion at y diben hwn, yn enwedig mewn perthynas â datblygu gwaith ymchwil ar brofiad bywyd. Hefyd, mae aelodau o'r Grŵp Atebolrwydd Allanol yn eistedd ar is-grŵp ymchwil gydag RDEU er mwyn helpu i ddatblygu'r broses o werthuso effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae RDEU yn mynychu holl is-grwpiau gwahanol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a sefydlwyd fesul maes pennod er mwyn rhoi'r camau gweithredu ar waith a monitro eu cynnydd. Mae hyn yn ein galluogi i oruchwylio'r hyn sy'n digwydd mewn perthynas â phob rhan o'r cynllun a pha waith ymchwil a chasglu data gwahanol sy'n digwydd ac i roi cymorth ac arweiniad i feysydd polisi.

### Edrych i'r dyfodol

Gydag arweiniad y Grŵp Atebolrwydd Allanol a thîm gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, bydd RDEU yn defnyddio'r ymarferion mapio sydd eisoes wedi cael eu cynnal ac yn gweithio i ddatblygu fframwaith er mwyn mesur effaith y Cynllun Gweithredu yn erbyn y datganiadau o newid a ddymunir a nodir yn y Cynllun ei hun. Gan weithio gyda gwahanol feysydd polisi a chydweithwyr ym maes dadansoddi o fewn Llywodraeth Cymru, bydd RDEU yn nodi unrhyw waith ymchwil neu gasglu data sy'n cael ei wneud gan y meysydd hynny ac yn cysylltu'r canlyniadau hynny â'r datganiadau o newid a ddymunir. Wrth i'r system gael ei sefydlu, bydd RDEU yn monitro i weld ble mae bylchau yn y dystiolaeth, yn enwedig lle y ceir prinder tystiolaeth sy'n gysylltiedig â datganiad penodol o newid a ddymunir. Un rôl allweddol i RDEU yw ceisio llenwi'r bylchau hynny yn y dystiolaeth.

Bydd sefydlu is-grwpiau polisi/arbenigol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn helpu RDEU i feithrin dealltwriaeth lawer ehangach o ffyrdd o fesur effaith y Cynllun. Bydd hyn hefyd yn helpu RDEU i ddeall ble mae data'n bodoli mewn perthynas â phob maes polisi a ble mae bylchau'n bodoli sy'n ymwneud yn benodol â'r datganiadau o newid a ddymunir.

Byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol er mwyn parhau â'n gwaith i ddeall y dirwedd ymchwil.

### Heriau

O'r ymarferion mapio y mae RDEU eisoes wedi'u cynnal, a sgyrsiau â'r gwahanol feysydd polisi, mae'n amlwg bod bylchau sylweddol o ran argaeledd a manylder data. Yn aml, nid yw'r data sy'n bodoli yng Nghymru yn ymwneud yn benodol â Chymru, ac maent i'w cael mewn setiau data ar gyfer Cymru a Lloegr. Gan fod rhai meysydd polisi yn faterion nad ydynt wedi'u datganoli, ni chânt eu casglu ar lefel Cymru o reidrwydd. Lle mae data ar gyfer Cymru yn bodoli, mae'n bosibl bod y samplau'n rhy fach i'w cyhoeddi neu eu dadgyfuno yn ôl ethnigrwydd neu hil.

Gan nad oes system gyffredinol y cytunwyd arni ar gyfer dosbarthu ethnigrwydd a hil, mae gwahanol sefydliadau'n defnyddio gwahanol ddulliau dosbarthu wrth gasglu data. Hefyd, gall gwahaniaethau o ran dulliau dosbarthu fodoli o fewn sefydliad, a bydd hyn i gyd yn arwain at anawsterau wrth fesur dangosyddion yn erbyn y datganiadau o newid a ddymunir.

## Amcan Ymchwil a Thystiolaeth RDEU

### Gweithgareddau hyd yma

Mae RDEU yn gweithredu fel cyswllt rhwng y gwahanol feysydd polisi ar faterion sy'n ymwneud â data a gwaith ymchwil, ac mae'n cyflawni rôl allweddol o ran dylanwadu ar gasglu mwy o ddata a thystiolaeth, a data a thystiolaeth o ansawdd gwell. Ar hyn o bryd, mae'r uned yn rhoi cyngor ar waith ymchwil sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ym meysydd addysg bellach, gofal plant a chwarae, polisïau adnoddau dynol Llywodraeth Cymru, yr hinsawdd a mynediad at fannau gwyrdd, troseddu a chyfiawnder, a Safon Cydraddoldeb Hil Gweithlu'r GIG. Drwy weithio gyda gwahanol feysydd polisi, mae RDEU yn gallu rhannu gwybodaeth a phrofiadau, rhoi cyngor ar arferion gorau a deall y data a gaiff eu casglu yn y gwahanol feysydd polisi, yn ogystal â thynnu sylw at fylchau mewn data a thystiolaeth.

Ym mis Gorffennaf 2023, gwnaethom gyhoeddi bwletin ystadegol sy'n edrych yn benodol ar wahaniaethau rhwng grwpiau ethnig mewn perthynas ag iechyd, tai, addysg a statws economaidd yng Nghymru. Mae'r bwletin ystadegol hwn yn cynnwys data cryno ar grwpiau ethnig yn ôl amrywiaeth o ganlyniadau economaidd-gymdeithasol ar gyfer unigolion ac aelwydydd a oedd yn drigolion arferol yng Nghymru ar adeg y cyfrifiad, ym mis Mawrth 2021. Mae'n dweud wrthym sut roedd canlyniadau o'r fath yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig ledled Cymru. Mae'r bwletin hefyd yn cynnwys dadansoddiad o grwpiau ethnig yn ôl oedran a rhyw er mwyn rhoi cyd-destun Gwahaniaethau grŵp ethnig mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU.

### Edrych i'r dyfodol

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn ymdrin â phob rhan o Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys camau gweithredu ar gyfer pob adran. Mae cynnydd wedi cael ei wneud mewn sawl maes, a'r gobaith yw y bydd hyn yn parhau ac yn gwasgaru i feysydd eraill lle nad oes gwaith ymchwil wedi'i wneud eto neu lle mae'r dystiolaeth yn brin. Drwy weithio gyda'r meysydd polisi, gall RDEU roi cyngor ar waith ymchwil sydd eisoes wedi'i wneud, a gwaith ymchwil a gaiff ei wneud yn y dyfodol, drwy ganolbwyntio ar ddangosyddion a all fwydo i mewn i'r datganiadau o newid a ddymunir. Nid yw hynny'n golygu y bydd yr holl waith ymchwil sy'n cael ei wneud neu'r dystiolaeth sydd eisoes ar gael yn berthnasol i'r datganiadau o newid a ddymunir ond, gyda'i gilydd, dylai'r holl wahanol feysydd polisi allu bwydo i mewn i un neu fwy o'r datganiadau hynny mewn rhyw ffordd.

Hefyd, mae'r Grŵp Atebolrwydd Allanol wedi dangos yn glir ei bod yn bwysig canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth am brofiadau bywyd a chofnodi effaith unigol profiadau blaenorol o hiliaeth, yn ogystal â straeon llwyddiant. Bydd tynnu sylw at straeon llwyddiant a phrofiadau bywyd cadarnhaol unigolion yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddangos yr effaith gadarnhaol y mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi'i chael ar fywydau pobl, yn enwedig lle y ceir prinder data ar faes polisi penodol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ym maes dadansoddi o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu proses o brif ffrydio casglu data a thystiolaeth ar ethnigrwydd.

### Heriau

Yr her fwyaf sy'n wynebu RDEU mewn perthynas â gwaith ymchwil yw prinder data ar ethnigrwydd. Mae hyn yn berthnasol i'r holl wahanol feysydd polisi, ac mae'n bosibl na fydd modd casglu data, yn enwedig lle mae'r maes polisi yn fater nad yw wedi'i ddatganoli.

Felly, ceir perygl y bydd gorddibyniaeth ar rai meysydd polisi i ddarparu digon o dystiolaeth i fwydo i mewn i'r datganiadau o newid a ddymunir.

Yn ogystal â'r awgrym gan y Grŵp Atebolrwydd Allanol ynghylch pwysigrwydd casglu gwybodaeth am brofiadau bywyd, mae heriau sylweddol yn gysylltiedig â chasglu'r gwaith ymchwil hwnnw hefyd. Caiff data meintiol eu casglu'n rheolaidd (er bod eu hansawdd a'u manylder yn annigonol ar adegau) ond ni chaiff data ansoddol ar brofiadau bywyd eu casglu. Mae hyn yn golygu bod angen gwneud gwaith ymchwil newydd er mwyn cofnodi'r profiadau bywyd hynny.

# Adran 5

# 5. Casgliad

**Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Er bod cynnydd wedi cael ei wneud o ran rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith, mae gwaith i'w wneud o hyd. Drwy barhau i gydweithio, ymgysylltu, a dilyn strategaethau sy'n seiliedig ar ddata, ein nod yw creu cymdeithas sydd wir yn wrth-hiliol ac sy'n cynnig cyfle cyfartal i bawb.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod blwyddyn gyntaf y broses o roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith wedi canolbwyntio ar ddatblygu prosesau a pholisïau y mae eu mawr angen i gefnogi newid parhaol yn y maes hwn. Bydd fersiwn nesaf Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn canolbwyntio ar fynd ati i weithredu a chyflawni canlyniadau gwell ar gyfer pobl ethnig leiafrifol. Mae goruchwylio a mesurau strategol yn hollbwysig er mwyn adennill momentwm ar gyfer canlyniadau i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'n hollbwysig blaenoriaethu'r camau gweithredu hyn, gan fod disgwyl canlyniadau clir erbyn mis Mehefin 2024.

Gwyddom fod y Cynllun hwn yn adeg dyngedfennol i sectorau wneud newid cadarnhaol a gwneud rhywbeth radical, felly dylai'r momentwm barhau ar gyflymder. Mae'n amlwg bod gan Gymru awydd gwirioneddol am newid, ac mae hyn i'w weld yn y gweithgareddau y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i barhau â'i hymdrechion i ddatgymalu seilwaith hiliol a gormesol a gweithio gyda phartneriaid a chymunedau er mwyn creu Cymru y gallwn fod yn falch ohoni.